
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Adroddiad ymgynghori




## LLWYBR TEITHIO LLESOL CASTELL-NEDD I GIMLA

## 1. Cyflwyniad

### Beth yw Teithio Llesol?




Nod Teithio Llesol yw galluogi cynifer o bobl â phosibl i ddewis opsiynau eraill heblaw dulliau teithio modurol, ac fe'i diffinnir fel cerdded, beicio ac olwyno er mwyn gwneud siwrneiau byr pwrpasol beunyddiol, heb gynnwys siwrneiau a wneir at ddibenion hamdden neu am resymau cymdeithasol yn unig.

### Cynllun Teithio Llesol Arfaethedig Castell-nedd i Gimla

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot bob amser yn gweithio ar brosiectau i wella cyfleusterau teithio, yn enwedig ar gyfer cerdded, beicio ac olwyno, ac mae'n awyddus i sicrhau y caiff pawb gyfle i fwydo eu meddyliau a'u syniadau yn ôl. Felly, yn ystod hydref 2024, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â'r gwelliannau arfaethedig i'r cysylltiadau cerdded a beicio rhwng Castell-nedd a Chimla.

Ymhlith y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt mae:

- Lledu llwybrau troed er mwyn eu gwneud yn llwybrau cyd-ddefnyddio y gall pobl gerdded a beicio arnynt.
- Llwyfannau uwch ar gyffyrdd er mwyn helpu trigolion â llai o symudedd i'w croesi.
- Agor y gatiau ym Mhorthdy'r Gnoll a'r Gatiau Coffa er mwyn galluog beicwyr i fynd drwyddynt.
- Creu rhannau newydd o lwybrau cyd-ddefnyddio.

Mae dau ymarfer ymgynghori wedi cael eu cwblhau ar gyfer y cynllun, a hynny ar y materion canlynol:-

- Diwygio'r is-ddeddf i ganiatáu beicio ar y llwybr drwy'r gerddi coffa yng Nghastell-nedd ac yn ardal Ystad y Gnoll rhwng y gerddi coffa a thir comin Cimla.
- Cynigion y cynllun i wella cyfleusterau teithio llesol rhwng Castell-nedd a chaeau chwarae Cefn Saeson.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y diwygiad i'r is-ddeddf i'w gweld yn Atodiad J.

Mae'r testun isod yn rhoi manylion yr ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar gynigion y cynllun i wella cyfleusterau teithio llesol rhwng Castell-nedd a chaeau chwarae Cefn Saeson.

### Cyfeirnod Grid

Dechrau'r Cynllun (Castell-nedd): 275652, 197380

Diwedd y Cynllun (Cimla): 277727, 195854

## 2. Gweithgareddau Ymgysylltu

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 23 Medi 2024 a 28 Hydref 2024. Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu mewn sawl ffordd, gan gynnwys y canlynol:

- Cafodd poster ei ddosbarthu i leoliadau lleol, megis Llyfrgell Castell-nedd, Canolfan Hamdden Castell-nedd, siopau cyfleustra lleol, a'r cwt sgowtiaid lleol. Mae copi o'r poster i'w weld yn Atodiad A.
- Anfonwyd neges e-bost ar 23/09/2024 at 283 o randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol, gan gynnwys trigolion a ofynnodd am gael cymryd rhan, i'w hysbysu ynghylch dechrau'r ymgynghoriad a rhoi gwybod iddynt ble y gallent ddod o hyd i'r lluniadau, y disgrifiad o'r cynllun a'r holiadur. Mae copi o'r neges e-bost a rhestr o'r grwpiau rhanddeiliaid y cafodd ei hanfon atynt i'w gweld yn Atodiad B.
- Cyhoeddwyd gwybodaeth am y cynnig, ynghyd â lluniadau'r cynllun, ar dudalen we Teithio Llesol y cyngor. Gellir gwelld copi o'r wybodaeth a gyhoeddwyd a'r lluniadau yn Atodiad C.
- Rhannwyd postiadau ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad. Cyflawnodd y postiad gwreiddiol ar y cyfryngau cymdeithasol 6,542 o argraffiadau (cyfanswm y nifer o weithiau y gwnaeth y cynnwys ymddangos ar sgriniau defnyddwyr). Hefyd, bu nifer o drafodaethau ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol trigolion lleol, lle y rhannwyd sawl darn o wybodaeth anghywir am y cynigion, gan gynnwys gosod lôn feiciau ar wahân oddi ar y ffordd ar Gilgant Cimla. Er mwyn mynd i'r afael â'r wybodaeth anghywir hon, cyhoeddodd y cyngor eglurhad ar dudalennau Facebook rhai o'r trigolion. Mae rhagor o fanylion am y postiadau hyn i'w gweld yn Atodiad D.
- Roedd copïau caled o gynlluniau a holiaduron yr ymgynghoriad ar gael yn Llyfrgell Castell-nedd, er mwyn rhoi cyfle i bobl heb fynediad at gyfrifiadur gymryd rhan.
- Cyhoeddwyd erthygl yng nghylchlythyr ar-lein y cyngor, a gafodd ei e-bostio at fwy na 3,000 o bobl ym mis Hydref 2024. Gellir gweld yr erthygl drwy ddilyn y ddolen hon: Newyddion CnPT 77
- Anfonwyd ymarfer gwaith cartref i bob ysgol leol, yn gofyn i ddisgyblion nodi a mapio problemau sy'n ymwneud â theithio ar eu ffordd i'r ysgol. Mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad E.
- Cynhaliwyd digwyddiad galw heibio wyneb yn wyneb ar 10 Hydref 2024 yn Neuadd Clive Roberts (Cwt Sgowtiaid Cimla), SA11 3PF, o 2pm tan 7pm. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i randdeiliaid a thrigolion drafod y dyluniadau teithio llesol gyda thîm y prosiect. Roedd copïau papur o'r arolwg ar gael hefyd. Mae cynllun y digwyddiad i'w weld yn Atodiad F, a chafodd ei hwyluso gan bum aelod o Dîm Teithio Llesol CBSCNPT. Daeth llawer iawn o aelodau o'r cyhoedd i'r digwyddiad hwn.
- Rhyddhawyd datganiad i'r wasg a gafodd ei gyhoeddi mewn tri phapur newydd: Swansea Bay News, Wales 247, a The Herald. Mae enghreifftiau o'r sylw a gafwyd yn y wasg i'w gweld yn Atodiad G.

Cafodd dolen i arolwg yr ymgynghoriad ei rhannu drwy MS Forms. Fel y soniwyd eisoes, roedd copïau caled o'r cynlluniau a chwestiynau'r ymgynghoriad hefyd ar gael yn Llyfrgell Castell-nedd er mwyn galluogi pobl heb fynediad at gyfrifiadur i gymryd rhan. Mae copi o'r cwestiynau i'w weld yn Atodiad H.

Roedd yr holl ddeunyddiau hyrwyddo ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac roedd siaradwr Cymraeg yn bresennol yn y digwyddiad ymgysylltu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl yr angen.

## 3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad


Cafwyd cyfanswm o 224 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae'r ymatebion i'w gweld yn llawn yn Atodiad I. Mae adrannau 3.1 a 3.2 yn rhoi cipolwg ar y prif ymatebion meintiol, themâu'r ymatebion ansoddol, ac ymateb y swyddogion.


Yn gryno, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, mae'r swyddogion yn ystyried y newidiadau canlynol i'r cynigion:

- Newidiadau i'r dyluniad ar gyfer cyffordd Poplars Avenue – diwygio'r fynedfa/allanfa unigol.
- Llwyfannau uwch ar Gilgant Cimla – cynigiwyd opsiynau ar gyfer byrddau uwch a chroesfannau uwch – mae croesfannau isel yn cael eu hystyried erbyn hyn.
- Mannau croesi ger lleoliadau safleoedd bysiau – wedi'u hychwanegu at gynigion y cynllun
- Gatiau Coffa – rydym yn ystyried peidio ag agor y prif gatiau oherwydd gellir ystyried bod agoriadau'r gatiau ochr yn fannau cyfyng
- Man croesi o Gilgant Cimla i'r Gnoll
- Gofyniadau goleuo yn y Gnoll ar gyfer y llwybr arfaethedig –
- Er mwyn arafu beicwyr ar y llwybr rhwng Cilgant Cimla a'r Gnoll, rydym yn bwriadu gosod 'cawell' o folardiau yn lle'r pileri brics presennol. Mae'r nodwedd ddylunio hon wedi cael ei hychwanegu at y cynigion o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- Adolygu'r cynnig i osod goleuadau traffig yn lle'r gylchfan – gwaith modelu traffig i'w gwblhau.
- Mae sylwadau wedi cael eu nodi ynglŷn â darllenadwyedd y ffeiliau PDF, a chaiff y rhain eu hystyried cyn unrhyw weithgareddau ymgynghori ar deithio llesol yn y dyfodol;
- Caiff sylwadau ar y cwestiynau yn yr holiadur eu hystyried wrth lunio cwestiynau unrhyw ymgyngoriadau ar deithio llesol yn y dyfodol.

### 3.1 Ymatebion Meintiol – Cefnogaeth o Blaid y Prosiect ar y Cyfan

Mae graffiau sy'n dangos yr ymatebion meintiol ar gael yn Atodiad I. Yn nodedig ddigon, roedd cefnogaeth o blaid y prosiect ar y cyfan, gyda thros 56% o'r ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth neu gefnogaeth gref o blaid y cynllun.






*Roedd Cwestiwn 6 yn gofyn y canlynol: 'Rydym yn ystyried dau opsiwn ar gyfer gwneud gwelliannau cerdded a beicio i Gilgant Cimla. Nodwch pa opsiwn sydd orau gennych:'

- Opsiwn 1: Llwyfannau uwch arfaethedig er mwyn arafu'r traffig a helpu cerddwyr i groesi'r ffordd.
- Opsiwn 2: Llwyfannau uwch arfaethedig er mwyn helpu cerddwyr i groesi'r ffordd.

** O hyn, dadansoddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth o godau post trigolion Cilgant Cimla yn arbennig (SA11 3NN, SA11 3NP, SA11 3NR, SA11 3PF).

- Dywedodd 35% (78 mewn nifer) eu bod yn byw yn un o'r pedwar cod post yng Nghilgant Cimla
- O'r rhain, dewisodd y mwyafrif, sef 62% (49 mewn nifer) opsiwn 2 ar gyfer Cilgant Cimla: llwyfannau uwch arfaethedig er mwyn helpu cerddwyr i groesi'r ffordd, sy'n cyd-fynd â'r ymateb cyffredinol

### 3.2 Ymatebion Ansoddol

Mae canlyniadau'r arolwg i'w gweld yn Atodiad I.   Mae themâu'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu grwpio isod ac mae swyddogion y cyngor wedi ymateb i bob thema.


**Cyfeiriadau:**

ATAG – Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol

MDC – MapDataCymru Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol | MapDataCymru


PCC12 – Polisi Cynllunio Cymru

| Thema yn yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad | Nifer yr ymatebion | Ymateb Swyddogion y Cyngor |
|---|---|---|
| **1. Atebion Cadarnhaol** | **Cyfanswm = 24** | ➢ Diolch i bob un o'r 224 o gyfranogwyr a gwblhaodd ein harolwg. Roedd 57% o blaid y newidiadau arfaethedig a chafwyd amrywiaeth o atebion cadarnhaol.<br>➢ Rydym yn ymrwymedig i helpu i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau mai cerdded a beicio fydd y dulliau teithio y bydd pobl Cymru yn eu ffafrio ar gyfer siwrneiau byr.<br>➢ Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o sicrhau y caiff 45% o siwrneiau eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040. Mae cynyddu amlder teithio llesol i'r ysgol gan blant yn rhan allweddol o hyn. |
| ➢ Bydd byrddau uwch yn ei gwneud yn haws mynd o le i le ar sgwter symudedd | 2 | |
| ➢ Bydd hyn yn creu llwybr hamdden/cymudo diogel drwy'r Gnoll. | 1 | |
| ➢ Ddim yn berffaith ond croesewir y gwelliannau i ddiogelwch. | 1 | |
| ➢ Bydd hyn yn cadw cerddwyr a beicwyr yn fwy diogel. | 1 | |
| ➢ Gwych i annog mwy o feicio a cherdded. | 1 | |
| ➢ Gall rhieni fynd â'u plant i'r ysgol ar droed yn lle gyrru. | 1 | |
| ➢ O blaid mynediad drwy'r Gnoll a'r Gatiau Coffa | 1 | |
| ➢ O blaid goleuadau lefel isel. | 1 | |
| ➢ O blaid cael gwared ar gyfyngiadau ar feicio mewn rhannau o'r Gnoll. | 1 | |
| ➢ Bydd arafu ceir yn welliant. | 1 | |

<table>
<tr><td>➢ Bydd rhoi wyneb newydd ar y palmentydd yn beth da.</td><td>1</td><td rowspan="4"></td></tr>
<tr><td>➢ O blaid y cynigion mewn egwyddor / ddim yn hoffi'r dyluniadau.</td><td>10</td></tr>
<tr><td>➢ O blaid y llwybrau ac eithrio Cilgant Cimla.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>➢ Gwnewch fwy o hyn.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>2. Bysiau</td><td>Cyfanswm = 1</td><td rowspan="2">➢ Fel rhan o'r cynigion teithio llesol, nid oes cynlluniau i effeithio ar unrhyw lwybrau a/neu amserlenni bysiau yn yr ardal.</td></tr>
<tr><td>➢ A fydd effaith ar lwybrau bysiau?</td><td>1</td></tr>
<tr><td>3. Ceir/gyrru</td><td>Cyfanswm = 7</td><td rowspan="4">➢ Nid oes cynigion i greu llwybrau newydd lle mae dreifiau i'w cael eisoes.<br>➢ Mae'r cynigion wedi cael eu datblygu mewn cydymffurfiaeth ag ATAG, sy'n ystyried cyflymder a lefel y traffig ac yn argymell darpariaeth ar gyfer beicwyr yn unol â hynny. Gweler y rhan berthnasol o ATAG isod:<br><br>Tabl 11.1 – Darpariaeth beicio ar lwybrau cyswllt<br>
</td></tr>
<tr><td>➢ Bydd llwybrau newydd yn ei gwneud hi'n anos tynnu allan o ddreifiau.</td><td>5</td></tr>
<tr><td>➢ Mae goryrru yn destun pryder</td><td>1</td></tr>
<tr><td>➢ Rhy brysur ar gyfer cynllun teithio llesol.</td><td>1</td></tr>
</table>


| | | |
|---|---|---|
| **4. Tir Comin Cimla** | **Cyfanswm = 4** | ➢ Rydym yn cynnig gosod goleuadau traffig yn lleoliad y fân gylchfan er mwyn ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr groesi. Mae gwaith modelu traffig yn cael ei wneud er mwyn canfod a fydd goleuadau traffig yn cael effaith andwyol ar lifau traffig yn yr ardal hon. Os felly, ni chaiff y goleuadau traffig eu gosod.<br>➢ Gwnaeth y swyddogion ystyried y posibilrwydd o osod llwyfan mwy ar y gylchfan a byddant yn ei ystyried eto os penderfynir bod yr opsiwn o osod goleuadau traffig yn amhriodol.<br>➢ Caiff gwelliannau eu gwneud i gyfleusterau croesi i gerddwyr yn y lleoliad hwn. |
| ➢ Bydd angen cyrbiau isel ychwanegol ar y fân gylchfan. | 1 | |
| ➢ Dylech gael gwared ar y gylchfan a rhoi llwyfan mwy yn ei lle. | 3 | |
| **5. Arolwg/Digwyddiad Ymgynghori** | **Cyfanswm = 13** | ➢ Rydym yn ymddiheuro i unrhyw un na chafodd gyfle i siarad ag un o gynrychiolwyr y cyngor yn y digwyddiad. Roedd gennym chwe aelod o staff yn bresennol yn y digwyddiad a gwnaed pob ymdrech i siarad â phawb drwy gydol y digwyddiad pum awr o hyd.<br>➢ Gan fod ardal y cynllun mor fawr, byddai anfon llythyrau i bob un o'r aelwydydd yr effeithir arnynt wedi bod yn gostus. Gwnaethom ymdrechu i roi cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl i'r ymgynghoriad (gweler adran: 2. Gweithgareddau Ymgynghori.)<br>➢ Mae sylwadau wedi cael eu nodi ynglŷn â darllenadwyedd y ffeiliau PDF, a chaiff y rhain eu hystyried cyn unrhyw weithgareddau ymgynghori ar deithio llesol yn y dyfodol.<br>➢ Diolch am yr holl adborth ynglŷn â'r holiadur, a gaiff ei ystyried wrth lunio cwestiynau unrhyw ymgyngoriadau ar deithio llesol yn y dyfodol. |
| ➢ Heb gael cyfle i siarad ag un o gynrychiolwyr y cyngor am fod y digwyddiad yn rhy brysur. | 1 | |
| ➢ Dylai llythyrau fod wedi cael eu hanfon i bob un o'r aelwydydd yr effeithir arnynt. | 1 | |
| ➢ Roedd y ffeiliau PDF yn anodd eu darllen. | 1 | |
| ➢ Opsiynau cyfyngedig i ateb/angen mwy o opsiynau eraill. | 9 | |
| ➢ Pam nad oes opsiwn arall ar gyfer cerdded a beicio wedi'u harwahanu? | 1 | |
| **6. Beicio** | **Cyfanswm = 26** | ➢ Mae ein hadran Gofal Strydoedd benodedig yn ymdrechu i gynnal a chadw'r holl lwybrau beicio/cerdded sy'n eiddo i'r |

| | | |
|---|---|---|
| ➢ Mae'r llwybrau presennol yn llawn tyfiant. | 1 | cyngor yng Nghastell-nedd Port Talbot. Defnyddiwch y ffurflen isod i roi gwybod am unrhyw broblemau penodol sy'n ymwneud â chynnal a chadw: [Rhowch wybod – Castell-nedd Port Talbot]<br>➢ Er mwyn arafu beicwyr ar y llwybr rhwng Cilgant Cimla a'r Gnoll, rydym yn bwriadu gosod 'cawell' o folardiau yn lle'r pileri brics presennol. Mae'r nodwedd ddylunio hon wedi cael ei hychwanegu at y cynigion o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgynghoriad cyhoeddus.<br>➢ Ymchwiliwyd i lwybrau eraill drwy Barc y Gnoll. Mae ardaloedd ym Mharc y Gnoll wedi'u dynodi'n 'Goetir Hynafol' sy'n ei gwneud hi'n anodd gwella llwybrau penodol yn unol â safonau ATAG.<br>➢ Nod y cynigion yw gwella cyfleusterau cerdded a beicio, gan sicrhau na chaiff y naill ddull teithio flaenoriaeth dros y llall. O ran hawliau tramwy, mae gan draffig cerbydau a beicwyr flaenoriaeth dros fyrddau/llwyfannau uwch. Mae gan gerddwyr hawl tramwy ar groesfannau dynodedig megis croesfan sebra (Rheol 19 Rheolau'r Ffordd Fawr). |
| ➢ Bydd cynnydd yn nifer y beicwyr yn gwneud yr ardal yn anniogel. | 7 | |
| ➢ Mae angen mesurau gostegu traffig er mwyn arafu beicwyr ar y llwybr cyd-ddefnyddio rhwng y Gnoll a Chilgant Cimla ac ar y ffordd. | 3 | |
| ➢ Ym mha ffordd y mae Cilgant Cimla yn stryd dawel o ystyried yr holl geir wedi'u parcio. | 1 | |
| ➢ Mae beicwyr yn cael eu ffafrio dros gerddwyr. | 1 | |
| ➢ Gall beicwyr ddefnyddio'r ffordd. Nid oes angen y cynllun. | 4 | |
| ➢ Paentio marciau ar y ffordd yw'r cyfan y mae angen ei wneud. | 1 | |
| ➢ Bydd beicwyr yn ei chael hi'n anodd beicio i fyny'r rhiw. | 4 | |


<table>
<tr>
<td>➢ Mae angen llwybr o dir comin Cimla i Bont-rhyd-y-fen/Afan Argoed.</td>
<td>3</td>
<td rowspan="2">➢ Mae'r cynigion wedi cael eu datblygu mewn cydymffurfiaeth ag ATAG, sy'n ystyried cyflymder a lefel y traffig ac yn argymell darpariaeth ar gyfer beicwyr yn unol â hynny. Gweler y rhan berthnasol o ATAG isod. Felly, oherwydd cyflymder a lefel y traffig ar Riw Cimla, bydd rhoi beicwyr ar y ffordd yn allgáu'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.<br><br>Tabl 11.1 – Darpariaeth beicio ar lwybrau cyswllt<br><br><br><br><br>➢ O ran Cilgant Cimla, mae ATAG yn awgrymu bod 'yr holl strydoedd tawel lle mae cyflymderau isel a lefelau isel o draffig yn eu gwneud yn addas i gerdded a beicio, heb fod angen seilwaith beicio pwrpasol.' Ni chaiff parcio ei ystyried wrth ddynodi strydoedd tawel. Ar strydoedd tawel, gellir defnyddio symbolau beicio i arwyddo llwybrau beicio a dynodi'r safle cywir ar gyfer beicio ar y ffordd gerbydau.</td>
</tr>
<tr>
<td>➢ Bydd yn fwy tebygol y bydd beicwyr yn mynd ar y palmentydd lle mae llwyfannau/cyrbiau isel pan fyddant ar y ffordd.</td>
<td>1</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | <br>➢ Mae graddiannau serth ar hyd dringfa Heol Cimla i gyd, ac mae'r llwybr arfaethedig drwy Gilgant Cimla yn cynnwys rhiw fer cyn graddiant mwy gwastad am weddill y llwybr.<br>➢ Ceir llwybrau Teithio Llesol (arfaethedig) ar gyfer y dyfodol a fydd yn cysylltu Cimla â Phont-rhyd-y-fen, fel y gwelir ar MapDataCymru. Mae'r llwybrau hyn y tu allan i gwmpas y cynllun presennol hwn.<br>➢ Mae Cilgant Cimla eisoes yn cynnwys cyrbiau isel sy'n galluogi trigolion i ddefnyddio dreifiau preifat. Ni fydd ychwanegu llwyfannau uwch yn cynyddu'r cyfleoedd i feicwyr fynd ar y palmentydd fawr ddim. |
| **7. Ecoleg** | **Cyfanswm = 5** | ➢ Lluniwyd y dyluniadau mewn ymgynghoriad ag adran Bioamrywiaeth y cyngor er mwyn sicrhau na chollir ecoleg yn ddiangen fel rhan o'r cynlluniau.<br>➢ Bydd unrhyw fioamrywiaeth a gollir o ganlyniad i'r cynllun hwn yn cael ei liniaru a'i gyfoethogi yn ardal Cimla yn unol â [Pholisi Cynllunio Cymru 12.](#)<br>➢ O ran cael gwared ar goed yn y cynllun, mae'r cynigion yn cynnwys cael gwared ar ddwy goeden anaeddfed sydd wedi'u nodi'n rhai marw/heintiedig. Caiff chwe choeden newydd eu plannu yn eu lle yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 12 (gweler y rhan berthnasol isod.) Mae'r coed hyn ym Mharc y Gnoll ac nid ydynt ar Dir Comin Cimla – nid oes bwriad i gael gwared ar goed o Dir Comin Cimla. |
| ➢ Caiff yr amgylchedd naturiol ei ddifetha gan bobl yn heidio i'r lle. | 1 | |
| ➢ Mae cael gwared ar goed ar Dir Comin Cimla yn annerbyniol. | 1 | |
| ➢ Colli coed. Ddim yn dda i fioamrywiaeth. | 2 | |

| | | |
|---|---|---|
| ➢ A fydd y bwriad i gael gwared ar leiniau las yn cael ei liniaru yn rhywle arall? | 1 | ➢ *'Caiff y coed newydd eu plannu gan ddilyn cymhareb sy'n gymesur ag ansawdd a phwysigrwydd amgylcheddol ac ecolegol y goeden (coed) a gollwyd a rhaid gwneud hynny ar y safle yn ddelfrydol, neu'n union wrth ymyl y safle, gan blannu o leiaf 3 coeden o fath tebyg a maint cymharol am bob coeden a gollwyd.'* |
| **8. Tystiolaeth** | **Cyfanswm = 16** | ➢ Mae saith Llwybr Teithio Llesol ar gyfer y dyfodol wedi cael eu harchwilio ar gyfer cerdded a beicio rhwng Castell-nedd a Chimla er mwyn casglu'r dystiolaeth angenrheidiol.<br>Nod yr adnoddau archwilio cerdded a beicio yw sicrhau dull cyson o asesu llwybrau teithio llesol ledled Cymru. Mae'r adnoddau'n ystyried dangosyddion sy'n cyfrannu at gyflawni pum egwyddor allweddol llwybr teithio llesol (cyfforddusrwydd, diogelwch, uniongyrchedd, cydlyniant ac atyniad).<br>Mae'r adnodd cerdded yn rhoi sgôr i 20 o ddangosyddion, ac mae'r adnodd cerdded yn rhoi sgôr i 25 o ddangosyddion. Rhoddir sgôr i bob dangosydd allan o uchafswm o 2 bwynt, ac mae uchafswm o 40 o bwyntiau ar gael ar gyfer llwybrau cerdded, a 50 ar gael ar gyfer llwybr beicio. Wedyn, caiff y sgoriau hyn eu trosi'n ganrannau er mwyn canfod p'un a yw llwybr yn 'llwyddo' neu'n 'methu'. Rhaid i lwybr gael 70% neu fwy i lwyddo.<br>Nodir rhai ffactorau 'methiant difrifol' yn erbyn rhai o'r dangosyddion, e.e. ar gyfer cerdded dylid nodi 'methiant difrifol' os oes cyrbiau isel a phalmentydd botymog yn absennol ar hyd y llwybr (gan olygu bod y llwybr yn anhygyrch i ddefnyddwyr â rhai cymhorthion symudedd).<br>Mae pob un o'r saith llwybr ar gyfer y dyfodol wedi methu yn yr archwiliadau ac mae angen gwneud gwelliannau iddynt er mwyn iddynt lwyddo a chael eu trosi'n Llwybrau Teithio Llesol Presennol.<br>➢ Mae nifer o arolygon traffig wedi cael eu cynnal ar hyd y llwybr a'r llwybrau ochr er mwyn canfod cyflymder a lefel y traffig ar hyn o bryd. |
| ➢ A oes unrhyw dystiolaeth o'r angen am y cynllun hwn. | 12 | |
| ➢ Dim damweiniau wedi'u cofnodi yn cynnwys beiciwr, cerddwyr, na cheir. Pam mae angen y cynllun? | 4 | |

| | | |
|---|---|---|
| | | ➢ Mae'r archwiliadau a'r arolygon traffig wedi llywio'r dyluniadau arfaethedig ar gyfer y cynllun hwn.<br>➢ Dengys ystadegau damweiniau ar gyfer yr ardal fod pum damwain wedi cael eu cofnodi o fewn ardal yr astudiaeth rhwng 2020 a 2023. Roedd rhai o'r damweiniau hyn yn cynnwys cerddwyr a beicwyr.<br>➢ Mae teithio llesol yn flaenoriaeth allweddol yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – Llwybr Newydd – ac mae wedi'i nodi ar frig yr hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy sy'n arwain ein holl weithgareddau trafnidiaeth. Dyma'r flaenoriaeth er gwaethaf unrhyw ystadegau damweiniau.<br>**Hierarchaeth teithio cynaliadwy**<br>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.<br> |
| **9. Parc y Gnoll** | **Cyfanswm = 21** | ➢ Nid oes cilfachau parcio dynodedig wrth bwll isaf y Gnoll – mae parcio wedi'i wahardd yn yr ardal hon. Mae mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â pharcio y tu allan i gwmpas y prosiect hwn.<br>➢ Bydd y llwybr o Gilgant Cimla i'r Gnoll yn cyrraedd safonau ATAG ar gyfer llwybrau cyd-ddefnyddio. |
| ➢ Mae angen mynd i'r afael â pharcio wrth y pwll isaf. | 1 | |
| ➢ Mae angen gwneud y llwybr rhwng Cilgant Cimla a'r Gnoll ychydig yn lletach. | 2 | |

<table>
<tr><td>➢ Bydd y newidiadau i'r llwybr o Gilgant Cimla i'r Gnoll yn annog mwy o feiciau modur.</td><td>6</td><td rowspan="6">➢ Nid oes gennym dystiolaeth o gynnydd mewn gweithgarwch beiciau modur mewn cynlluniau eraill lle mae llwybrau cyd-ddefnyddio wedi cael eu cyflwyno.<br>➢ Bydd y tro 180 gradd ar y llwybr rhwng Cilgant Cimla a'r Gnoll yn ei gwneud yn ofynnol i feicwyr arafu'n naturiol i fynd o gwmpas y tro.<br>➢ Bydd goleuadau lefel isel yn gwneud y llwybr yn weladwy. Mae opsiynau eraill ar gyfer y llwybr tuag at Gilgant Cimla yn cael eu hystyried oherwydd presenoldeb bywyd gwyllt nosol yn yr ardal.<br>➢ Bydd symbolau beiciau wedi'u paentio ar y ffordd ger pwll isaf y Gnoll yn rhybuddio defnyddwyr y ffordd am bresenoldeb beicwyr. Caiff llinellau ildio ychwanegol eu paentio er mwyn dweud wrth gerbydau am ildio i draffig sy'n dod tuag atynt wrth groesi'r argae.<br>➢ Nod Teithio Llesol yw galluogi cynifer o bobl â phosibl i ddewis opsiynau eraill heblaw dulliau teithio modurol, ac fe'i diffinnir fel cerdded, beicio ac olwyno er mwyn gwneud siwrneiau byr pwrpasol beunyddiol, heb gynnwys siwrneiau a wneir at ddibenion hamdden neu am resymau cymdeithasol yn unig. Dim ond ar gyfer Teithio Llesol y gellir defnyddio'r cyllid ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer llwybr beicio i deuluoedd yn y Gnoll gan y byddai'n cael ei ystyried yn llwybr hamdden.<br>➢ Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i osod diffibrilwyr.</td></tr>
<tr><td>➢ Mae'r llwybr o Gilgant Cimla i'r Gnoll yn cynnwys cornel a all fod yn beryglus pan fydd beicwyr yn dod i lawr y rhiw. Mae angen goleuadau ar y gornel hon hefyd.</td><td>4</td></tr>
<tr><td>➢ Bydd goleuadau wrth ymyl pwll isaf y Gnoll yn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol.</td><td>4</td></tr>
<tr><td>➢ Mae'n beryglus cyfeirio beicwyr heibio i faes parcio'r pwll isaf.</td><td>2</td></tr>
<tr><td>➢ Mae angen creu llwybr beicio ar wahân yn y Gnoll ar gyfer teuluoedd.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>➢ Mae angen diffibriliwr yn y parc.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>10. Cyffordd Poplars Avenue/Cilgant Cimla</td><td>Cyfanswm = 7</td><td rowspan="2"></td></tr>
<tr><td>➢ Llai o welededd ar gyffyrdd wedi'u culhau.</td><td>2</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td rowspan="2">➢ Bydd culhau'r ffordd gerbydau a lleihau'r tro yn helpu i arafu cerbydau ac yn golygu y bydd angen llai o weledd i gerddwyr groesi cyffordd yn ddiogel. Gellir cadw'r llinell dymuniad cerddwyr hefyd. Gweler ffigur 12.1 isod sy'n dyfynnu Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.<br>
</td></tr>
<tr><td>➢ Llai o weledd ar gyffordd Poplars Avenue.</td><td>5</td></tr>
<tr><td>11. Gatiau Coffa</td><td>Cyfanswm = 39</td><td rowspan="7">➢ O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ac yn dilyn trafodaethau gyda Trafnidiaeth Cymru er mwyn sicrhau na fyddwn yn allgáu defnyddwyr, rydym yn ystyried peidio ag agor y Gatiau Coffa canol.<br>➢ Nid yw allweddi RADAR yn hygyrch i bawb ac maent yn gallu cyfyngu ar y llif ar hyd llwybrau dynodedig i bobl heb allweddi o'r fath. Mae cynlluniau blaenorol a ddefnyddiodd allweddi RADAR wedi arwain at achosion o adael rhwystrau ar agor yn ddiamcan. Gall hyn beri pryderon diogelwch lle bo'r gât/rhwystr yn peri atalfa annisgwyl.</td></tr>
<tr><td>➢ Bydd agor y gatiau'n caniatáu mynediad i werthwyr cyffuriau.</td><td>2</td></tr>
<tr><td>➢ Bydd caniatáu i feicwyr fynd drwodd yn gwneud y lle'n beryglus.</td><td>8</td></tr>
<tr><td>➢ Dylid gadael y Gerddi Coffa fel y maent.</td><td>16</td></tr>
<tr><td>➢ Dylai mwy o opsiynau fod wedi cael eu cynnig yma.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>➢ Mae agor y gatiau yn amharchus.</td><td>11</td></tr>
<tr><td>➢ Gosodwch rwystr â system allweddi radar er mwyn agor y gatiau ar gyfer sgwteri symudedd.</td><td>1</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **12. Parcio** | **Cyfanswm = 20** | ➢ Mae parcio ar unrhyw lwyfan uwch yn groes i'r rheolau; fodd bynnag, mae Rheolau'r Ffordd Fawr (Rheol 243) hefyd yn dweud:<br><br>Peidiwch â stopio na pharcio:<br>• O fewn 10 metr i gyffordd, ac eithrio mewn lle parcio wedi'i awdurdodi.<br>• Lle mae'r cwrb wedi cael ei ostwng er mwyn helpu defnyddwyr cadeiriau olwyn a defnyddwyr cymhorthion symudedd modur.<br>➢ Dim ond pe bai opsiwn 1 ar gyfer C6 yn cael ei ddewis yn yr ymgynghoriad hwn y byddai'r cynigion yn cyfyngu ar barcio. Gan nad yw hynny wedi digwydd, ni fydd cyfyngiadau sylweddol ar barcio fel rhan o'r cynnig hwn.<br>➢ Nid oes cynlluniau i gynyddu nifer y Swyddogion Gorfodi Sifil ar ôl cwblhau'r cynllun hwn. |
| ➢ Mae angen llinellau melyn dwbl ar Gilgant Cimla. | 1 | |
| ➢ Mwy o broblemau gyda rhieni'n gollwng eu plant i fynd i'r ysgol. | 1 | |
| ➢ Bydd cyfyngiadau parcio'n cynyddu. | 17 | |
| ➢ Bydd nifer y wardeiniaid traffig yn cynyddu. | 1 | |
| **13. Llwybrau** | **Cyfanswm = 11** | ➢ Diolch am eich sylwadau. Caiff gwelliannau i'r llwybrau a'r mannau croesi eu cynnwys fel rhan o'r cynllun hwn. |
| ➢ Maent mewn cyflwr gwael ac mae angen eu gwella. | 11 | |
| **14. Llwyfannau/Croesfannau uwch** | **Cyfanswm = 42** | ➢ Bydd llwyfannau'n cynnig cyfleusterau croesi uwch er mwyn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr, gan helpu'r rhai â symudedd cyfyngedig i groesi'r ffyrdd. Bydd y llwyfan hefyd yn rheoli cyflymder cerbydau ar y ffordd, a all wneud croesi'r llwyfannau yn brofiad mwy dymunol.<br>➢ Gan drigolion Cilgant Cimla a'i ffyrdd cyffiniol y cafwyd canran uchel o'r safbwyntiau a oedd yn erbyn gosod y llwyfannau. Yng ngoleuni hyn ac o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgynghoriad, caiff y bwriad i osod llwyfannau ei adolygu gyda'r posibilrwydd o osod cyrbiau isel/palmentydd botymog yn eu lle.<br>➢ Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r 224 o arolygon a gwblhawyd. Mae'n canolbwyntio ar sylwadau a oedd yn ymwneud â 'llwyfannau' neu 'arian' sydd ynghlwm wrth y cynllun: |
| ➢ Byddant yn cynyddu tagfeydd o amgylch Rhodfa'r Ddraenen Wen. | 1 | |
| ➢ Nid oes mo'u hangen. | 10 | |
| ➢ Defnyddiwch gyrbiau isel yn eu lle. | 2 | |
| ➢ Byddant yn achosi llifogydd. | 2 | |
| ➢ Byddant yn gwneud croesi ar gyffyrdd yn fwy peryglus. | 2 | |
| ➢ Mwy peryglus. | 10 | |


| | | |
|---|---|---|
| ➢ Nid oes mo'u hangen gan fod cyrbiau isel eisoes y tu allan i dai. | 1 | Dywedodd 19% o'r holl arolygon (42 o bobl) nad oedd angen y llwyfannau. Roedd 40% (17 o'r 42 o bobl hynny) yn byw ar Gilgant Cimla. |
| ➢ Nid oes mo'u hangen gan fod terfyn cyflymder 20mya ar y stryd yn barod. | 1 | |
| ➢ Gormod ohonynt yn y cynllun. | 1 | |
| ➢ Bydd plant yn eu defnyddio fel neidiau. | 1 | |
| ➢ Byddant yn achosi difrod i geir. | 3 | |
| ➢ Byddant yn creu hawl tramwy ffug i gerddwyr. | 1 | |
| ➢ Byddant yn cynyddu sŵn. | 1 | |
| ➢ Byddant yn cynyddu llygredd gan geir. | 3 | |
| ➢ Byddant yn ei gwneud hi'n anos beicio i fyny'r rhiw. | 2 | |
| ➢ Bydd y llwyfannau'n ei gwneud hi'n anos i gerbydau danfon nwyddau barcio. | 1 | |

| Allwedd | |
|---|---|
| (gwyrdd golau) | Cynllun – Gwastraff arian |
| (pinc) | Dim angen llwyfannau |
| (gwyrdd) | Trigolion Cilgant Cimla |
| (melyn) | Ffyrdd sy'n ymuno â Chilgant Cimla |


| Cyfanswm yr Arolygon a Gwblhawyd | 224 | Lleoliad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cilgant Cimla | Ffyrdd gerllaw Gilgant Cimla | Cyfanswm |
| Cynllun - Gwastraff arian | 20% (45) | 36%(16) | 29%(13) | 65% |
| Nid oes angen llwyfandir | 19% (42) | 40%(17) | 36%(15) | 76% |
| Llwyfannau + Gwastraff arian | 6% (13) | 38%(5) | 24%(3) | 62% |
| Llwyfannau neu Gwastraff arian | 33%(74) | 38%(28) | 34%(25) | 72% |

| **15. Cyffordd Poplars Avenue** | **Cyfanswm = 20** | |
|---|---|---|
| ➢ Cadwch y rhan o ffordd sy'n arwain i'r Gogledd-ddwyrain o Poplars Avenue i Gilgant Cimla. Tynnwch y rhan fach arall sy'n mynd tua'r De-ddwyrain. | 1 | ➢ Diolch am eich sylwadau. Mae'r rhain wedi cael eu hystyried a bydd y dyluniad arfaethedig ar gyfer Poplars Avenue yn cael ei ailddylunio i ymgorffori rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn. |
| ➢ Pryder ynglŷn â'r gyffordd wedi'i hailddylunio. | 2 | |
| ➢ Mae angel i'r triongl glaswellt aros. | 7 | |
| ➢ Gallai'r triongl glaswellt gael system unffordd o'i gwmpas. | 1 | |
| ➢ Bydd cael gwared ar y glaswellt yn llai atyniadol/yn ddrwg i'r amgylchedd. | 4 | |

| | | |
|---|---|---|
| ➢ Mae'r newidiadau'n wastraff arian. | 2 | |
| ➢ Bin baw cŵn. Mae angen ei symud o ardal y triongl glaswellt ar Gilgant Cimla. Peryglus i gael mynediad dros y ffordd. | 3 | |
| **16. Eiddo** | **Cyfanswm = 1** | ➢ Diolch am eich sylw. Nid ydym yn ymwybodol bod hyn wedi digwydd yn achos unrhyw gynlluniau tebyg eraill. |
| ➢ Bydd y cynllun yn gostwng eu gwerth | 1 | |
| **17. Gwelliannau Ffyrdd** | **Cyfanswm = 6** | ➢ Bydd gosod croesfan isel rhwng Cilgant Cimla a'r fynedfa i'r Gnoll yn cael ei ystyried.<br>➢ Ceir croesfan wrth Tesco yn barod.<br>➢ Ni fyddai'n ymarferol cyflwyno ardal 'cadwch yn glir' gyferbyn â CK's gan fod Gorchmynion Rheoleiddio Traffig eisoes ar waith. |
| ➢ Mae angen croesfannau wrth Tesco a phyllau isaf y Gnoll. | 1 | |
| ➢ Mae angen croesfan o Gilgant Cimla i lwybr mynedfa'r Gnoll. | 4 | |
| ➢ Cyflwynwch ardal 'cadwch yn glir' gyferbyn â CK's. | 1 | |
| **18. Llwybr Cyd-ddefnyddio** | **Cyfanswm = 20** | ➢ Diffinnir llwybr cyd-ddefnyddio fel llwybr neu arwyneb sydd ar gael i gerddwyr a beicwyr ei ddefnyddio, heb nodweddion na marciau ffisegol i'w gwahanu. Ar y briffordd, caiff ei greu fel arfer drwy drosi'r droedffordd gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 65 o Ddeddf Priffyrdd 1980.<br>➢ Er mwyn creu llwybr cyd-ddefnyddio, mae angen i led llwybrau gydymffurfio â'r safonau ATAG a nodir isod. Felly, mae angen lledu llwybrau er mwyn bodloni'r gofynion hyn.<br>➢ ATAG DE401 – Llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr a beicwyr, ochr yn ochr â'r ffordd.<br>➢ ATAG DE403 – Llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr a beicwyr, i ffwrdd o'r ffordd. |
| ➢ Peryglus i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. | 1 | |
| ➢ Bydd y llwybr tuag at y Gnoll yn beryglus. | 3 | |
| ➢ Dim angen lledu'r llwybrau. | 1 | |
| ➢ Mae'r hawl tramwy rhwng cerddwyr a beicwyr yn ddryslyd. | 1 | |
| ➢ Defnyddiwch ochr dde Cilgant Cimla yn lle hyn. | 1 | |
| ➢ Annhebygol o gynyddu nifer y defnyddwyr. | 1 | |
| ➢ Peryglus i gerddwyr. | 11 | |
| ➢ Onid yw'n anghyfreithlon beicio ar lwybr. | 1 | |
| **19. Goleuadau Traffig** | **Cyfanswm = 14** | ➢ Ceir man croesi ar gyffordd Heol Cwm Afan/Bwlch Road yn barod.<br>➢ Rydym yn ystyried gosod goleuadau traffig yn lle'r fân gylchfan ar gyffordd Heol Cwm Afan/Bwlch Road er mwyn gwella diogelwch i gerddwyr a cherbydau, gan fod pum damwain wedi digwydd ar y briffordd gyfagos yn ystod y tair blynedd diwethaf gan arwain at fân anafiadau i naw person. O'r pum damwain hyn, roedd tair yn cynnwys cerddwyr ac |
| ➢ Symudwch y lleoliad a awgrymir i gyffordd Heol Cwm Afan/Bwlch Road. | 1 | |
| ➢ Byddant yn cynyddu tagfeydd. | 12 | |

<table>
<tr><td></td><td></td><td rowspan="2">un yn cynnwys beiciwr. <u>Caiff gwaith modelu traffig ei gwblhau er mwyn canfod a fydd effaith andwyol ar lif y traffig yn y lleoliad hwn.</u><br>➢ Mae dwy set o oleuadau traffig â chroesfannau a reolir wedi'u cynnwys yn y cynllun. Bydd y rhain yn Llwyn Pinwydd ac yn lleoliad y fân gylchfan bresennol ar Bwlch Road.</td></tr>
<tr><td>➢ Gormod ohonynt yn y cynllun.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>20. Gwastraff arian</td><td>Cyfanswm = 45</td><td rowspan="8">➢ Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid at unrhyw ddiben arall.<br>➢ Drwy adeiladu'r llwybr hwn, byddwn yn darparu llwybr cerdded a beicio diogel a fydd yn addas i bob defnyddiwr, gan roi opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.<br>➢ Mae teithio llesol yn flaenoriaeth allweddol yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – Llwybr Newydd – ac mae wedi'i nodi ar frig yr hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy sy'n arwain ein holl weithgareddau trafnidiaeth.<br><br><br>➢ O ran pyst ac arwyddion ychwanegol, nid yw'r dulliau dangos y ffordd ar gyfer y cynllun arfaethedig hwn wedi cael eu cadarnhau eto.</td></tr>
<tr><td>➢ Gwastraff arian yn gyffredinol (heb roi esboniad).</td><td>22</td></tr>
<tr><td>➢ Bydd yn ddrud ei gynnal a'i gadw</td><td>1</td></tr>
<tr><td>➢ Mae'n ddrud heb wneud gwelliannau ar gyfer cerdded a beicio.</td><td>7</td></tr>
<tr><td>➢ Byddai'n well gwario'r arian yn rhywle arall.</td><td>12</td></tr>
<tr><td>➢ Dim digon o amser personol i ymrwymo i deithio llesol.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>➢ Gormod o byst ac arwyddion heb ganlyniad gwirioneddol.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>➢ Mae angen llenwi'r tyllau yn y ffordd.</td><td>1</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | ➢ Caiff namau ar y llwybrau presennol eu cywiro pan gaiff y llwybr ei adeiladu. |
| **21. Llwybrau Eraill** | **Cyfanswm = 4** | ➢ Mae llwybrau cerdded a beicio (arfaethedig) ar gyfer y dyfodol wedi cael eu mapio ledled ardal Cimla, fel y'u gwelir ar MapDataCymru. [Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol \| MapDataCymru]<br>➢ Mae cyflymder a lefel y traffig yn rhy uchel i osod llwybr beicio ar Heol Cimla. Hefyd, nid oes digon o led i osod darpariaeth oddi ar y ffordd. Gweler '**Thema yn yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad: 3. Ceir/Gyrru**' am y canllawiau Teithio Llesol sy'n dangos y cyflymderau a'r lefelau traffig sy'n ofynnol.<br>➢ Ymchwiliwyd i lwybrau eraill drwy Barc y Gnoll. Mae ardaloedd ym Mharc y Gnoll wedi'u dynodi'n 'Goetir Hynafol' sy'n ei gwneud hi'n anodd gwella llwybrau penodol yn unol â safonau ATAG. |
| ➢ Gellid defnyddio llwybr o Dir Comin Cimla i mewn i'r Gnoll yn lle hyn | 1 | |
| ➢ Defnyddiwch Heol Cimla yn lle Cilgant Cimla. | 1 | |
| ➢ Bydd llwybr 10m o The Meadows i'r Gnoll yn cynnig pwynt mynediad arall. | 1 | |
| ➢ Ddim yn addas ar gyfer Cilgant Cimla. | 1 | |
| **22. Tarfu Posibl** | Cyfanswm = 9 | ➢ Caiff y cynllun hwn ei gwblhau mor effeithlon â phosibl er mwyn lleihau'r effaith ar drigolion a chadw cyfanswm y costau i lawr.<br>➢ Nid ydym wedi cael gwybod am broblemau rhwng cymdogion ar ôl i gynlluniau blaenorol gael eu cwblhau. |
| ➢ Tarfu diangen. | 3 | |
| ➢ Mae angen atebion llai swnllyd/ymwthiol. | 5 | |
| ➢ Bydd y cynllun yn achosi gwrthdaro ymhlith cymdogion | 1 | |
| **23. Pam newid** | Cyfanswm = 13 | ➢ Drwy adeiladu'r llwybr hwn, byddwn yn darparu llwybr cerdded a beicio diogel a fydd yn addas i bob defnyddiwr, gan roi opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.<br>➢ Mae teithio llesol yn flaenoriaeth allweddol yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – Llwybr Newydd – ac mae wedi'i nodi |
| ➢ Hapus fel y mae. Ardal ddiogel. Pam newid. | 13 | |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar frig yr hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy sy'n arwain ein holl weithgareddau trafnidiaeth.<br><br>**Hierarchaeth teithio cynaliadwy**<br><br>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.<br><br> |

## ATODIAD A – POSTERI HYSBYSEBU



# ATODIAD B – NEGES E-BOST A ANFONWYD AT RANDDEILIAID AC YMGYNGOREION STATUDOL

| Ymgynghoriad Teithio Llesol | Active Travel Consultation |
|---|---|
| Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot bob amser yn gweithio ar brosiectau i wella teithio o bob math, ac mae'n awyddus i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fynegi eu barn a'u syniadau.<br><br>Mae'r cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i wneud gwelliannau i'r llwybr Teithio Llesol yn **Castell-nedd a Gimla**<br><br>Gellir gweld manylion y cynnig ar wefan y cyngor yn: www.npt.gov.uk/32497#activetravelconsultations<br><br>Mae'r ymgynghoriad yn cau ar **28 Hydref 2024** a rhaid i ni dderbyn yr holl sylwadau erbyn y dyddiad hynny.<br><br>Bydd rhoi'r mesurau arfaethedig ar waith yn amodol ar y cyngor yn derbyn arian grant gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Os nad ydych am dderbyn e-byst am ymgynghoriadau Teithio Llesol yn y dyfodol, e-bostiwch greener@npt.gov.uk i roi gwybod i ni a byddwn yn dileu eich enw oddi ar ein rhestr bostio. | Neath Port Talbot Council is always working on projects to improve travel for all modes and is keen to make sure that everyone has the right opportunity to feedback their thoughts and ideas.<br><br>The Council is presently consulting on the proposal to implement improvements between **Neath and Cimla**<br><br>Details of the proposals can be viewed on the Councils website at:www.npt.gov.uk/32497#activetravelconsultations<br><br>The consultation closes on **28th October 2024** all comments are to be received by that date.<br><br>Implementation of the proposed measures will be subject to the Council receiving grant funding from the Welsh Government.<br><br>If you do not wish to receive emails regarding Active Travel consultations in the future please email greener@npt.gov.uk to let us know and we will remove you from our mailing list. |

## GRWPIAU RHANDDEILIAID

### Cynghorwyr

Cysylltwyd â 7 cynghorydd lleol.

### Cynghorwyr Tref

Cysylltwyd â 12 o gynghorwyr tref.

### Cydgysylltwyr Ardal Leol

Cysylltwyd â 6 chydgysylltydd ardal leol.

### Ysgolion

Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd

Ysgol Gynradd Crynallt

Ysgol Gyfun Cefn Saeson

Ysgol Gynradd Alderman Davies

### Ceisiadau am Ohebiaeth

Gofynnodd 38 o aelodau o'r cyhoedd am ohebiaeth.

## Adrannau'r Cyngor

- Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar CNPT
- Peirianneg a Thrafnidiaeth CNPT
- Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant CNPT
- Pobl a Datblygu Sefydliadol CNPT
- Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd CNPT
- Eiddo ac Adfywio CNPT
- Gwasanaethau Gofal Strydoedd CNPT
- Gwasanaethau Cymorth a Thrawsnewid CNPT
- Trafnidiaeth Cymru

## Ymgyngoreion Cyffredinol

- Family Housing Association
- Linc Cymru
- Pobl
- Tai Tarian
- Drive, Swyddfa CNPT
- Cymdeithas Dyslecsia Gorllewin Cymru
- Fforwm LHDTC+
- Hafal (grŵp lleol)
- Grŵp Iechyd Meddwl Cerdded Mal's Marauders
- Mind Castell-nedd Port Talbot
- Mind CNPT (grŵp Lleol)
- Sefydliad y Teulu
- Fy Nghwm Gwyrdd
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Elusen Open Space
- Cymdeithas Mannau Agored Cymru
- Planet Health Cymru/ Sefydliad Materion Cymreig
- Age Concern Cymru
- Age Concern Castell-nedd Port Talbot
- Age Connects/ Age Concern Cymru/ Castell-nedd
- Age Cymru
- Age Cymru West Glamorgan Limited
- Porth Castell-nedd Port Talbot
- Partneriaeth Pobl Hŷn
- Comisiynydd Pobl Hŷn
- Cyngor Pobl Hŷn
- Age Cymru Gorllewin Morgannwg
- Clwb Bowls Gwynfi
- Cynghrair Pobl Hŷn
- Cymdeithas Lles yr Henoed Pontardawe
- Ymgysylltu â Gwasanaethau Oedolion
- Neath Port Talbot Carers Service Limited
- NPT Links
- Bwrdd Partneriaeth Meddwl am Deuluoedd
- Mosg Castell-nedd Port Talbot
- Cymdeithas Cymuned Pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol CNPT
- Race Council Cymru
- 11eg Grŵp Sgowtiaid Port Talbot
- 9fed Grŵp Sgowtiaid Castell-nedd Sgiwen
- Geidiaid Rhanbarth Cwm Afan
- Maes Chwarae Plant Bryn-coch
- Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Cefn Saeson
- Circus Eruption
- Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion Coed Hirwaun
- Cyngor Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol
- Clwb Bechgyn Cwmafan a'r Cylch
- Cycle Training Wales
- Cylch Chwarae Pontardawe
- Ysgoloriaethau Elizabeth Jones ar gyfer Bechgyn a Merched Aberafan a Margam
- Clwb Bechgyn Giants Grave a Llansawel
- Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot
- Y Gweilch yn y Gymuned
- Uned 537 Port Talbot y Corfflu Cadetiaid Môr
- Blociau Adeiladu Resolfen
- Clwb Bechgyn Trefelin
- Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Tywyn
- Cymdeithas Caeau Chwarae Ynysdawley
- Cyngor Ieuenctid
- Accomplish (Byw â Chymorth)
- Bspoked Enterprises
- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
- Canolfan Amgylcheddau Hygyrch
- Consortiwm Bywydau Cymunedol
- Anabledd Cymru
- Cŵn Tywys Cymru

- Siambr Fasnach De Cymru
- Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys ei is-grwpiau)
- Grŵp Cymorth i Gyflogwyr CNPT (Cadeirydd)
- Grŵp Ymgysylltu CNPT (Cadeirydd)
- Grŵp Adfywio CNPT
- Partneriaeth Diogel ac Iach CNPT
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Partneriaeth CNPT Mwy Diogel (Diogelwch Cymunedol)
- Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru
- Grŵp arweinyddiaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg
- Bwrdd Strategaeth Economaidd Bargen Ddinesig Bae Abertawe
- Viva Port Talbot
- Fforwm Darparwyr Gofal – Preswyl a nyrsio – sector preifat
- Cyfarfod Darparwyr Gofal Cartref
- Cyfarfod Darparwyr Anawsterau Dysgu
- Cyfarfod Darparwyr Iechyd Meddwl
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT
- Heddlu De Cymru
- Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Alderman Davies
- An Open Door into Your Heart
- Eglwys Uniongred Goptaidd yr Archangel Mihangel a Sant Mina
- Canolfan Gristnogol Annibynnol Bethel
- Eglwys Efengylaidd Bethlehem, Sandfields, Port Talbot
- Eglwys LifePoint
- Eglwys Bentecostaidd Peniel
- Eglwys Efengylaidd Saron
- Mosg a Chanolfan Gymunedol Islamaidd Abertawe
- The Gathering Place
- Cymdeithas Gristnogol Gilgal
- Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc – Cangen Port Talbot
- Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc – Cangen Castell-nedd
- Grŵp Cymorth i Bobl Anabl Bspoked a Fresh Start
- Cymunedau am Waith / Cymunedau am Waith a Mwy
- Tîm Community Connecting
- Gwasanaeth Annibyniaeth Gymunedol
- Deaf Club
- Panel Dinasyddion CNPT
- Vision Impaired West Glamorgan
- Hearing Link
- Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig
- Interplay (Chwarae a Hamdden Integredig)
- Leonard Cheshire
- Mencap Cymru
- Mixitup
- Canolfan Awtistiaeth Genedlaethol Longford Court Castell-nedd
- Cynllun Shopmobility Castell-nedd Port Talbot
- Grŵp Strôc Castell-nedd Port Talbot
- Fforwm Anabledd CNPT
- Grŵp Strôc CNPT
- Rhianna's Swing
- RNIB
- Royal Association for Deaf People
- Sight Life Cymru
- Goroeswyr Strôc Cymru Castell-nedd
- Canolfan Abertawe ar gyfer Pobl Fyddar
- Cymdeithas Mencap Abertawe
- The Partially Sighted Society
- The South Wales Multiple Sclerosis Therapy Centre Ltd
- Treat Trust Wales
- Cyngor Cymru ar gyfer Pobl Fyddar
- Cyngor Cymru i'r Deillion
- Cŵn Tywys Cymru
- Prosiect Your Voice Advocacy
- Me, Myself & I Castell-nedd Port Talbot
- Care and Repair Western Bay
- Ice Cool Kids
- Special Needs Activity Club
- Local Aid for Children and Community Special Needs
- Cymuned Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Diverse Cymru
- F.A.N Community Alliance
- Spectrum South West Wales
- Stonewall Cymru
- Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe
- Pride Abertawe
- Sefydliad y Merched Cwmafan
- Cymorth i Fenywod Port Talbot ac Afan
- Sefydliad y Merched (Tregatwg, Bryn-coch, Llangatwg, Longford, Sgiwen)

- Voice & Choice
- Port Talbot Wheelers
- Y Cerddwyr
- Clwb Rhedeg Run4All Castell-nedd
- Defnyddwyr Bysiau Cymru
- Campaign for Better Transport
- Cymdeithas Cludiant Cymunedol (Cymru)
- Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr (Cymru)
- Transport Focus (Passenger Focus)
- Trafnidiaeth Cymru
- Cyngor y Gwasanaethau Gwirfoddol
- Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol CNPT
- Rhwydwaith o wirfoddolwyr Sustrans yn CNPT
- The Neath Port Talbot Council for Voluntary Service Ltd.
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- BikeAbility Wales
- Clwb Beicio Bryncoch Bombers, Castell-nedd
- Living Streets Cymru
- Melyn Walkers Acting
- Cerddwyr Castell-nedd Port Talbot
- Clwb Cerdded Castell-nedd
- Nifty Wednesday Club
- Ponty Amblers
- Y Cerddwyr
- Sustrans
- Grŵp Cerdded Dydd Mercher
- Cycle Fix
- Cycling UK
- Lodge Cycles
- Beicio Cymru – De-orllewin Cymru
- Her Iechyd Cymru
- Her Canser Castell-nedd Port Talbot
- Y GIG
- Coastal
- Grŵp Swyddogion y Gymraeg
- Canolfan Blant Integredig Aberafan
- Canolfan Gofal Plant Tiddlywinks Childcare Centre Cyfyngedig
- Canolfan Maerdy
- Plant yng Nghymru
- Ymgysylltu â Gwasanaethau Plant
- Comisiynydd Plant Cymru
- Dewis Limited
- Extinction Rebellion CNPT
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Friends of West Glamorgan Youth Music
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Canolfan Cyswllt â Phlant Castell-nedd Port Talbot
- Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot
- Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot
- Grŵp Colegau NPTC
- Parents in Partnership (De Cymru)
- Apêl TLC Seiri Rhyddion De Cymru
- The Roots Foundation
- Tros Gynnal Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Urdd Gobaith Cymru
- Senedd Ieuenctid Cymru
- Cymdeithas Geidiaid Gorllewin Morgannwg

# ATODIAD C – DISGRIFIAD O'R CYNNIG A CHYNLLUNIAU'R CYNLLUN

**TESTUN Y WEFAN**

**Hoffem glywed eich barn ar ein cynlluniau arfaethedig i wella cyfleusterau cerdded, beicio ac olwyno rhwng Castell-nedd a Chimla!**

Rydym yn ystyried gwelliannau ar gyfer cerdded, beicio ac olwyno rhwng Castell-nedd a Chimla er mwyn eich helpu i gymudo i'r gwaith, i'r ysgol neu i'r siop, ac rydym yn awyddus i glywed eich safbwyntiau.

Ymhlith y cynigion mae:

- Lledu llwybrau troed er mwyn eu gwneud yn llwybrau cyd-ddefnyddio y gall pobl gerdded a beicio arnynt.
- Llwyfannau uwch ar gyffyrdd er mwyn helpu trigolion â llai o symudedd i'w croesi.
- Agor y gatiau ym Mhorthdy'r Gnoll a'r Gatiau Coffa er mwyn galluog beicwyr i fynd drwyddynt.
- Creu rhannau newydd o lwybrau cyd-ddefnyddio.

Hoffem gael eich safbwyntiau erbyn **28 Hydref 2024** a byddwn yn defnyddio eich adborth i adolygu a gwella'r syniadau.

Gallwch weld ein cynigion yma.

**Ffeiliau i'w lawrlwytho:**
TROSOLWG
RHESTR TERMAU
ADRAN 1 – Caeau Chwarae Cefn Saeson i Erddi Ridgewood
ADRAN 2 – Gerddi Ridgewood i Rodfa'r Gweilch
ADRAN 3 – Rhodfa'r Gweilch i Lwyn Pinwydd
ADRAN 4 – Heol Crynallt i Gilgant Cimla
ADRAN 5 – Cilgant Cimla – OPSIWN 1
ADRAN 5 – Cilgant Cimla – OPSIWN 2
ADRAN 6 – Cilgant Cimla i Ystad y Gnoll
ADRAN 7 – Ystad y Gnoll a Gnoll Walk
ADRAN 8 – Gnoll Drive i Rodfa'r Gnoll
ADRAN 9 – Woodland Road a Forester Road
CRYNODEB O'R CYNIGION

Os hoffech weld copïau papur o'r cynlluniau hyn, gallwch wneud hynny yn Llyfrgell Castell-nedd.

Gallwch weld ac ateb ein holiadur yma.

**Digwyddiad Wyneb yn Wyneb**

Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd ar **10 Hydref 2024** yn Neuadd Clive Roberts (Cwt Sgowtiaid Cimla), SA11 3PF, rhwng 2pm a 7pm, lle y bydd swyddogion yn gallu esbonio'r cynigion i chi.

**Rhagor o wybodaeth**


Mae'r prosiectau hyn wedi cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth gan Trafnidiaeth Cymru.

Er mwyn i'r mesurau arfaethedig gael eu rhoi ar waith, bydd angen i'r cyngor gael cyllid grant pellach gan Lywodraeth Cymru. **Mae'n bwysig i drigolion nodi mai dim ond ar gyfer prosiectau i wneud gwelliannau i gyfleusterau cerdded, beicio ac olwyno y gall y cyngor ddefnyddio cyllid Teithio Llesol, ac na ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.**


# CASTELL-NEDD I GIMLA GWELLIANNAU TEITHIO LLESOL ARFAETHEDIG

## ALLWEDD

- Adran 1 - ardal 1
- Adran 1 - ardal 2
- Adran 2
- Adran 3 - ardal 1
- Adran 3 - ardal 2
- Adran 4
- Adran 5
- Adran 6
- Adran 7
- Adran 8
- Adran 9





## CYNLLUN LLEOLIAD


ADRAN 1
CAEAU CHWARAE CEFN
SAESON I ERDDI RIDGEWOOD
CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG
Llwybr cyd-ddefnyddio wrth ymyl ffordd gerbydau
(ehangu'r llwybr i'r ymyl laswellt).
Man croesi gwell ger ysgol.
Twmpath ffordd wrth gyffordd Gerddi Ridgewood.
YSGOL GYFUN CEFN SAESON
CROESFAN TWCAN ARFAETHEDIG AR DWMPATH FFORDD
LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO ARFAETHEDIG
HEOL CWM AFAN B4287
FFENS BRESENNOL I'W SYMUD A'I DISODLI AR FFIN TIR Y BRIFFORDD
GERDDI RIDGEWOOD
TORRI'R LLINELL
Adran 1 Ardal 1
Adran 1 Ardal 2
Adran 2
ALLWEDD
FFORDD GERBYDAU BRESENNOL
TROEDFFORDD BRESENNOL
EHANGU LLWYBRAU TROED ARFAETHEDIG I GREU LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO
MAN CROESI CYFFYRDDOL
TWMPATH FFORDD ARFAETHEDIG
YMYL LASWELLT BRESENNOL
CYSGODFAN FYSUS
LON I'W HAILWYNEBU
DISODLI TROEDFFORDD BRESENNOL AG YMYL LASWELLT
ADRAN 1
ARDAL 2
DIWEDD
MYNEDFA T-BONES
MANNAU PARCIO PRESENNOL I AROS
ADEILADU CROESFAN ANFFURFIOL NEWYDD
YSGOL GYFUN CEFN SAESON
LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO ARFAETHEDIG - EHANGU'R LLWYBR I'R YMYL LASWELLT
ADRAN 1
ARDAL 1

## **ADRAN 2** GERDDI RIDGEWOOD I OSPREY DRIVE

CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG


Llwybr cyd-ddefnyddio wrth ymyl ffordd gerbydau (ehangu'r llwybr i ymyl y glaswellt).
Cysgodfan fysus newydd.
Twmpathau ffordd wrth gyffyrdd.





## ADRAN 3 OSPREY DRIVE I PINE GROVE

CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG

Beicio ar y lôn oddi ar Osprey Drive.
Llwybr cyd-ddefnyddio wrth ymyl ffordd gerbydau (ehangu'r llwybr i'r glaswellt).
Twmpathau ffordd wrth gyffyrdd.
Gwella arwyddion traffig i ysgol Crynallt.













## ADRAN 4 HEOL CRYNALLT I GILGANT CIMLA










CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG

Gwella trefn y gyffordd ar Heol Crynallt.
Llwybr cyd-ddefnyddio newydd ar Heol Cwm Afan.
Croesfan newydd â signalau ar Heol Cwm Afan.
Llwybr cyd-ddefnyddio rhwng comin Cimla a Chilgant Cimla.
Twmpath ffordd wrth fynedfa Cilgant Cimla.




ADRAN 5 CILGANT CIMLA
CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG
Beicio ar y ffordd - stryd dawel.
Twmpathau ffrydd i arafu traffig.
Cyffrydd uwch i gynorthwyo gyda chroesfannau cerddwyr.
Culhau cyffordd Poplars Avenue.
ALLWEDD
FFORDD GERBYDAU BRESENNOL
TROEDFFORDD BRESENNOL
MAN CROESI CYFFYRDDOL
TWMPATH FFORDD ARFAETHEDIG
ADRAN 5 OPSIWN 1
ADRAN 5C
ADRAN 5B
ADRAN 5A
HAWTHORN AVENUE
POPLARS AVENUE
CILGANT CIMLA
SYCAMORE AVENUE
HEOL ALD
CHESTNUT ROAD
HOLLY RD
TORRI'R LLINELL
Adran 5C
Adran 5B
Adran 5A



ADRAN 5 CILGANT CIMLA
CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG
Beicio ar y ffordd - stryd dawel.
Twmpathau ffrydd i arafu traffig.
Cyffrydd uwch i gynorthwyo gyda chroesfannau cerddwyr.
Culhau cyffordd Poplars Avenue.
ALLWEDD
FFORDD GERBYDAU BRESENNOL
TROEDFFORDD BRESENNOL
MAN CROESI CYFFYRDDOL
TWMPATH FFORDD ARFAETHEDIG
ADRAN 5 OPSIWN 2
ADRAN 5C
ADRAN 5B
ADRAN 5A
HAWTHORN AVENUE
POPLARS AVENUE
CILGANT CIMLA
SYCAMORE AVENUE
HEOL ALD
CHESTNUT ROAD
HOLLY RD
TORRI'R LLINELL
Adran 5C
Adran 5B
Adran 5A

## ADRAN 6
## CILGANT CIMLA I YSTÂD Y GNOLL




CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG

Llwybr cyd-ddefnyddio oddi ar y ffordd rhwng Cilgant Cimla ac Ystâd y Gnoll.
Llwybr i'w ehangu i alluogi cerddwyr a beicwyr i'w ddefnyddio.
Llwybr i'w gadw â chaergewyll.
Darparu mainc fel man gorffwys wrth y tro.
Symud pileri gât brics ymaith.

ALLWEDD
- FFORDD GERBYDAU BRESENNOL
- TROEDFFORDD BRESENNOL
- EHANGU LLWYBRAU TROED ARFAETHEDIG I GREU LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO
- TWMPATH FFORDD ARFAETHEDIG
- YMYL LASWELLT BRESENNOL






DELWEDD YN DANGOS WAL GYNNAL Y CAERGEWYLL


## ADRAN 7 YSTÂD Y GNOLL A GNOLL WALK

CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG

Stryd dawel ar hyd ffordd fynediad Ystâd Gnoll.
Llwybr cyd-ddefnyddio ar hyd Gnoll Walk (drwy'r gatiau coffa).
Agor gât y Ganolfan.
Is-ddeddf sy'n gwahardd beicio ar Ystâd y Gnoll i'w diwygio i gael gwared ar yr adran hon.



ALLWEDD
- FFORDD GERBYDAU BRESENNOL
- TROEDFFORDD BRESENNOL
- FFENS BREN ARFAETHEDIG
- GOLEUADAU LEFEL ISEL



# ADRAN 8
# GNOLL DRIVE I GNOLL AVENUE

CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG

Llwybr cyd-ddefnyddio wrth ochr Gnoll Drive. Ehangu'r llwybr i 2m - ymchwilio i opsiynau ar gyfer cael gwared ar barcio/traffig unffordd. Coed i aros.

Twmpathau ffordd ar Rodfa Beechwood i wella croesi ac arafu'r traffig.








**ALLWEDD**



- FFORDD GERBYDAU BRESENNOL
- TROEDFFORDD BRESENNOL
- EHANGU LLWYBRAU TROED ARFAETHEDIG I GREU LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO
- MAN CROESI CYFFYRDDOL
- TWMPATH FFORDD ARFAETHEDIG
- YMYL LASWELLT BRESENNOL




# ADRAN 9
# HEOL WOODLAND A HEOL FORESTER

CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG

Agor gât Porthdy'r Gnoll i alluogi pobl anabl i gael mynediad.
Llwybr cyd-ddefnyddio wrth ymyl Heol Woodland i gysylltu â mynedfa gefn yr ysgol. Cael gwared ar barcio ar hyd Heol Woodland.
Beicio ar y ffordd ar Heol Forester - Stryd Dawel



ALLWEDD

- FFORDD GERBYDAU BRESENNOL
- TROEDFFORDD BRESENNOL
- EHANGU LLWYBRAU TROED ARFAETHEDIG I GREU LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO

# CASTELL-NEDD I GIMLA
# GWELLIANNAU TEITHIO LLESOL ARFAETHEDIG
## CRYNODEB O'R GWELLIANNAU ARFAETHEDIG


**Allwedd**

- LLWYBR TEITHIO LLESOL ARFAETHEDIG
- DISGRIFIAD BYR O'R CYNNIG
- ADEILEDDAU RHESTREDIG Y MAE'R CYNNIG YN EFFEITHIO ARNYNT
- DIRYMU'R GWAHARDDIAD AR FEICIO




# ATODIAD D – POSTIADAU AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Postiad ar Lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot:




Postiad ar dudalennau Facebook 'Cimla Residents News', 'Neath Constitutional voice for everyone' a 'Neath Town Talk':



## ATODIAD E – GWAITH CARTREF AR GYFER YSGOLION

Subject: FOA of the Headteacher- Active Travel

Dear Head teacher,

The Active Travel Team in Neath Port Talbot Council is currently undertaking a survey regarding our proposed walking, cycling, and wheeling route between Neath and Cimla. This scheme aims to enhance the infrastructure, making walking, and wheeling safer and more accessible for everyone in our community.

We would be grateful if you could encourage your pupils to take part in the attached homework activity. We ask that the finished artworks be emailed to greener@npt.gov.uk by the 28th of October 2024.

In addition to this, we are engaging the local communities to gather feedback on our proposals via an online survey.  We would greatly appreciate it if you could include the attached poster in any newsletters or correspondence that may be sent out and/or share it on your social media platforms to encourage parents to get involved.

Further information about the survey can be found at www.npt.gov.uk/activetravel.

Kind regards,

NPT Active Travel Team

Annwyl ddisgybl,

Hoffai Cyngor Castell-nedd Port Talbot gael dy help i wneud y llwybrau cerdded a beicio o gwmpas yr ardal lle rwyt ti'n byw ac yn mynd i'r ysgol yn well ac yn fwy diogel.

Gall y llwybrau hyn gynnwys llwybrau rwyt ti'n eu cymryd i'r ysgol, i siopau, i barciau a mannau eraill rwyt ti efallai'n mynd iddyn nhw fel pwll nofio a chanolfannau cymunedol.

Rydym wedi creu gweithgaredd i ti yr hoffem gael dy help gydag e'. Mae'n ymwneud â'r llwybrau rheolaidd rwyt ti'n eu cymryd ar droed neu ar gefn beic.

Hoffem wybod pa lwybrau rwyt ti'n eu defnyddio ar gyfer cerdded a beicio i'r mannau hyn ac unrhyw broblemau rwyt ti'n eu cael fel dim croesfannau sebra neu lawer o draffig.

Hoffem wybod hefyd dy syniadau ar gyfer llwybrau newydd, efallai rhywle rwyt ti'n mynd iddo ar hyn o bryd mewn car ond yr hoffet ti gerdded a beicio yno.

Fe elli di weithio ar bapur arferol a hoffem i ti anfon llun atom o dy gynlluniau gorffenedig. Gwna'r map neu'r cynllun mor greadigol a manwl ag y gelli di!
Fe elli di ei wneud dy hun neu gyda help aelod o'r teulu. Rydym wedi cynnwys rhai enghreifftiau ar y tudalennau canlynol i dy helpu di:

E-bostia dy gynlluniau i: greener@npt.gov.uk

Diolch am ein helpu gyda'r prosiect hwn. Unwaith rwyt ti wedi gorffen fe elli di argraffu tystysgrif i'w harddangos, yn ogystal â gwybod dy fod wedi helpu pobl eraill i gerdd a beicio'n ddiogel yn dy ardal.

Diolch yn fawr,
Timau Diogelwch Ffyrdd a Theithio Llesol
greener@npt.gov.uk




**Mae angen dy help arnom!**

Rydym am greu cynllun i helpu pobl Castell-nedd Port Talbot i deithio'n ddiogel wrth iddynt gerdded a beicio. Rydym am wybod am yr ardal rwyt ti'n byw ynddi, y llwybrau rwyt ti'n eu cymryd i'r ysgol, os oes unrhyw broblemau ar y llwybr ac oes llwybrau newydd yr hoffet ti eu cymryd ond yn dewis peidio.


1. Ar ddarn o bapur, tynna lun neu fap o'r llwybr rwyt ti'n cerdded neu'n beicio arno i'r ysgol, gan gynnwys **erwau'r strydoedd** ac unrhyw **barciau** rwyt ti'n mynd drwyddyn nhw ar y ffordd.









2. Nesaf, ychwanega unrhyw **groesfannau** rwyt ti'n eu defnyddio'n rheolaidd at dy fap



3. Nesaf, ychwanega unrhyw **dirnodau** rwyt ti'n mynd heibio iddyn nhw. Er enghraifft-

**Pontydd troed**



**Siopau a chaffis**



**Y traeth**




**Llyfrgelloedd**



**Mannau Addoli**



**Ysgolion**



**Camlas**



4. Nesaf, defnyddia bensil **coch** i labelu unrhyw broblemau rwyt ti'n eu cael ar y llwybr.



5. Yna ceisia ateb y cwestiynau canlynol -
   - Beth rwyt ti'n ei hoffi am y llwybr hwn?
   - Beth rwyt ti'n ei feddwl y gallwn ni ei wneud i helpu gyda'r problemau mewn **coch**?
   - Pa lwybrau eraill yr hoffet ti deithio arnyn nhw drwy gerdded a beicio, pam nad wyt ti'n eu defnyddio sut wyt ti'n cyrraedd yno ar hyn o bryd?





# Seren Teithio Llesol

Mae'r dystysgrif hon yn tystio bod


________________________________________ (Enw)

wedi rhoi gwybodaeth werthfawr i Gyngor Castell-nedd Port Talbot am yr ardal y mae'n byw ynddi.

Bydd y cynllun rwyt ti wedi rhoi i ni yn galluogi teuluoedd eraill i gerdded, beicio a reidio sgwter yn ddiogel yn dy gymuned. Rydym wir yn gwerthfawrogi dy gyfraniad.


Diolch! Rwyt ti'n Seren Teithio Llesol!

Dyma rai enghreifftiau gan ysgolion lleol:





Llwybr Henson y Draenog i'r ysgol.



# ATODIAD F – LLUNIAU O'R DIGWYDDIAD WYNEB YN WYNEB

Llun o gynllun y digwyddiad wyneb yn wyneb yn Neuadd Sgowtiaid Cimla.  Noder bod aelodau o staff wedi gofyn yn ystod y digwyddiad pe gellid tynnu llun o'r digwyddiad a bod y cais hwn wedi cael ei wrthod bob tro.






TEITHIO LLESOL CnPT
NPT ACTIVE TRAVEL
www.npt.gov.uk/teithiollesol
www.npt.gov.uk/activetravel
greener@npt.gov.uk



# ATODIAD H – CWESTIYNAU'R AROLWG

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

## GWELLIANNAU CERDDED, BEICIO AC OLWYN ARFAETHEDIG RHWNG CASTELL-NEDD A CHIMLA

**Hoffem glywed eich barn am ein cynlluniau arfaethedig i wella cyfleusterau cerdded, beicio ac olwyno rhwng Castell-nedd a Chimla!**

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Lledaenu llwybrau troed fel eu bod yn addas ar gyfer defnydd a rennir, gan alluogi pobl i gerdded a beicio ar hyd llwybrau.
- Gosod twmpathau ffordd wrth gyffyrdd i helpu preswylwyr a chanddynt symudedd cyfyngedig i groesi'r ffordd.
- Agor y gatiau ym Mhorthy'r Gnoll a'r Gatiau Coffa fel y gall beicwyr fynd drwyddynt.
- Creu rhannau newydd o lwybr a rennir.

Bydd yr holiadur hwn yn cymryd tua 10 munud i'w gwblhau.

1. Sut ydych chi fel arfer yn teithio yn neu o gwmpas eich ardal leol? (Dewiswch atebion lluosog) *

- ☐ Cerdded
- ☐ Beicio
- ☐ Loncian/rhedeg
- ☐ Cadair olwyn/sgwter symudedd
- ☐ Beic modur/moped
- ☐ Car/cerbyd preifat
- ☐ Bws
- ☐ Tacsi
- ☐ Cerbyd masnachol
- ☐ Arall

2. Beth yw eich cysylltiad chi â Castell-Nedd/Chimla? *

- [ ] Rwy'n byw yma
- [ ] Rwy'n cymudo drwy'r ardal
- [ ] Rwy'n byw gerllaw
- [ ] Rwy'n gweithio yma
- [ ] Rwy'n berchen ar fusnes yma
- [ ] Rwy'n defnyddio'r llwybr hwn ar gyfer hamdden
- [ ] Arall

3. A ydych chi'n cefnogi, mewn egwyddor, y cynlluniau i wella'r llwybrau cerdded/beicio yn yr ardal hon? *

- ◯ Cefnogi'n gryf
- ◯ Cefnogi
- ◯ Ddim yn cefnogi
- ◯ Bendant ddim yn cefnogi

4. Pa agweddau ar ddyluniad y llwybr ydych chi'n eu hoffi, a pham?

- ◯ Bydd yr ardal yn fwy diogel i'r holl ddefnyddwyr.
- ◯ Bydd y cynnig yn annog mwy o gerdded neu feicio.
- ◯ Bydd yn haws i deithio o amgylch yr ardal.
- ◯ Bydd yr amgylchedd cyffredinol yn cael ei wella.
- ◯ Caiff yr ymdeimlad o gymuned leol ei wella.
- ◯ Bydd yr ardal yn fwy deniadol.
- ◯ Amherthnasol.
- ◯ Arall

5. Pa agweddau ar ddyluniad y llwybr dydych chi ddim yn eu hoffi, a pham?

- ◯ Ni fydd yr ardal yn fwy diogel i'r holl ddefnyddwyr.
- ◯ Ni fydd y cynnig yn annog mwy o gerdded neu feicio.
- ◯ Bydd yn fwy anodd i deithio o amgylch yr ardal.
- ◯ Ni fydd yr amgylchedd cyffredinol yn cael ei wella.
- ◯ Ni chaiff yr ymdeimlad o gymuned leol ei wella.
- ◯ Bydd yr ardal yn llai deniadol.
- ◯ Amherthnasol.
- ◯ Arall

6. Rydym yn ystyried dau opsiwn ar gyfer gwella **Cilgant Cimla**. Nodwch eich opsiwn dewisol.

- ◯ **Opsiwn 1:** Twmpath ffordd arfaethedig i leihau cyflymder traffig a helpu cerddwyr i groesi.Cyfeiriwch at y cynllun a enwir: Adran 5, Opsiwn 1 yn: https://beta.npt.gov.uk/activetravel#consultations
- ◯ **Opsiwn 2:** Twmpath ffordd arfaethedig i helpu cerddwyr i groesi. Cyfeiriwch at y cynllun a enwir: Adran 5, Opsiwn 2 yn https://beta.npt.gov.uk/activetravel#consultations
- ◯ Ansicr

7. Pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd?

- ◯ Cyfforddus iawn.
- ◯ Eithaf cyfforddus.
- ◯ Eithaf anghyfforddus.
- ◯ Anghyfforddus iawn.
- ◯ Amherthnasol.

8. Pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd?

- ◯ Cyfforddus iawn.
- ◯ Eithaf cyfforddus.
- ◯ Eithaf anghyfforddus.
- ◯ Anghyfforddus iawn.
- ◯ Amherthnasol.

9. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol ynghylch y cynigion, nodwch y rhain yn y bwlch isod.

Rhowch eich ateb

## Amdanoch Chi

Yn olaf, rhowch rywfaint o wybodaeth i ni amdanoch chi eich hun. Sylwch fod y cwestiynau hyn yn ddewisol.

10. Nodwch eich côd post llawn isod (e.e. SA13 1PJ)

Rhowch eich ateb

11. Beth yw eich oed?

- ◯ Dan 16 oed
- ◯ 17-24 oed
- ◯ 25-29 oed
- ◯ 30-39 oed
- ◯ 40-49 oed
- ◯ 50-59 oed
- ◯ 50-59 oed
- ◯ 50-59 oed
- ◯ 86+ oed
- ◯ Mae'n well gen i beidio â dweud

12. Iaith Gymraeg - ydych chi'n:

- ◯ Siarad ac yn ysgrifennu'n rhugl
- ◯ Siarad ac ysgrifennu'n weddol rugl
- ◯ Siaradwr rhugl
- ◯ Siaradwr rhugl
- ◯ Dysgwr
- ◯ Ychydig neu ddim gwybodaeth

13. Ydych chi'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?

- ◯ Ydw
- ◯ Nac ydw
- ◯ Mae'n well gen i beidio â dweud

14. Oes gennych anabledd yn eich barn chi?

- ◯ Oes
- ◯ Nac oes
- ◯ Mae'n well gen i beidio â dweud

15. Tarddiad ethnig:

- ◯ Gwyn Prydeinig
- ◯ Gwyn Gwyddelig
- ◯ Cymysg: Gwyn a Du Caribïaidd
- ◯ Cymysg: Gwyn a Du Affricanaidd
- ◯ Indiaidd
- ◯ Bangladeshaidd
- ◯ Pacistanaidd

- ◯ Du: Affricanaidd
- ◯ Du: Caribïaidd
- ◯ Tsieineaidd
- ◯ Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr
- ◯ Grŵp ethnig arall
- ◯ Mae'n well gen i beidio â dweud
- ◯ Arall

16. Rhyw

- ◯ Wryw
- ◯ Menyw
- ◯ Trawsrywiol
- ◯ Anneuaidd
- ◯ Anneuaidd
- ◯ Arall

17. Tueddfryd rhywiol

- ◯ Gwahanrywiol
- ◯ Lesbiaidd
- ◯ Hoyw
- ◯ Deurywiol
- ◯ Mae'n well gen i beidio â dweud
- ◯ Arall


18. Crefydd/Cred


- ◯ Cristion
- ◯ Bwdhydd
- ◯ Hindŵ
- ◯ Iddew
- ◯ Moslem
- ◯ Sîc
- ◯ Dim crefydd
- ◯ Dim crefydd
- ◯ Arall

19. Cenedligrwydd

- ◯ Welsh
- ◯ Albanaidd
- ◯ Saesneg
- ◯ Prydeinig
- ◯ Gwyddelig
- ◯ Mae'n well gen i beidio â dweud
- ◯ Arall


# ATODIAD I – YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD A SYLWADAU




3. A ydych chi'n cefnogi, mewn egwyddor, y cynlluniau i wella'r llwybrau cerdded/beicio yn yr ardal hon?

| | |
|---|---|
| Cefnogi'n gryf | 38 |
| Cefnogi | 82 |
| Ddim yn cefnogi | 30 |
| Bendant ddim yn cefnogi | 67 |





4 Pa agweddau ar ddyluniad y llwybr ydych chi'n eu hoffi, a pham?

| | |
|---|---|
| Bydd yr ardal yn fwy diogel i'r holl ddefnyddwyr. | 22 |
| Bydd y cynnig yn annog mwy o gerdded neu feicio | 37 |
| Bydd yn haws i deithio o amgylch yr ardal | 23 |
| Bydd yr amgylchedd cyffredinol yn cael ei wella | 5 |
| Caiff yr ymdeimlad o gymuned leol ei wella | 3 |
| Bydd yr ardal yn fwy deniadol | 2 |
| Amherthnasol | 73 |
| Arall | 43 |





5. Pa agweddau ar ddyluniad y llwybr dydych chi ddim yn eu hoffi, a pham?

| | |
|---|---|
| Ni fydd yr ardal yn fwy diogel i'r holl ddefnyddwyr. | 48 |
| Ni fydd y cynnig yn annog mwy o gerdded neu feicio | 1 |
| Bydd yn fwy anodd i deithio o amgylch yr ardal | 17 |
| Ni fydd yr amgylchedd cyffredinol yn cael ei wella | 25 |
| Ni chaiff yr ymdeimlad o gymuned leol ei wella | 13 |
| Bydd yr ardal yn llai deniadol | 15 |
| Amherthnasol | 27 |
| Arall | 66 |



6. Rydym yn ystyried dau opsiwn ar gydfer gwell **Cilgant Cimla**. Nodwch eich opsiwn dewisol.




7. Pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo am gerdded yn yr ardal ar hyn o bryd?




8. Pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd?




9. Unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol ynghylch y cynigion.

*Gweler yr ymatebion llawn i'r cwestiwn hwn isod. Mae ymatebion swyddogion y cyngor i'w gweld yn adran 3.2 – ymatebion ansoddol.*

| |
|---|
| *Ddim yn gweld yr angen am y newid arfaethedig, ddim yn ymwybodol o unrhyw ddamweiniau na digwyddiadau gan ddefnyddio'r system bresennol. Gallai'r arian gael ei wario'n well yn rhywle arall!* |
| *Pam mae'r cynigion hyn yn cael eu hystyried? Beth yw cost y cynigion hyn? A allwch warantu y bydd beicwyr yn defnyddio'r drefn newydd? Mae'r drefn bresennol yn iawn i gerddwyr ac olwynwyr fel y mae.* |

| |
|---|
| *Mae hyn yn wastraff arian ac adnoddau llwyr. Mae trigolion yn erbyn hyn, ac rwy'n eu cefnogi nhw. Nid oes problem wedi bod erioed gyda theithio na pharcio yn y cilgant. Bydd y cynnig hwn yn peryglu bywydau ac yn gwneud teithio'n waeth. Canslwch y cynllun hwn am resymau diogelwch.* |
| *Ym mha ffordd y bydd hyn gwneud pethau'n fwy diogel i bawb? Mae Heol Cimla eisoes yn brysur dros ben, a'r cyfan y bydd ychwanegu goleuadau traffig ar y gylchfan yn ei wneud yw lleihau llif y traffig gan achosi tagfeydd yn ôl heibio'r siopau.* |
| *Mae'r cyswllt cymudo rhwng Cimla a Chastell-nedd yn gweithio'n iawn, felly pam ceisio ei wella? Os yw beicwyr yn dewis defnyddio Heol Cimla fel llwybr uniongyrchol i mewn i Gastell-nedd, mae'n annhebygol dros ben y byddant yn newid i ddefnyddio Cilgant Cimla yn lle hynny oherwydd byddai'n hawdd iddynt wneud hynny nawr heb y gwastraff enfawr o arian cyhoeddus.* |
| *Mae'r cwestiynau hyn yn arweiniol ac nid ydynt yn rhoi cyfle i drigolion roi eu barn. Mae terfyn cyflymder 20mya eisoes ar y ffyrdd gan mwyaf felly maent yn ddiogel ar gyfer beicio a cherdded. Bydd ychwanegu mwy o oleuadau traffig yn llesteirio gyrwyr fwy fyth. Mae gyrru yn y boreau yn anhrefn llwyr fel y mae* |
| *Fy mhryderon i (gan fy mod yn fyw ar Gilgant Cimla) yw y bydd y gwelliannau'n achosi mwy o ddefnydd ohono fel llwybr i Gastell-nedd; mae hyn yn beth da ond, o ystyried cyflwr y llwybrau, cyrbiau isel ac ati ar hyn o bryd, rwy'n poeni y bydd mwy o draffig ar droed yn dirywio'r llwybrau presennol hyd yn oed yn gyflymach.* |
| *Bydd y cynnig i gael gwared ar barcio yng nghornel Rhodfa'r Gnoll yn niweidiol i drigolion Rhodfa'r gnoll yn uniongyrchol. Mae amseroedd ysgol ar y stryd yn ofnadwy o ran parcio fel y mae pethau, heb gael gwared ar fwy o leoedd i barcio. Hefyd, dyma rai o'r unig leoedd sy'n addas i "ymwelwyr" os byddant yn aros gyda theulu yn y stryd, gan nad oes cyfyngiadau parcio.* |
| *Mae'r gwerthwyr cyffuriau lleol yn defnyddio'r gatiau i ddosbarthu cyffuriau neu osgoi'r prif ffyrdd; bydd agor y gatiau'n arwain at ddefnyddio beiciau modur a sgwteri. Bydd pethau gymaint yn haws i'r gwerthwyr cyffuriau yn ein tref.* |
| *Peidiwch â chael gwared ar gatiau'r porthdy. Fel trigolion, rydym wrth ein bodd â hanes Rhodfa'r Gnoll. Mae'r mynediad i bobl anabl a beicwyr yn wych fel y mae. Mae gennym broblem 'ryfedd' lle mae sgwteri'n cael eu defnyddio i werthu 'cyffuriau'. Bydd cael gwared ar y gatiau'n gwaethygu'r broblem. Bydd hyn yn golygu cynnydd enfawr mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y stryd hanesyddol hon* |
| *Yr opsiwn y byddwn i'n ei ffafrio yw peidio â bwrw ymlaen â'r naill opsiwn na'r llall a defnyddio'r arian ar bethau sy'n bwysig a gwaith fel y GIG* |
| *Byddaf yn cerdded yn rheolaidd yn yr ardal er pleser ac er mwyn siopa. Byddaf yn beicio'n wythnosol yn yr ardal, i fyny ac i lawr Cilgant Cimla, ac ni fyddaf i na fy ngwraig byth yn gweld problem. Mae teithio y tu hwnt i dir comin Cimla i fyny i Gefn Saeson a throsodd i bont-rhyd-y-fen yn beryglus ar hyn o bryd. Dylid blaenoriaethu rhyw fath o lwybr beicio o dir comin Cimla, drosodd i bont-rhyd-y-fen, i Afan Argoed ac at y llwybr beicio i lawr Gwm Afan* |
| *Pryd y caiff gwelliannau eu gwneud i Heol Cimla?* |
| *Mae gennym ddigon o dwmpathau cyflymder o gwmpas yr ardal. Mae gen i broblemau difrifol gyda fy nghymalau, a chaiff y rhain eu gwaethygu wrth fynd dros dwmpathau. Nid oes pwrpas i lwyfannau uwch mewn ardaloedd 20mya. Gwastraff arian llwyr, o ble bynnag y daw'r arian hwnnw. Bydd y naill opsiwn neu'r llall yn gwneud fy mywyd i'n anos. Nid oes budd i godi lefelau strydoedd ar gyffyrdd pan fo cyrbiau isel o flaen y rhan fwyaf o dai sy'n anwastad i gerdded drostynt beth bynnag. Yn benodol, mae'r cynigion ym mhen draw Poplars Avenue yn wastraff arian llwyr. Mae ardal fawr ddymunol o wyrddni yno gyda ffyrdd llydan. Pam eu culhau? Mae'n wallgof.* |
| *Tybed a fydd pob beiciwr yn defnyddio'r llwybrau hyn nawr yn hytrach na beicio ar y ffordd.* |
| *Nid wyf yn credu o gwbl y bydd beicio'n cynyddu yn yr ardal gan ein bod yn byw ar riw ac nid ar dir gwastad. Byddai angen i'r rhan fwyaf o bobl gael beic trydan i ddelio â'r rhiwiau hyn! Cofiwch fod pobl sy'n beicio yn yr ardal hon yn gallu gwneud hynny'n ddiogel gan ei bod yn ardal dawel; byddai'n well i chi wario'r arian ar ffyrdd prysur.* |
| *Mae gen i lai o symudedd. Bydd gwneud croesi'r ffyrdd yn fwy diogel yn fy helpu i gyrraedd y siopau.* |
| *Nid oes angen y newidiadau hyn ac, o ran cyflymder ceir, 20mya yw'r terfyn cyflymder. Yn yr ardal hon, nid yw hyn yn ddim ond gwastraff arian trethdalwyr unwaith eto. Faint o feiciau a chadeiriau olwyn y byddwch chi'n eu gweld yn defnyddio'r llwybr hwn? Dim llawer, ond llawer o gerddwyr.* |
| *Bydd y cynigion yn cynnig llwybr cymudo a hamdden diogel yn ogystal â llwybr diogel drwy Barc y Gnoll a'r gatiau Coffa. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o oleuadau ar y bachdro i Gilgant Cimla.* |

| |
|---|
| *Mae'r Cilgant yn rhy brysur o lawer o ran traffig i gefnogi cynllun o'r fath* |
| *Nid wyf yn hoff o'r opsiwn llwybr cyd-ddefnyddio gan fod hyn yn creu gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr. Pam nad oes opsiwn arall ar gyfer cerdded a beicio wedi'u harwahanu?* |
| *Yn ardal Cimla, rydym yn cael ein poeni'n ddi-baid gan yrwyr beiciau modur anghymwys sydd heb drwydded a heb yswiriant yn goryrru ac yn gyrru heb helmedau ac ati. Mae'r Heddlu'n gwbl ymwybodol o'r mater ond maent yn dewis ei anwybyddu nes i rywun gael ei ladd!! Plentyn neu berson oedrannus.* |
| *Gwnewch fwy o hyn!* |
| *Mae hyn yn wastraff amser ac arian llwyr ac ni fydd yn gwella'r ardal nac yn cael ei ddefnyddio, felly nid wyf yn siŵr ble rydych chi'n credu mae'r awydd am y cynllun hwn? Ni wn ym mha ffordd y mae Cilgant Cimla wedi'i labelu'n stryd dawel, gan fod ceir wedi'u parcio ar y ddwy ochr i'r ffordd a byddai llwybr bysiau a thraffig rheolaidd drwy'r dydd a'r nos yn ei gwneud yn anniogel. Ar hyn o bryd, bydd pobl yn cerdded i'r dref ar hyd y llwybr hwn heb ddim problem o gwbl ac yn eithaf diogel ac, os bydd pobl am feicio, byddant yn gwneud hynny ar y ffordd gan ei bod yn dawelach na'r brif ffordd, sef Heol Cimla, ac nid wyf yn credu y caiff y llwybr ei ddefnyddio oherwydd y tywydd/boreau a nosweithiau tywyll felly byddai'r holl arian hwn yn cael ei wario ar ddifetha'r ardal am ddim budd. Pe bai'r cyngor o ddifrif ynglŷn â chynnig llwybr teithio diogel, yna beth am greu nodwedd yn y Gnoll lle mae arian yn cael ei wario a gallai plant a theuluoedd ei defnyddio i ffwrdd o'r ffyrdd a'r traffig a'r ceir wedi'u parcio a phryderon diogelwch gwirioneddol y trigolion sy'n tynnu allan o'u dreifiau ac ati.* |
| *Yr effaith ar drigolion Cilgant Cimla, tagfeydd parcio ar ffordd sydd eisoes yn brysur, gwastraff arian llwyr gan na fyddai'n cael ei ddefnyddio* |
| *Rwy'n cerdded i'r gwaith bob dydd. Nid wyf erioed wedi gweld beiciwr yn mynd i lawr y Cilgant. Nid wyf yn credu bod angen hyn. Ni fydd yn cael ei ddefnyddio. Bydd beiciwr hyfedr yn defnyddio'r ffordd beth bynnag ac, ar hyn o bryd, nid oes golwg o'r rhain. Nid yw llwybr penodedig yn mynd i gynyddu defnydd. Efallai pe bai'r tir yn wastad, ond nid ar riw.* |
| *Bydd culhau'r cyffyrdd a chael gwared ar y man gwyrdd yn wastraff adnoddau. Mae'r ardal eisoes yn ddiogel i gerddwyr a beicwyr.* |
| *Byddwn yn gobeithio y caiff yr holl drigolion y bydd yr holl newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol y tu allan i'w cartrefi yn cael eu hystyried yn llawn ac yr ymgynghorir â nhw.* |
| *Rwy'n cydnabod nodau Llywodraeth Cymru i annog mwy o feicio a cherdded ond, o ystyried graddiant Cimla (rhiw serth), nid wyf yn credu y bydd y cynnig presennol yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i gyfraddau cerdded a beicio. O ganlyniad i hynny, bydd hyn yn wastraff arian cyhoeddus ac yn creu seilwaith sy'n annhebygol o gael ei gynnal a'i gadw, fel sy'n wir yn achos y llwybr beiciau dynodedig ar hyd camlas Castell-nedd. Bydd ychwanegu rhagor o dwmpathau cyflymder ar Gilgant Cimla yn peri risg o gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr ac felly leihau unrhyw fudd posibl i'r amgylchedd.* |
| *da i ddim; ni fydd yn datrys dim byd heblaw effeithio ar lif y cilgant ac mae llwybr beicio yn ddiangen* |
| *Beth bynnag fo'r cynigion teithio llesol a gynigir, ni fyddant yn newid y ffaith bod Cimla yn serth iawn! Ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl byth yn gallu beicio na cherdded i fyny'r rhiw, er gwaethaf unrhyw ddarpariaethau beicio/cerdded a gyflwynir gennych.* |
| *Rwy'n byw ym mhen draw Poplars Avenue ger y man glaswelltog. Bydd cael gwared ar hwn yn gwneud yr ardal yn llai atyniadol!!!* |
| *Cynllun cwbl ddiangen; mae'n hygyrch iawn yn barod ac ni fydd hyn gwneud dim ond tarfu ar drigolion a defnyddwyr y llwybrau presennol. Mae angen gwaith ar y llwybr rhwng Cimla a Phont-rhyd-y-fen er mwyn galluogi pobl i gerdded a beicio'n ddiogel tuag at Afon Argoed. Peidiwch â gwneud hyn.* |
| *Byddai'r cynnig ar gyfer Cilgant Cimla yn achosi problemau i drigolion. Byddaf yn beicio ac yn cerdded ar hyd y llwybr yn rheolaidd, ac mae'n berffaith ddiogel fel y mae. Mae'r beicwyr selog, a'r rhai dan hyfforddiant, sy'n ymlwybro tuag at Gwm Afan, yn annhebygol dros ben o wyro oddi ar Heol Cimla. Mae llwybr beicio hen ddigon da ar Heol Fabian, ond mae'r raswyr yn dal i ddefnyddio'r brif ffordd gerbydau. Pam na all y llwybr fynd drwy dir y Gnoll, lle mae llwybr ar gael yn barod? Gallai gael ei ehangu. Ar y ffordd o'r orsaf dân i fyny heibio'r ysgolion y mae'r broblem wirioneddol. Dyna ble mae angen i chi ganolbwyntio eich ymdrechion. Mae'n arbennig o beryglus yno. Wedyn drwy'r ffordd gefn i Bont-rhyd-y-fen. Nid yw'r cynigion wedi cael eu hystyried yn ddigon gofalus.* |
| *Nid wyf yn cefnogi'r cynnig diangen hwn ac rwy'n teimlo na fydd yn gwneud dim ond cael mwy o effaith negyddol ar yr ardal, yn enwedig y cynnig ar gyfer Cilgant Cimla sy'n mynd i gael effaith negyddol ar y trigolion sy'n byw yn yr ardal ac nad oes ei eisiau na'i angen.* |

| |
|---|
| *Rwy'n ddefnyddiwr sgwter symudedd, ac nid oes cwrb isel ar ôl y fân gylchfan wrth i chi nesáu at Dir Comin Cimla. Mae yna un y pen arall ond mae'n ddiwerth i mi gan na allaf fynd oddi ar y palmant.* |
| *Mae'r cynigion yn iawn, ond rwy'n credu y dylid gwneud rhai gwelliannau a rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl: byddai'n gwbl amhriodol cael gwared ar unrhyw rai o'r coed sydd wedi hen ymsefydlu bob ochr i'r llwybr er mwyn lledu'r llwybr – yn enwedig ar hyd Heol Cwm Afan; er bod llwyfannau uwch yn bwysig ar gyfer y cynnig, mae gormod ohonynt wedi cael eu hawgrymu; bydd gormod o groesfannau twcan yn amharu ar lif y traffig yn fawr, yn enwedig yn ystod oriau brig; NI ddylid cael gwared ar y gylchfan ar Dir Comin Cimla oherwydd byddai hyn yn siŵr o greu mwy o dagfeydd traffig i fyny ac i lawr y rhiw – fodd bynnag, os mynnir cael gwared ar y gylchfan o blaid goleuadau traffig, gellid symud croesffordd Heol Cwm Afan/Bwlch Road ymhellach I FYNY'R tir comin (yn lleoliad y safle bws i lawr y rhiw) a dargyfeirio Bwlch Road i ymuno â'r brif ffordd yn y man hwnnw. Gallai hyn helpu i wella llif y traffig a lleihau tagfeydd rhwng yr Orsaf Dân a Tesco, a galluogi'r llwybr beicio newydd i fynd ar hyd ochr y maes chwarae i'r tir comin hyd at y man hwnnw hefyd, ac felly byddai dau ddiben i'r goleuadau (croesffordd + croesfan) gan olygu na fyddai angen croesfan newydd wrth ymyl The Hollins. Ar y cyfan, mae'r cynigion yn iawn, ond dylai fod yn glir bod Cimla ar riw serth. Rwy'n ei chael hi'n anodd credu y bydd y buddsoddiad hwn yn hybu beicio yn yr ardal gan nad yw'n cael gwared ar un rhwystr, sef y rhiw serth. Ar ben hynny, bydd beicwyr presennol/profiadol yn parhau i ddefnyddio'r brif ffordd i feicio beth bynnag gan y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn dilyn y ffyrdd prifwythiennol i gyrraedd Cimla yn y lle cyntaf ac felly ni fyddent yn gwyro i'r llwybr beicio, a bydd beicwyr yn eu harddegau yn yr ardal leol yn parhau i anwybyddu rheolau'r ffordd ac ymddwyn yn anwadal er gwaethaf unrhyw seilwaith newydd a gaiff ei osod.* |
| *Mae mieri wedi tyfu dros y llwybrau beicio bresennol, yn enwedig camlas Castell-nedd, a dylai'r archwiliad sylweddoli bod beicwyr fel arfer yn uwch na cherddwyr* |
| *Cynigion y mae angen eu gwella: bydd gormod o lwyfannau uwch o amgylch cyffyrdd yn beryglus o ran gweledEdd, ymarferoldeb a chydymffurfiaeth i yrwyr ac i feicwyr, a hefyd yn peri dryswch o ran hawl tramwy/ildio; bydd culhau'r cyffyrdd yn anniogel i ddefnyddwyr y ffyrdd gan y bydd yn lleihau gweledEdd a'r gallu i fanwfro, yn enwedig i fysiau a lorïau a fydd yn cymryd troadau tynn ac y bydd angen iddynt fynd ar y palmant o bosibl, gan beri risg i gerddwyr/beicwyr ac i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd a difrodi wyneb y ffordd gan arwain at gostau atgyweirio uchel mynych hefyd o bosibl; bydd lleihau maint y cyffyrdd hefyd yn creu anawsterau i gerbydau argyfwng wrth iddynt geisio mynd heibio i geir eraill, gan beryglu bywydau o bosibl; mae gormod o oleuadau traffig yn y cynigion hyn.* |
| *Gyferbyn â Llwyn Pinwydd, dylech greu llwybr mynediad newydd i gornel isaf y tir comin er mwyn ymuno â'r llwybr presennol i lawr heibio cefn Cilgant Cimla sy'n dod allan wrth y pwll cyntaf.* |
| *Am wastraff arian llwyr dan orchymyn unbennaeth y cynulliad. Ni fydd pobl yn beicio i'r gwaith; ni fydd y defnydd o gerbydau'n lleihau. Mae Cymru wedi mynd yn jôc!* |
| *Os mai lledu'r llwybr troed yng Nghilgant Cimla yw'r bwriad. I ble y bydd y ceir sy'n parcio ar yr ochr honno i'r ffordd yn mynd? Hefyd, fy mhryder i yw y byddwn yn y pen draw yn colli'r gwasanaeth bysiau sy'n achubiaeth i drigolion hŷn er mwyn mynd yn ôl ac ymlaen i Gastell-nedd ar hyn o bryd.* |
| *Byddaf yn cerdded ac yn beicio'n rheolaidd yn yr ardal hon; ni fydd eich cynlluniau'n gwella'r profiad!* |
| *Mae'r palmentydd yn anwastad ac yn beryglus iawn yr holl ffordd i lawr o ben uchaf Cilgant Cimla i'r gwaelod. Byddaf yn cerdded yn rheolaidd o'r pen uchaf i'r gwaelod ac i mewn i Ganol Tref Castell-nedd ac i fyny i'r Gnoll ac rwy'n teimlo eu bod yn anniogel ac y dylid gosod wyneb cwbl newydd arnynt. Mae'r fynedfa i'r Gnoll ar waelod y cilgant yn arbennig o beryglus gyda llawer o gerrig rhydd. Nid wyf yn hapus â'r holiadur rydych chi wedi'i greu am nad yw'n caniatáu i mi ddweud nad wyf am ddewis yr opsiynau sy'n cael eu hawgrymu. Rwy'n credu y bydd ychwanegu twmpathau/palmentydd uwch yn fwy anniogel gan y bydd plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn eu defnyddio fel RAMPIAU HWYL ac yn ymgynnull i geisio eu defnyddio. Hefyd, bydd y Cilgant yn beryglus DROS BEN pan fydd eira ac amodau rhewllyd, a bydd y rhain yn gwneud yr amodau'n fwy peryglus byth. Ni fydd o gymorth i feicwyr. Mae gen i broblemau ag arthritis yn fy nghluniau a gwaelod fy nghefn. Byddai'n well gen i pe bai'r arian diogelwch hwn yn cael ei wario ar wneud y palmentydd yn ddiogel ac yn wastad. Mae gen i bryderon gwirioneddol y bydd y mesurau diogelwch honedig hyn yn achosi mwy o ddamweiniau. Mae gen i broblem ag agor y gatiau gan na fydd y beicwyr yn dod oddi ar eu beiciau mwyach a byddant yn hedfan i lawr y rhiw a thrwy'r gatiau. Peryglus dros ben i blant a cherddwyr arafach ar yr ochr arall.* |
| *Gordd i dorri cneuen yw hyn. Mae ein Cynghorwyr Lleol yn cefnogi'r ffaith nad oes angen y gwaith hwn yng Nghilgant Cimla, sydd eisoes yn Stryd Ddiogel a Thawel sydd â mynediad rhwydd ar hyd y palmant i Gerddwyr a'r Ffordd i Feicwyr. Nid wyf yn cefnogi'r gwaith Arfaethedig hwn* |

| |
|---|
| *Yn adran 4, nid wyf yn siŵr y bydd goleuadau (yn hytrach na chylchfan) yn helpu traffig i lifo. Yn ystod oriau brys, ond gan amlaf pan fyddaf yn gyrru drwodd, ni fydd oedi, a gallaf ddychmygu aros wrth olau coch pan na fydd dim traffig arall.* |
| *Nid wyf yn gweld y bydd y cynllun arfaethedig yn cael digon o effaith i gyfiawnhau'r annibendod gweledol a'r gost* |
| *Nid wyf yn cytuno â'r cynllun Teithio Llesol arfaethedig ar gyfer Cilgant Cimla a hoffwn gofnodi fy mhryderon. Mae parcio yn yr ardal eisoes yn peri anhawster i drigolion ac, os bydd mwy o ymwelwyr, beicwyr ac os caiff y palmentydd eu lledu ac ati, bydd hyn yn mynd yn anos fyth. Nid wyf yn cefnogi'r cynnig hwn!! Mae llwybr troed y Gnoll yn mynd yn syth y tu ôl i Gilgant Cimla – defnyddiwch hwn ar gyfer teithio llesol – rhowch darmac ar y llwybr hwnnw ac ychwanegwch oleuadau i annog pobl i ddefnyddio'r llwybr hwnnw yn hytrach na chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r cilgant!!* |
| *Rwy'n credu y bydd problemau traffig mawr (yn enwedig yng Nghilgant Cimla) gan y bydd llawer o bobl yn parcio eu ceir ar y ffordd y tu allan i'w cartrefi. Os caiff y palmentydd eu lledu, ni fydd lle i barcio y tu allan i'ch cartref a gadael lle diogel rhwng y ceir i draffig (gan gynnwys cerbydau argyfwng) fynd drwodd. Gan fod y ffordd yn un eithaf tawel, nid oes angen gwneud y newidiadau hyn gan fod beicwyr yn gallu beicio'n ddiogel i fyny ac i lawr fel y mae.* |
| *Mae'n galonogol gweld gwelliannau i gerdded a beicio yn yr ardal leol. Bydd hyn yn galluogi mwy o rieni i fynd â'u plant i'r ysgol ar droed yn hytrach na defnyddio eu ceir.* |
| *Rwy'n cerdded ac yn beicio ar hyn o bryd a bydd y cynlluniau newydd yn cymhlethu pethau am ddim rheswm* |
| *Rwy'n cerdded i lawr i Gastell-nedd ar hyn o bryd a bydd cael llwybr cyd-ddefnyddio yn gwneud hynny'n anniogel* |
| *Byddai'n syniad da gosod diffibriliwr yn rhan isaf ystad y gnoll.* |
| *Ni fydd ychwanegu llwyfannau uwch yn ei gwneud hi'n ddim haws beicio i fyny'r rhiw ond gallai achosi difrod aruthrol i geir. Mae'n hen ddigon hawdd cerdded yn yr ardal fel y mae; rwy'n byw yn yr ardal hon ac yn cerdded o'i chwmpas yn ddyddiol. Mae culhau'r mynedfeydd i'r strydoedd ochr yn y Cilgant yn debygol o achosi damweiniau. Hefyd, stopiwch gael gwared ar yr holl laswellt; nid yw'n dda i'r amgylchedd ac mae'n cynyddu newid hinsawdd.* |
| *Nid wyf yn cytuno â'r cynlluniau arfaethedig; rwyf wedi byw yn yr ardal ar hyd fy oes ac ni allaf weld sut y bydd hyn o fudd i'r ardal. Heblaw gwneud yr ardal yn lle annymunol i fyw ynddi. A gostwng gwerth yr eiddo yn yr ardal hon.* |
| *Nid yw cymysgu cerddwyr a beicwyr ar yr un llwybr yn beth diogel i'w wneud* |
| *Er mwyn gwneud y llwybr yn fwy diogel, mae angen i chi adolygu'r sefyllfa o ran parcio ger pwll isaf y gnoll yn ystod oriau brig gan fod pobl yn parcio yn unrhyw le gan leihau gwelededd i blant sy'n beicio neu'n cerdded* |
| *Mae'n ymddangos bod croesfannau uwch yn ddiangen ar y rhannau hyn o'r ffordd. Byddai croesfan fwy addas yn fuddiol ar y brif ffordd rhwng Tesco a'r fynedfa i'r pwll isaf.* |
| *Rwy'n un o drigolion Cimla (Poplars Avenue), ac rwy'n ysgrifennu i wrthwynebu rhai o'r newidiadau arfaethedig i'r llwybr teithio llesol yng Nghimla. Rwy'n gerddwr ac yn lonciwr brwd yn ardal Cimla a'r Gnoll ac rwy'n teimlo bod popeth yn gweithio'n iawn fel y mae; ni welaf fantais i'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn. Yn gyntaf, dyma'r newidiadau rwy'n eu cefnogi: cael gwared ar y cylch uchaf ar Gât y Gnoll er mwyn caniatáu i feicwyr fynd drwodd, mynediad i bobl anabl drwy'r gatiau coffa, goleuadau lefel isel yn y Gnoll (adran 7), codi'r gwaharddiad ar feicio mewn ardaloedd penodol. Mae'r rhain i gyd yn ymddangos yn synhwyrol. Fodd bynnag, rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i osod llwyfannau ledled Cimla, a fydd yn niwsans i yrwyr ac yn achosi gwaith ffordd diangen. Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynllun i gael gwared ar y llain las ganolog ar Poplars Avenue (Adran 5), gan fod hwn yn ddarn dymunol o wyrddni i annog rhywfaint o fywyd gwyllt, ac nid wyf am gael darn dibwrpas o goncrit yn y ffordd pan allem gael ychydig o fyd natur. Hefyd, nid wyf yn gweld mantais gwastraffu arian yn tyllu'r ffordd er mwyn cael gwared ar y darn hwn o laswellt. Beth yw'r broblem â'r gyffordd honno? Yn olaf, rwy'n gwrthwynebu lledu llwybrau ledled Cimla. Nid wyf yn teimlo mor gryf am hyn, ond rwy'n cwestiynu a oes tystiolaeth y bydd llwybrau lletach yn annog mwy o gerdded a beicio (o gofio bod Cimla ar riw, ac felly efallai y byddai gennym lwybrau lletach ond a fydd hynny wir yn gwneud pobl yn fwy tebygol o gerdded o Gastell-nedd i Gimla – yn enwedig unrhyw un â llai o symudedd, neu bobl â phlant bach)? Rwyf hefyd yn nodi eich bod yn torri i mewn i'r lleiniau glas ac rwy'n meddwl tybed sut rydych chi'n bwriadu lliniaru effaith hyn ar yr amgylchedd ac ar fywyd gwyllt; gwn mai dim ond darn bach o laswellt ydyw yn ôl pob golwg, ond rwy'n teimlo'n gryf y dylem wneud ymdrech i gadw cymaint ohono â phosibl. Rwyf hefyd yn pryderu'n fawr am effaith yr holl waith ffordd ar yr amgylchedd, parcio ar ochr y ffordd i drigolion, a'r tarfu ar y rhai hynny ohonom y bydd yn rhaid i ni yrru drwy'r holl waith ffordd i fynd i'r swyddfa (neu i'r ysgol) bob dydd. Hefyd, mae gen i rywfaint o* |

| |
|---|
| *adborth ar eich ffurflen ymgynghori (Microsoft Forms) – nid yw'r cwestiynau'n caniatáu i ddinasyddion gofnodi eu safbwyntiau'n gywir, ac nid ydynt yn helpu pobl i ddeall manylion y cynigion a gallu gwneud sylwadau arnynt yn iawn. Dylai cwestiynau 4 a 5 fod yn gwestiynau amlddewis, gan ei bod yn bosibl y bydd mwy nag un ateb. Hefyd, rydych chi'n gofyn "pa agweddau rydych chi'n eu hoffi/nad ydych chi'n eu hoffi a pham" ac wedyn nid ydych yn cynnig unrhyw ffordd o ddweud wrthych pam? Mae cwestiwn 6 yn gwestiwn arweiniol; rydych chi'n gofyn i mi ddewis rhwng dau opsiwn er nad wyf yn cytuno â'r naill na'r llall. Dylech gynnig opsiwn "y naill na'r llall" o leiaf. Mae cwestiwn 9 yn gofyn a oes gennych sylwadau ychwanegol ond dim ond lle bach iawn sydd ar gael i ysgrifennu eich ymateb ac, a dweud y gwir, dyma'r lle cyntaf i mi allu gadael unrhyw sylw o gwbl. Mae ffeiliau PDF a chynlluniau'r ymgynghoriad yn anodd eu darllen a'u deall, yn enwedig i ddinasyddion sydd â llythrennedd digidol isel neu nad ydynt yn dda am ddarllen mapiau. Dylai'r cyngor ddarparu fersiynau hawdd eu deall os yw wir am glywed safbwyntiau pobl. Mae'r holl ymgynghoriad hwn yn teimlo fel ymarfer ticio blychau nawr.* |
| *Cefais fy magu yng Nghimla ac rwy'n dal i fyw'n agos felly rwy'n adnabod yr ardal yn dda iawn. Rwy'n credu y byddai'r gwelliannau'n gwella'r ardal dan sylw ac yn cadw beicwyr a cherddwyr yn fwy diogel.* |
| *Rwy'n defnyddio sgwter symudedd a bydd y byrddau uwch yn fy helpu i fynd o le i le ac i gadw fy annibyniaeth. Mae croesfannau isel yn anodd i mi weithiau, ac maent weithiau'n serth ac yn anodd eu defnyddio, felly bydd y gwaith hwn yn welliant enfawr.* |
| *Rwy'n croesawu unrhyw beth a fydd yn lleihau'r defnydd o geir neu'n arafu ceir. Ar hyd Cilgant Cimla, mae ceir yn bagio allan o ddreifiau yn berygl nawr. Sut y bydd hynny'n effeithio ar feicio?* |
| *Pe gallech gael gwared ar y glaw a'r rhiwiau a phe na bai angen i mi ruthro o gwmpas yn rhoi trefn ar y plant ac yn mynd i'r gwaith mae'n bosibl y byddai modd cael amser i ddefnyddio dulliau teithio llesol, ond nid yw'r amser gan y rhan fwyaf o bobl. Am lwyth o nonsens* |
| *Nid wyf yn cytuno â'r cynllun teithio llesol arfaethedig ar gyfer Cilgant Cimla a hoffwn i chi gofnodi fy mhryderon a'u cyflwyno i'r swyddogion perthnasol yn CNPT* |
| *Nid wyf yn cytuno â'r llwybr beicio arfaethedig drwy Gilgant Cimla. Bydd hyn yn achosi tagfeydd traffig a thrigolion anfodlon gan y bydd angen i drigolion ar ochr y llwybr beicio barcio ar ochr arall y cilgant. Beth fydd yn digwydd pan fydd teulu, gweithwyr ac ati yn ymweld â'r eiddo ar ochr y llwybr beicio. Nid yw'r cynnig hwn wedi cael ei ystyried yn ofalus o gwbl! Beth am bobl fel fi sy'n anabl ac sydd â phroblemau symudedd ac aelodau o'r teulu sydd â'r un problemau. Gallaf gyfrif ar 1 llaw sawl beic a welaf yn defnyddio Cilgant Cimla ar hyn o bryd. Rydych chi'n cuddio y tu ôl i'r teitl teithio llesol ac yn dweud mai dyma beth bynnag y mae angen ei wneud i'w wella, ond heb feddwl am drigolion sy'n byw ar y ffordd hon o gwbl! Rwy'n anghytuno'n llwyr â'r cynlluniau arfaethedig.* |
| *Mae fy Ngwraig a minnau'n dioddef o Osteoarthritis, ac rwyf wedi cael statws SYMUDEDD ac mae arnaf angen i'm CAR fod wedi'i BARCIO y tu allan i'm tŷ oherwydd mae angen i'r ddau ohonom fynd i apwyntiadau yn yr Ysbyty a'r Feddygfa am fod gan fy ngwraig anhwylder ar yr Arennau ac am fod gen i Ganser y Prostad.* |
| *Un llwybr posibl arall fyddai o waelod the meadows i mewn i ystad y Gnoll. Dim ond llwybr 10m fyddai'n gwneud hyn yn hygyrch.* |
| *Ni fydd cynlluniau byth yn berffaith, ond mae angen unrhyw ymgais i wneud cerdded a beicio'n fwy diogel* |
| *Gât mochyn yn y fynedfa i'r gnoll. I arafu pobl ar gornel ddall.* |
| *Rwy'n anghytuno â'r ddau opsiwn ac rwy'n credu y bydd y ddau opsiwn yn gwahodd mwy o feicwyr i fynd ar y palmentydd, yn enwedig plant iau, pobl ifanc yn eu harddegau sy'n beicio ar y ffyrdd yn bennaf ar hyn o bryd a, hyd y gwn i, nid oes dim damweiniau wedi bod a oedd yn cynnwys beicwyr/ ceir, neu feicwyr/ ceir a cherddwyr. Mae pobl sy'n mynd â chŵn am dro yn yr ardal yn arbennig o amlwg ac maent yn defnyddio'r llwybrau troed yn ystod y dydd a'r nos. Gallai'r opsiynau annog beicio ar y palmentydd, a byddant yn gwneud hynny, oherwydd bydd yr opsiynau'n ei gwneud hi'n llawer haws a mwy hygyrch i feicwyr fynd ar y palmentydd. Hefyd, bydd y llwyfannau hyn yn rhoi camsyniad i gerddwyr fod ganddynt hawl tramwy i groesi'r ffordd, a allai achosi damweiniau. Rwy'n credu y byddai arwyddion llwybr beicio ar hyd y llwybr gyda rhai arwyddion beicio wedi'u paentio ar y ffordd ar gyfer beicwyr sy'n anghyfarwydd â'r ardal yn ddigon.* |
| *Terfyn cyflymder i feicwyr* |
| *Rwy'n credu y bydd y cynigion yn gwneud ein hardal yn anniogel i gerddwyr, beicwyr, a defnyddwyr ceir.* |
| *Bydd Cyffordd T ar poplars avenue yn gweithio'n well os bydd yn symud i'r Western Road bresennol sy'n arwain oddi ar y cilgant. Eithaf hapus i'r ardal aros fel y mae. Mae'n ddiogel ac nid oes damweiniau wedi bod mewn mwy na 50 mlynedd hyd y gwyddom* |

| |
|---|
| *Byddai'n well gen i opsiwn 2 am fy mod yn byw yn 22 Alder Road, a byddai hyn yn golygu bod y llwyfan uwch yn mynd â llai o le* |
| *Hoffwn gael mwy o eglurder ynglŷn â ble i barcio fy ngherbyd gwaith ac rwy'n credu y byddai'r cynllun arfaethedig hwn yn gostwng gwerth fy nhŷ.* |
| *Beth sydd wedi achosi'r angen hwn am darfu aruthrol, sŵn, baw a chost sylweddol. A yw'r Cyngor wedi cynnal unrhyw fath o arolwg i brofi bod yr holl newidiadau hyn yn angenrheidiol? Nid yw rhieni sy'n mynd â'u plant i'r ysgol mewn ceir i'r 2 ysgol yn mynd i adael eu ceir â cherdded yn lle hynny mwyaf sydyn. Ar ben hynny, prin y gwelir beicwyr yng Nghimla, a gellid tybio bod hynny am eu bod yn gallu beicio i lawr y rhiw, ond ni allwch feicio i fyny'r rhiw i ben uchaf Cimla ar unrhyw gyfrif. Felly, nid oes angen lledu llwybrau o gwbl. Yn briodol ddigon, mae gennym lwybrau isel ar gyffyrdd er mwyn i bobl ddall ac anabl groesi. Nid oes angen "llwyfannau uwch" pellach. Bydd mesur o'r fath yn achosi difrod i geir y bydd yn rhaid iddynt deithio drostynt yn aml a chan fod terfyn cyflymder 20mya ar hyd y rhan fwyaf o'r ffyrdd y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt yn barod, ni allaf ddeall yr angen am fesurau pellach o'r fath. Ni fyddwn yn credu y bydd ein gweithredwyr bysiau, tacsis neu gerbydau nwyddau trwm yn hapus â'r cynigion hyn. Yn olaf, fe es i i'r Cwt Sgowtiaid i drafod y cynlluniau gyda rhywun ond, ar bob achlysur, roedd hi'n brysur yno ac nid oedd modd i mi siarad â chynrychiolwyr y Cyngor. Yn fy marn i, dylai'r cyngor fod wedi rhoi gwybod i BOB UN o'r aelwydydd y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnynt ac nid dim ond rhoi hysbysiadau ar ambell bolyn lamp ynglŷn â'r cyfarfod. NID wyf ar Facebook ond rwy'n defnyddio'r rhyngrwyd ac mae gan y Cyngor fy nghyfeiriad e-bost. Byddwn wedi meddwl y byddai modd hysbysebu'r newidiadau arfaethedig yn ehangach. Ni wn a fydd fy sylwadau'n cael eu gweld neu eu hystyried oherwydd, hyd yma, nid yw'r profforma hwn wedi gofyn am fanylion personol. Er gwybodaeth, rwy'n byw yn Alder Road ac rwyf yn erbyn POB UN o'r newidiadau arfaethedig sydd i'w gweld yn y Cynllun. Dim angen – arbedwch yr arian hyd yn oed os na ellir ei wario yn rhywle arall!* |
| *Pryderon ynglŷn â'r cynnig presennol ar gyfer tro Poplars. Rwyf hefyd yn pryderu sut y byddai'n effeithio ar barcio ym mhen draw'r Ddraenen Wen. Os bydd angen llwyfan ychwanegol tuag at y fynedfa i'r Gnoll ger y ddraenen wen, gallai hyn achosi tagfeydd ychwanegol mewn ardal sydd eisoes yn brysur. Mae'r ardal hon ar y llwybr bysiau, mae llawer o gerddwyr yn croesi'n rheolaidd, ac mae ar dro. A ellid ailystyried yr ardal hon? Diolch* |
| *Ddim yn hapus â gadael y Gatiau Coffa ar agor. Peryglus wrth i Feicwyr fynd drwodd ar gyflymder* |
| *Nid wyf yn credu y byddai'r goleuadau traffig yn lle mân gylchfan yn gwella ein hardal. Rwy'n credu y byddai hyn yn achosi traffig ar adeg gollwng plant yn yr ysgol gan effeithio ar CKs a'r tro allan o'r cilgant.* |
| *Nid wyf yn hoffi'r cynnig i agor y Gatiau Coffa* |
| *A oes angen Llwyfannau o gwbl. Llwybr diogel i lawr ochr dde Cilgant Cimla. Angen gwell Wyneb ar y Palmant* |
| *Ar ôl mynd i'r cwt sgowtiaid heddiw mae fy mhryderon yn dal yr un fath. Gwastraff arian ac nid oes gan y cyngor ddigon o arian i dalu costau cynnal a chadw hyn. Bydd llywodraeth Cymru yn rhoi arian cychwynnol ond yn disgwyl i drethdalwyr y cyngor ei gynnal a'i gadw. Bydd cerddwyr oedrannus yn cael eu taro gan feicwyr sy'n mynd yn rhy gyflym. Y broblem yw goryrru ar y brif ffordd. Bydd llawer o bobl hŷn a phobl nad ydynt mor hen sy'n byw yn y cilgant yn cerdded i lawr i Gastell-nedd a bydd yn rhaid iddynt osgoi beicwyr. Dim angen palmentydd uwch. Bydd cyffordd newydd Poplars Road yn creu problemau enfawr ac nid yw'n syniad clyfar. Cael gwared ar y porthdy hanesyddol a gosod bolardiau plastig yn ei le – am syniad ofnadwy. Lle bynnag y mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cyflwyno, mae cerddwyr ar eu colled am fod beicwyr yn gwibio heibio iddynt yn beryglus. Bydd y syniadau hyn yn cael eu gorfodi drwodd ac yn cael eu newid pan gânt eu rhoi ar waith mewn ychydig flynyddoedd.* |
| *Mae'n wastraff arian cyhoeddus hurt. Dylai llywodraeth Cymru fod yn gwario'r arian ar bethau gwell na hyn!* |
| *Os yw rhywbeth yn gweithio'n iawn, pam ceisio ei wella. Cymaint o wastraff llwyr o arian y dylai llywodraeth Cymru fod yn ei wario ar bethau y mae ei angen arnynt.* |
| *Cynigir y bydd y llwybr o Gilgant Cimla i'r Gnoll yn cael ei rannu ac na fydd gan feicwyr na cherddwyr hawl tramwy. Mae'n anochel y bydd ychwanegu cynifer o fesurau diogelwch at groesffyrdd ac yna greu sefyllfa ddryslyd ar lwybr yn arwain at ddamwain! Os bydd gennych goetsh gadair a phlentyn y naill ochr a'r llall i chi, sut y bydd hynny'n ddiogel gan nad oes modd lledu'r llwybr o gwmpas y tro tynn. Ar hyn o bryd mae beicwyr yn defnyddio'r llwybr, ac mae fy mam wedi bod yn agos at gael ei tharo i lawr 3 gwaith eleni. Mae'r beiciau hyn yn gallu cyrraedd cyflymder uchel i lawr y rhiw; ydych chi'n cynnig ein bod yn gobeithio am y gorau fel cerddwyr? Bydd angen rhoi mesurau gostegu cyflymder ar waith o leiaf. Os bydd damwain gas, pwy fydd yn atebol gan nad yw beicwyr wedi'u hyswirio. Mae'n anghyfreithlon beicio ar balmant; pam mae hyn yn wahanol?* |
| *Diolch am esbonio'r cynlluniau yn y digwyddiad ymgysylltu. Gwych gweld bod gwelliannau'n cael eu cynllunio a fydd yn annog mwy o gerdded a llai o geir.* |

| |
|---|
| *Mae angen ailddylunio'r Ynys Werdd yn Poplars Ave a Chilgant Cimla am fod y cynllun arfaethedig yn ddiangen* |
| *Gatiau Coffa – mae angen ateb gwell heb os nac oni bai. Mae cynnig presennol y cynllun yn beryglus gyda Beicwyr yn mynd yn gyflym* |
| *Ddim yn hapus â'r Croesfannau, y newidiadau arfaethedig i'r Ynys ger Poplars na'r newidiadau arfaethedig wrth y gât goffa.* |
| *Dim ond 2 opsiwn ar gyfer gwelliannau yng Nghilgant Cimla rydych chi wedi'u cynnig, heb opsiwn i anghytuno â'r cynlluniau. Nid yw'r cynlluniau presennol wedi ystyried y llwybrau beicio neu gerdded gwirioneddol sydd ar gael ar hyn o bryd a byddant yn arwain at gostau sylweddol heb ddim budd.* |
| *Gwastraff arian; dylid ei adael fel y mae. Bydd yn mynd yn llai diogel os caiff hyn ei roi ar waith.* |
| *Dylai'r trigolion benderfynu ar fwy o opsiynau ar gyfer y Gatiau Coffa.* |
| *Nid wyf yn cytuno â'r cynnig ar y triongl glaswellt. Symudwch y bin cŵn. Meddyliwch am wneud tro i'r chwith yn unig wrth ddod i lawr y cilgant i mewn i Poplars Avenue.* |
| *C6. MAE'R RHAN FWYAF O BOBL YN AROS O FEWN Y TERFYNAU CYFLYMDER. MAE LLWYFANNAU'N WASTRAFF ARIAN – C7 YN BWYSICAF OLL DYLAI'R PALMENTYDD GAEL EU HATGYWEIRIO YN GYNTAF AC YNA EFALLAI LINELLAU MELYN DWBL AR Y FFORDD ER MWYN LLEIHAU PROBLEMAU PARCIO – C8. MAE'N YMDDANGOS BOD Y PLANT YN Y RHODFEYDD YN FODLON AR Y TREFNIANT PRESENNOL* |
| *MYNEDIAD I FY NREIF. DIM ANGEN NEWID DIM BYD; GWASTRAFF ARIAN CYHOEDDUS* |
| *Bydd y cynnig yn annog mwy o gerdded a beicio; bydd hi'n haws teithio o gwmpas yr ardal* |
| *Bydd y cynnig yn annog mwy o gerdded a beicio; bydd hi'n haws teithio o gwmpas yr ardal – rwy'n pryderu y bydd y lôn sy'n arwain i lawr o'r cilgant i mewn i'r Gnoll yn annog beiciau modur. Nid wyf yn gallu gweld sut y caiff yr ymdeimlad o gymuned leol ei wella. Ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud, pa opsiwn bynnag a gaiff ei ddewis, rydym yn debygol o weld mwy o wardeiniaid traffig yn rhoi tocynnau i bobl am barcio y tu allan i'w tai na beicwyr!!!* |
| *Ddim yn hapus os bydd yr hybiau hyn yn gallu effeithio ar y llwybr bysiau. Gwastraff arian llwyr.* |
| *GWASTRAFF ARIAN – GWASTRAFF ARIAN LLWYR NAD YW TRIGOLION LLEOL YN EI GEFNOGI – BYDD CILGANT CIMLA YN DUEDDOL O FOD FEL AFON PAN FYDD HI'N BWRW GLAW. BYDD DŴR YN CRONNI AR Y LLWYFANNAU UWCH AC YN GOLLWNG I MEWN I DAI TRIGOLION* |
| *C5 – NI FYDD YR AMGYLCHEDD CYFFREDINOL YN CAEL EI WELLA. NI FYDD YR YMDEIMLAD O GYMUNED LEOL YN CAEL EI WELLA. BYDD YR ARDAL YN LLAI ATYNIADOL* |
| *Nid wyf yn gweld y rheswm dros lwyfannau uwch. Bydd cyrbiau isel yn galluogi defnyddwyr cadeiriau olwyn* |
| *GWALLGOFRWYDD LLWYR* |
| *C5. Ni fydd yr amgylchedd cyffredinol yn cael ei wella. ni fydd yr ymdeimlad o gymuned leol yn cael ei wella. - C9. Mae gennym wyrion ac wyresau bach ac felly byddwn yn defnyddio'r lôn sy'n arwain at y pwll dŵr gryn dipyn. Yn ddiweddar, bu bron i feic modur daro fy wyres i lawr yn y lôn. Mae'r beiciau hyn yn defnyddio'r lôn gryn dipyn ar gyflymder. A fydd y lôn letach newydd yn denu mwy o feiciau modur, gan achosi mwy o aflonyddwch sŵn a risg uwch o daro cerddwr. Mae hyn yn fy mhoeni'n fawr.* |
| *C3. Rhaid i chi sylweddoli nad yw pob beiciwr yn ofalus – C9. Nid yw'r gyffordd rhwng Poplars a Chilgant Cimla yn dderbyniol yn ei chysyniad presennol; nid wyf yn dymuno cael toiled arall i gŵn y tu allan i fy nghartref; adolygwch y cynllun; ymgynghorwch â ni cyn creu cynllun arall* |
| *C5. Ni fydd yr ardal yn cael ei gwneud yn fwy diogel i'r holl ddefnyddwyr. Bydd y cynnig yn anghymell cerdded a beicio a bydd hi'n anos teithio o gwmpas yr ardal. - C7. (Yn Gyfforddus i Ryw Raddau) Ond bydd hyn yn newid yn sgil defnydd deuol. Troadau peryglus ar y lôn o Gilgant Cimla wrth Feicio yn enwedig Mopeds yn peri risg i gerddwyr* |
| *Mae'r llwybrau troed yn beryglus yn barod. Nid yw pobl byth yn glynu wrth yr is-ddeddf bresennol. Mae llwybrau cyd-ddefnyddio yn beryglus – C5. Nid yw'r ardal wedi cael ei gwneud yn ddiogel. Anghymell cerdded a beicio a'i gwneud hi'n anos mynd o le i le. C6. Y naill na'r llall ond mae opsiwn 2 yn well. Sut mae ôl-osod marciau ar gyffyrdd sydd eisoes yn bodoli yn mynd i'n helpu ni. C7. Perygl ar y lôn wrth ymadael â Chilgant Cimla; Troadau Tynn gyda mopeds yn mynd ar gyflymder; Mainc wedi'i lleoli ar dro tynn. C9. Mae angen i chi blismona'r ardal o ran mopeds ac ati; bechgyn yn dod i lawr Cilgant Cimla, un ar feic a'r llall ar y cyrn ar gyflymder; eraill heb ddwylo.* |
| *Dylid symud y bin cŵn o'r ynys ger Poplars am ei fod yn berygl ac yn peri risg i bobl sy'n croesi'r ffordd i'w ddefnyddio* |

| |
|---|
| *Symudwch y bin cŵn, gadewch lonydd i'r ynys ger Poplars, ac ailystyriwch y syniad o adael y gatiau coffa ar agor* |
| *A minnau'n un o drigolion Cilgant Cimla, byddai'n dda cael wyneb newydd ar y palmentydd gan fy mod yn cerdded ar y ffordd er mwyn cerdded ar dir gwastad ar hyn o bryd. Byddai'n well gen i gadw'r ynys laswellt yn Poplars a pheidio â'i thorri'n ei hanner ond byddai cau'r ochr uchaf a chael gwared ar yr effaith slipffordd o'r ochr isaf yn ei gwneud yn llawer mwy diogel.* |
| *Mae opsiwn 2 ar y rhan o Gilgant Cimla gyda llwyfan wrth geg y gyffordd ac ailddylunio cyffordd Poplars yn ymddangos yn ddull rhesymol, cyn belled â bod modd draenio'r llwyfan/llinell y cwrb. Byddai'r ailddylunio'n helpu gyrwyr i aros wrth y cyffyrdd er mwyn sicrhau ei bod yn glir iddynt fynd i mewn i Gilgant Cimla. Nid wyf yn cytuno â'r awgrym i agor y Gatiau Coffa am ei fod yn amharchus o'r safle. Bydd hefyd yn annog beicwyr sy'n mynd i lawr y rhiw i wibio drwy'r porth i mewn i'r ardal arsylwi a thu hwnt. Mae'n bosibl parhau i ddefnyddio'r gatiau ochr 99% o'r amser a Gosod clo RADAR ar y brif gât ar gyfer yr 1% o sgwteri symudedd y mae angen iddynt gael yr 100mm ychwanegol sy'n brin yn y gatiau ochr? O ran cyffordd Heol Cwm Afan /Bwlch Rd, rwy'n credu y bydd y goleuadau traffig yn achosi tagfeydd; a yw'r opsiwn (os yw'n ymarferol) o osod llwyfan mwy serth gyda stribedi gwneud sŵn trwm i arafu cerbydau er mwyn mynd o amgylch y gylchfan?!* |
| *Ddim yn hoffi'r newidiadau diangen i gyffordd Cilgant Cimla /Poplars. Roedd pobl yn siarad am fersiwn arall a all fod yn fwy addas.* |
| *Mae'r palmentydd mewn cyflwr ofnadwy ac nid yw'n ddiogel cerdded arnynt* |
| *Mae'r gerddi coffa wedi'u bwriadu i gynnig lle tawel i fyfyrio ac ni ddylid caniatáu beicio drwyddynt. Dylai'r rheolau fod yr un fath ag ar gyfer gemau pêl ac ati* |
| *Dylai'r ardal drwy'r gerddi coffa gael ei pharchu am beth ydyw. Mae'n ardal ddymunol i gerdded drwyddi gyda phlant a chŵn ar denynnau; nid yw'n addas ychwanegu beicwyr at hyn* |
| *Gadewch y gerddi a'r gatiau coffa fel y maent.* |
| *Mae'r gatiau coffa yn ardal brydferth ac uchel ei pharch yng Nghastell-nedd. Peidiwch ag ymestyn y dirywiad mewn safonau yng nghanol tref Castell-nedd i un o'r ychydig ardaloedd sy'n weddill rydym yn dal yn falch ohonynt.* |
| *Rwy'n anfodlon ar y cynnig i agor y brif gât goffa. Ar hyn o bryd, bydd beicwyr yn arafu i fynd i mewn i'r ardal hon drwy un o'r ddwy gât lai sy'n cynnig mynediad mwy diogel i feicwyr a cherddwyr. Gallai agor y gât fawr annog beicwyr i wibio i lawr y rhiw.* |
| *Rwy'n pryderu y bydd cyflwyno goleuadau traffig ar Bwlch Road yn ychwanegu at y tagfeydd a wynebir yn yr ardal ar hyn o bryd. A oes opsiwn arall yn lle hyn y gellid ei ystyried, fel llwyfan uwch a fyddai'n gorfodi'r holl draffig i arafu ond parhau i symud. O ran y cynnig presennol, nid oes llwybr yn y cynlluniau (opsiwn B) i alluogi defnyddwyr i groesi'r ffordd yng Nghilgant Cimla er mwyn cyrraedd y fynedfa i'r Gnoll. Bydd angen rhyw fath o groesfan i sicrhau y gall defnyddwyr groesi'r llwybr arfaethedig yn ddiogel er mwyn parhau â'r llwybr.* |
| *A minnau'n drigolyn oedrannus, rwy'n dibynnu ar fy nghar a gallu parcio'n ddiogel y tu allan i fy nhŷ. gall opsiwn 1 a 2 ar gyffordd Cilgant Cimla/Poplars o dan yr atebion arfaethedig effeithio ar hyn.* |
| *Nid yw opsiwn B yn cynnig llwybr cyflawn am nad oes llwybr o fewn y cynllun i groesi o un ochr i Gilgant Cimla i'r llall er mwyn mynd ar y llwybr i lawr drwy'r Gnoll. Byddai angen ymgorffori croesfan er mwyn galluogi'r cynnig hwn. Rwyf hefyd yn pryderu ynglŷn â chyflwyno goleuadau ar y llwybr rhwng y gatiau Coffa a Chilgant Cimla. Mae hon yn ardal ynysig a allai ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol os caiff goleuadau eu cyflwyno.* |
| *Bydd goleuadau traffig ar Bwlch Road yn ychwanegu at y tagfeydd sydd eisoes ar Riw Cimla. Ar adegau prysur, bydd y traffig yn aml yn stopio'n stond. A oes opsiwn arall fel llwyfan.* |
| *Mae'r palmentydd mewn cyflwr gwael gyda llawer o beryglon* |
| *Rwy'n gwerthfawrogi bod hyn yn rhan o strategaeth fwy ond nid wyf yn siŵr bod angen gwneud newidiadau mor sylweddol yng Nghilgant Cimla. Os rhywbeth, opsiwn 2 wedi'i ddiwygio, ond nid opsiwn 1.* |
| *Mae'r palmentydd mewn cyflwr gwael* |
| *O blaid llwybrau hygyrch ond mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r opsiynau ar gyfer Cilgant Cimla.* |
| *Dywedwyd wrthyf fod CNPT wedi cynnal ymgyrch bostio ynglŷn â'r cynnig hwn. Nid wyf fi na'r un o'r cymdogion rwyf wedi siarad â nhw wedi cael gwybodaeth o'r fath.* |
| *rwy'n ateb C3 o blaid am fy mod yn cefnogi'r egwyddor. Nid y dyluniad presennol.* |
| *Bydd agor y gatiau coffa yn amharchus o'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Bydd goleuadau traffig yn achosi tagfeydd ar Heol Cimla ac yn atal ceir rhag dod allan ym mhen uchaf Cilgant Cimla.* |

| |
|---|
| *Er fy mod wedi dweud ei bod yn well gen i opsiwn 2 ar gyfer Cilgant Cimla, nid wyf yn cefnogi'r opsiwn ar ei ffurf bresennol. Rwyf hefyd yn pryderu am oleuadau ger yr orsaf dân; yn ddi-os, bydd hyn yn ychwanegu at y tagfeydd presennol ar Heol Cimla ac, unwaith eto, gellid ystyried opsiwn arall. rwyf wedi dweud* |
| *C5. mae opsiwn 1 ar gyfer Cilgant Cimla yn annerbyniol, yn wastraff arian ac yn rhy ymwthiol heb ddim cyfiawnhad.* |
| *Rwy'n parchu'r ffaith y dylai llwybr hygyrch gael ei ddarparu, ond nid wyf yn siŵr bod sylfaen dystiolaeth gadarn dros hyd a lled y cynigion hyn. Gobeithio y bydd yr ymgynghoriad hwn yn darparu tystiolaeth i lywio'r camau nesaf. Mae'r cynigion yn mynd y tu hwnt i'r angen ac maent yn eithafol.* |
| *Caf ar ddeall y bydd cylchfan wrth ymyl yr Orsaf Dân/Bwlch Road – bydd hyn yn ychwanegu tagfeydd ar Heol Cimla; anfonwch y traffig drwy lwybrau eraill. Rwyf hefyd yn credu bod agor y Gatiau Coffa yn ddi-chwaeth; mae hon yn gofeb gysegredig ac ni ddylai gael ei thrin â'r fath ddirmyg.* |
| *Mae angen ailystyried opsiwn 2, a chynnwys y bobl yr effeithir arnynt yn y trafodaethau. Mae opsiwn 1 yn amhosibl.* |
| *cefnogi'r angen mewn egwyddor ond byddai'n ddefnyddiol gweld y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr angen.* |
| *Pe bai opsiwn 1 yn cael ei gyflwyno, byddwn yn gwyro i ddefnyddio Heol Cimla yn hytrach na Chilgant Cimla, gan ychwanegu at y tagfeydd sydd eisoes yno.* |
| *Rwyf wedi dweud ei bod yn well gen i opsiwn B ond dim ond os caiff ei ddiwygio.* |
| *A minnau'n feiciwr, nid wyf yn defnyddio'r llwybr drwy'r Gnoll ac ni fyddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol. Mae'n fwy diogel ac yn gyflymach mynd i lawr Heol Cimla.* |
| *Dywedais ei bod yn well gen i opsiwn B ond dim ond os caiff y cynllun presennol ei ddiwygio.* |
| *Ni ddylai fod goleuadau traffig ar fân gylchfan Bwlch Rd a Heol Cwm Afan, ond dylid ychwanegu mesurau gostegu traffig i arafu cerbydau sy'n defnyddio'r gyffordd* |
| *Mae angen atgyweirio'r palmentydd* |
| *Na i oleuadau traffig ar gylchfan Bwlch Rd* |
| *Drwy agor y gatiau coffa a gatiau'r porthdy byddwch yn caniatáu i feicwyr deithio ar gyflymderau heb eu rheoleiddio yn yr ardaloedd hyn a byddwch yn cynyddu'r tebygolrwydd o wrthdrawiadau â phobl anabl a phlant sy'n cerdded neu mewn pramiau; mae angen rheoleiddio beicwyr neu byddant yn mynd mor gyflym ag y gallant; nid oes ond angen i chi edrych ar rai ohonynt ar briffyrdd cyhoeddus ar hyn o bryd; rwy'n credu bod y mwyafrif helaeth o feicwyr yn feicwyr diogel ond ceir ambell un nad yw'n ofalus* |
| *Rydyn ni'n ffafrio Opsiwn2. Byddai rhoi Opsiwn 1 ar waith yn achosi problemau i ni. Byddai'n golygu ein bod yn bagio allan o'n dreif, drwy ddau biler gât mawr, i ben llwyfan uwch ar y ffordd, sydd wedi'i leoli yng nghanol cyffordd T ag Alder Road. Rwy'n tybio na fyddai gennym hawl i barcio y tu allan i'n tŷ, gan y bydd y llwyfan yn mynd yr holl ffordd ar hyd blaen ein tŷ ac yn ymestyn o flaen tai ein cymdogion y naill ochr i ni. Hefyd, ni fyddem yn gallu derbyn nwyddau, gan gynnwys nwyddau groser, cynhyrchion gardd neu eitemau sy'n gysylltiedig â masnachwyr lleol y gall fod eu hangen o bryd i'w gilydd. byddai'n amhosibl i ni oresgyn anawsterau o ran cael mynediad rhwydd i'n heiddo. O ran y llwyfannau uwch arfaethedig yn y ffordd, nid ydynt yn atal llawer o yrwyr a beicwyr rhag mynd yn rhy gyflym.* |
| *Gan fy mod yn byw uwchben lleoliad y goleuadau arfaethedig, rydym wedi cael problemau wrth y pwll isaf o'r blaen gydag ymddygiad annymunol gyda'r nos* |
| *Rwy'n teimlo'n gyfforddus dros ben yn cerdded i'r ysgol i nôl fy wyrion a'm hwyresau. Rwyf hefyd yn eu haddysgu pryd mae'n ddiogel croesi ffordd* |
| *Peidiwch â pheryglu'r gatiau a'r gerddi coffa. Fel y mae'r enw'n ei awgrymu, maent yn bodoli i anrhydeddu'r rhai a fu farw yn y ddau ryfel byd a phob rhyfel ers hynny. Yr ardal hon yw'r gofeb gymunedol ar gyfer tref Castell-nedd i gyd. Senotaff ein tref ydyw i bob pwrpas. A fyddem wir yn ystyried peryglu beddi aelodau o'n teuluoedd ein hunain? Y gatiau a'r gerddi coffa hyn yw'r hyn sy'n cyfateb i hynny i'n tref ni. Gadewch lonydd iddynt.* |
| *Nid wyf yn credu bod angen newid y gyffordd yn Poplar a Chilgant Cimla* |
| *Mae'r palmentydd mewn cyflwr gwael* |
| *Peidiwch â cheisio gwella'r sefyllfa. Mae'n gweithio'n iawn. A oes asesiad effaith wedi cael ei gynnal ar yr effaith ar yr ardal leol pan gaiff y newidiadau eu gwneud a'r lefelau sŵn a'r effaith ar y gymuned a'r tagfeydd a gaiff eu hachosi gan y gwaith ffordd y bydd ei angen? Mae hyn yn hanfodol.* |
| *Rwy'n beicio o Gimla i Afan Argoed ar hyn o bryd. Cilgant Cimla yw'r rhan fwyaf diogel ar hyn o bryd. Pam ei newid? Os ydych chi'n ceisio annog plant i feicio i'r ysgol, noder y dylid ystyried y ffaith y bydd plant yn ei chael* |

| |
|---|
| *hi'n anodd beicio i fyny Cilgant Cimla a Rhiw Cimla ac y bydd yn beryglus dros ben iddynt wibio i lawr y rhiw ar y ffordd yn ôl. Roeddwn i'n cerdded i'r ysgol gynradd a'r ysgol gyfun. Nid oeddwn yn gallu beicio gan na fyddwn i wedi gallu cario fy ngwarbac o lyfrau, cit addysg gorfforol ac eitemau coginio. Hefyd, nid oes lle i helmedau a dim ond hyn a hyn o le sydd i feiciau yn yr ysgol. Bydd plant yn beicio heb helmedau gan na fyddant am wneud eu gwallt yn flêr a bydd pwysau gan gymheiriaid yn golygu na fyddant yn defnyddio helmedau. NI fydd hyn yn helpu'r plant. Os byddant yn cynnwys twmpathau cyflymder, yna bydd plant ifanc yn eu defnyddio i wibio i lawr y rhiw am hwyl. MWY PERYGLUS. Hefyd, mae twmpathau cyflymder i'w cael yn Beechwood, London Road a rhannau eraill o Gastell-nedd. Mae tyllau yn y ffyrdd ac maent yn fwy peryglus. Nid oes pecyn ar gyfer cynnal a chadw. Peryglus dros ben.* |
| *Rwyf wedi edrych ar y cynlluniau. Mae'n anodd gweld sut y bydd hyn yn gweithio. Yn yr ardal ar gyfer beicio/cerdded, a fydd beiciau'n mynd i fyny ac i lawr yr un rhan o'r ffordd? Bydd hyn yn anniogel os bydd beicwyr cyflym a beicwyr arafach. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud â'r mân gylchfannau ger yr Orsaf Dân ac ar Dir Comin Cimla? Nid ydynt erioed wedi gweithio. Dewch â chyffordd yn ôl. Ni fydd goleuadau'n gweithio yno oherwydd bydd oedi difrifol yn ystod cyfnodau cymudo ac amseroedd ysgol. Mae opsiwn i yrru drwy'r ardal goffa yng ngwaelod y Gnoll; Mae yno arwydd dim peli na beiciau gan mai ardal dawel i fyfyrio a chofio'r bobl a fu farw mewn rhyfeloedd yw hon. Pan gafodd placiau eu tynnu i lawr gan fandaliaid, cafodd hyn sylw yn y papurau tabloid Prydeinig. Mae hyn yn annerbyniol ac yn amharchus o'r rhai a fu farw yn y rhyfeloedd a'u teuluoedd.* |
| *Ddim yn hoffi'r cynnig ar gyfer y gât Goffa.* |
| *C9. Dim digon o le yma o bell ffordd.<br>C6. BYDDAI'N WELL GEN I OPSIWN 3. BLE MAE'R OPSIWN I WRTHOD POPETH<br>C7. NID AMSTERDAM YW HWN!<br>C3. GWRTHWYNEBU MOR GRYF Â PHOSIBL; GWASTRAFF ARIAN LLWYR; DIANGEN.* |
| *Nid oes cyfiawnhad i'r cynnig hwn o ran trigolion y gymuned leol nac o ran denu defnydd pellach gan ymwelwyr. Mae'r rhan o'r llwybr o Rodfa'r Gnoll drwodd i ben uchaf Cilgant Cimla wedi cael ei defnyddio gan bob math o ddulliau Teithio "Gwyrdd" wedi'u cymysgu â Chludiant Modur ers degawdau lawer mewn cytgord perffaith heb unrhyw ddigwyddiadau o gwbl!! Y llwybr drwy Rodfa'r Gnoll, y Gatiau Coffa, Pwll Isaf y Gnoll ac i fyny drwy Gilgant Cimla yw'r ardaloedd mwyaf tawel, hardd a diogel yng Nghastell-nedd; nid oes angen i'r dyluniadau hurt hyn sydd heb gael eu hystyried yn ofalus wthio eu ffordd drwodd gan ddinistrio'r estheteg hyfryd a'r ymdeimlad o gymuned yn yr ardal o gwbl. Rwy'n teimlo'n rhy gryf yn erbyn hyn i allu mynegi fy ngwrthwynebiad llawn mewn geiriau. Mae'n amlwg mai ymarfer TICIO BLYCHAU er mwyn cael cyllid yw hwn, heb ddim ystyriaeth i'r effaith a gaiff ar drigolion na golwg yr ardal o gwbl. Hefyd, mae'n wallgof meddwl y bydd hyn yn gwella awydd unrhyw un i feicio neu gerdded i fyny'r rhiw serthaf yng Nghastell-nedd.... Rwyf wedi fy siomi gymaint yn CNPT* |
| *Rwy'n anghytuno'n gryf â'r cynnig hwn* |
| *Nid wyf yn credu bod angen unrhyw beth ar Gilgant Cimla mewn gwirionedd, mae'n ffordd anhygoel o dawel ac ychydig iawn o feicwyr sydd, ac mae'n annhebygol iawn y byddant yn defnyddio'r lôn pan fo ar gael ar heol cimla.* |
| *Byddai croesfannau isel yn fuddiol oddi ar y prif lwybr arfaethedig gan alluogi trigolion â sgwteri symudedd a choetshis cadair o Barc Nightingale. Dylai'r gyffordd rhwng Poplars Avenue a Chilgant Cimla gael ei hadolygu er mwyn ystyried tro i'r chwith yn unig i mewn i Poplars Avenue wrth deithio i lawr y rhiw ar y cilgant gan addasu'r gyffordd o Poplars i mewn i'r cilgant ar gyfer y traffig sy'n troi i'r dde i fyny'r rhiw er mwyn ei gwneud hi'n haws i yrwyr fanwfro a gwneud y drefn ffyrdd yn fwy diogel yn gyffredinol.* |
| *A minnau'n ddefnyddiwr cadair olwyn, mae fy mhrofiad o ddefnyddio llwybrau cyd-ddefnyddio wedi bod yn wael sawl gwaith ac rwyf wedi bod mewn perygl yn sgil anystyriaeth defnyddwyr eraill, yn enwedig beicwyr.* |
| *C3. Gwastraff Amser ac Arian. C9. Nid Oes Digon o Le o Bell Ffordd. C11-16, BETH SYDD A WNELO'R RHAIN Â'R CYNLLUN TEITHIO LLESOL. RWY'N SIŴR BOD RHAI O'R CWESTIYNAU'N ANGHYFREITHLON, YN BENDANT YN HILIOL, YN WAHANIAETHOL AC YN FOESOL ANGHYWIR* |
| *Yn gyntaf, hoffwn ddweud nad wyf yn erbyn y Cynlluniau mewn egwyddor ond rwy'n teimlo, yn enwedig ar y gyffordd rhwng Poplars Avenue a Chilgant Cimla, lle rwy'n byw, fod rhai o'r cynigion yn ddiangen a/neu'n eithafol. Hefyd rwyf wedi byw yn **, Poplars Avenue, ers dros 40 mlynedd a, diolch i'r drefn, nid wyf erioed wedi gweld na chlywed am ddamwain traffig gerllaw, yn ystod y cyfnod hwnnw, felly nid wyf yn credu y gallech ystyried bod y gyffordd yn beryglus! Bydd y gwaith arfaethedig i'r gyffordd rhwng Cilgant Cimla a Poplars Avenue yn cael effaith sylweddol ac andwyol arnaf fi ac ar gymdogion. Bydd y gwaith yn golygu gwaith* |


| |
|---|
| *peirianneg eithaf sylweddol y byddwch yn ymwybodol ohono yn ddi-os. Yn gyntaf, adeiladu'r trefniant cyffyrdd newydd, cael gwared ar y briffordd bresennol i ffurfio mannau glaswelltog newydd, cysylltiadau draeniau newydd, adleoli'r 'polyn telegraff' a godwyd yn ddiweddar y bydd y drefn ffyrdd newydd yn effeithio arno ac ati, ac wythnosau o darfu yn ystod y broses. A yw hyn yn angenrheidiol ac yn cynnig gwerth teg am arian at ddiben y cynllun teithio? Pam na wnewch chi osod llwyfannau uwch fel sydd mewn mannau eraill, gyda llinellau cwrb wedi'u haddasu ar gyffyrdd os bydd angen? Ni all gweleded fod yn broblem, 'does bosibl, o gymharu â chyffyrdd eraill fel Rhodfa'r Ddraenen Wen, sydd â llinellau gweld llawer mwy cyfyngedig. Mae'r cynnig hwn yn gwneud mynediad i fy eiddo i a'm cymdogion yn llawer mwy anghyfleus, a pheryglus yn fy achos i, wrth yrru i mewn / allan yn ardal y gyffordd. Nid oes effaith uniongyrchol ar Poplars Avenue fel rhan o'r cynllun, ond mae'r gwaith a gynigir ar gyfer y gyffordd hon yn anghymesur at ddiben y cynllun. Hoffwn ofyn gyda pharch am i drefniant cyfan y gyffordd gael ei ailystyried yng ngoleuni fy sylwadau uchod. Nodaf fod Adran 7 o'r cynllun yn cynnig goleuadau lefel isel o'r pwll isaf am bellter byr tuag at y gatiau coffa. Fodd bynnag, hoffwn awgrymu y byddai'r angen am oleuadau yn llawer mwy yr holl ffordd o'r pwll isaf i fyny at Gilgant Cimla, ar Adran 6. Yn anffodus, er y croesewir rhinweddau'r cynnig hwn, mae problem fandaliaeth yn bwrw amheuaeth ar ei ymarferoldeb. Yn olaf, y llwyfan uwch ar Gyffordd Rhodfa'r Gnoll/Cedar Road yn Adran 8. Mae hon yn gyffordd letchwith dros ben am fod Rhodfa'r Gnoll mor gul ac am na ellir troi'n gyflym yno. Felly, a oes angen llwyfan uwch yn y lleoliad hwn ac oni fyddai cyrbiau isel yn well?* |
| *Roeddwn yn bresennol yn y cyfarfod ddoe ynglŷn â'r gwelliannau arfaethedig i lwybrau beicio o amgylch Cimla. Er i mi fynegi fy marn yno, hoffwn eu cadarnhau'n ysgrifenedig. Os caiff y cynigion eu rhoi ar waith o gwbl (a byddai'n well gen i pe na bai dim byd yn cael ei wneud oherwydd y costau sydd ynghlwm) byddwn yn dymuno i Opsiwn 2 gael ei fabwysiadu. Dim ond yr ardal lle rwy'n byw, sef Cilgant Cimla, sydd o bwys i mi ac, o ran y cynigion hynny, mae angen i chi ailystyried beth fydd yn digwydd ym mhen draw Poplars Avenue. Byddai cael gwared ar y triongl yn wastraff amser ac arian llwyr ac yn difetha man gwyrdd atyniadol. Gallech ad-drefnu'r gyffordd rywsut i gael traffig unffordd ar y ffordd i mewn/allan ac ymlaen i'r Cilgant o amgylch ochrau'r triongl.* |
| *Gwrthwynebiad i'r cynnig teithio llesol arfaethedig. Rwy'n byw yng Nghilgant Cimla yng Nghastell-nedd, Yn agos at y man lle mae allanfa arfaethedig y llwybr beicio o Barc Gwledig y Gnoll yn ymuno â Chilgant Cimla. Nid wyf yn anghytuno y gall darparu llwybrau beicio annog pobl o bob oed i fynd allan i'r awyr agored, a chynnig cyfleoedd i wella iechyd a lleihau allyriadau carbon. Fodd bynnag, mae ffurfioli'r llwybr arfaethedig o Gastell-nedd i dir comin Cimla fel llwybr cerdded/beicio dynodedig hefyd yn achosi perygl. Mae cyfuno cerddwyr, beiciau a cheir yn sicr o greu llanast. Mae'r ffordd allan o Barc Gwledig y Gnoll i mewn i Gilgant Cimla yn dod â cherbydau y mae angen iddynt deithio ar 20 milltir yr awr, cerddwyr ar droed, gyda chŵn yn aml iawn, rhieni, bygis, a phlant bach;  a beicwyr, gan gynnwys rhai ar feiciau trydan cyflym dros ben a beiciau modur o bryd i'w gilydd, at ei gilydd yn yr un lle. I gyd yn cymryd tro 90 gradd anodd i'r chwith neu'r dde yn y fynedfa a'r allanfa i Gilgant Cimla, a gaiff ei wneud yn anos, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd hi'n mynd ychydig yn dywyllach. Pe bai mesurau gostegu traffig fel twmpathau cyflymder a chilfachau parcio yn cael eu gosod ar Gilgant Cimla, byddai'r rhain yn gwaethygu'r broblem, a hefyd yn achosi difrod i gerbydau, o ran hongiad a theiars. Gallai cerbydau gwasanaethau cyhoeddus fel bysiau a Lorïau sbwriel gael eu difrodi hefyd. Byddai'r sŵn cysylltiedig yn annerbyniol ac, yn anad dim, byddai aer o ansawdd gwaeth yn cael ei gynhyrchu, yn hytrach na'i leihau.  O fynedfa'r ffordd ochr (Heol Cimla) tuag at y prif lwybr troed/y brif ffordd drwy'r parc, gan arwain tuag at y rhiw i fyny at Gilgant Cimla, mae gyli/sianel ddraenio beryglus. Mae hyn yn destun anhawster cyson i geir sy'n mynd heibio i'w gilydd. Nid oes llawer o le i hyn ddigwydd beth bynnag, heb y perygl ychwanegol a achosir gan nifer mwy o feicwyr yn cystadlu ag oedolion, plant bach, bygis, a chŵn. Unwaith eto, caiff hyn ei waethygu gan y mesurau gostegu traffig presennol y mae cerbydau a beicwyr yn ceisio eu hosgoi. Unwaith eto, bydd hyn yn ychwanegu at ansawdd aer gwaeth, nid yn unig i gerddwyr a phlant, ond hefyd i'r beicwyr eu hunain.   Gwnaeth cynllun blaenorol gan y Cyngor i lenwi'r Pwll Cyntaf fethu am fod rhaid i'r ffordd o fynedfa Heol Cimla at yr anheddau yn y parc aros ar agor drwy'r amser er mwyn i gerbydau'r Cyngor, peiriannau fferm a cherbydau argyfwng ei defnyddio; unwaith eto, perygl pan fydd pob un ohonynt yn yr un lle.  Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn ystyried o ddifrif fy ymateb i'r newid defnydd arfaethedig ar gyfer llwybr troed Parc Gwledig y Gnoll a'r problemau a'r peryglon cysylltiedig. A minnau'n un o drigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gofynnaf am gyfle i asesu'r cynllun Teithio Llesol yn fanwl a thrafod y mater hwn mewn fforwm cyhoeddus cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud a allai effeithio ar fy niogelwch i a fy nheulu, ynghyd â'n hiechyd.* |
| *Y gerddi coffa yw'r man lle y cofiwn bobl a fu farw yn y rhyfel byd 1af a'r 2il ryfel byd. Mae llwybr beicio drwy'r canol yn dangos diffyg parch llwyr. Bydd newid yr isod yn arwain at oblygiadau i iechyd a diogelwch a llesiant y* |


| |
|---|
| *cyhoedd. Mae gen i hefyd bryderon ynglŷn â damwain ddifrifol yn sgil dod â beicwyr a'r cyhoedd benben â'i gilydd. Mae nifer yr ymwelwyr yn y gerddi coffa eisoes yn sylweddol, gan gynnwys coetshis cadair, pramiau, plant bach, rhieni, neiniau a theidiau, pobl sy'n mynd â chŵn am dro a bydd llwybr beicio'n cynyddu hyn. Cynigir y bydd y llwybr beicio'n mynd drwy'r prif gatiau a fydd yn cael eu gadael ar agor gyda bolardiau. Bydd hyn yn newid golwg y gerddi coffa. Hoffwn dynnu sylw at y ffaith nad wyf erioed wedi gweld llwybr beicio'n mynd drwy ardd goffa o'r blaen, ac rwy'n teithio o gwmpas y DU gryn dipyn. Mae gan Rodfa'r Gnoll fynedfa gul lle y bydd trigolion yn gyrru eu ceir i mewn ac allan; bydd llwybr beidio'n ychwanegu at hyn ac, unwaith eto, mae diogelwch yn broblem. Onid lle heddychlon a thawel i gofio'r rhai a fu farw lle y gwaherddir beicio yw cofeb ryfel. Mae'n ymddangos bod sensitifrwydd y gerddi coffa wedi cael ei anwybyddu'n llwyr yn y cynlluniau arfaethedig i roi llwybr beicio yno. Natur hanesyddol yr is-ddeddf yw gwarchod sensitifrwydd y safle. Sut mae'r cyngor yn bwriadu rheoli gwasanaeth Dydd y Cofio wrth y gatiau coffa os byddant ar agor i feicwyr. Os bydd y llwybr beicio'n mynd rhagddo, bydd hynny'n ymyrryd â'r tir yn y gerddi coffa gan atal mwynhad a defnydd o'r tir hwn fel y mae ar hyn o bryd. Beth os bydd y Dragon Ride yn mynd drwy'r gerddi, gan ganiatáu i gannoedd o feicwyr fynd drwodd. Pryder ynglŷn â chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol y rhoddwyd gwybod amdano yn y gorffennol. Cynnydd mewn e-sgwteri, e-feiciau, beiciau oddi ar y ffordd a hyd yn oed geir i fyny at y gerddi coffa.* |
| *Ar ôl i'r cyllid gael ei sicrhau. Holi pobl am eu meddyliau bryd hynny. Ydych chi wedi cerdded i lawr o'r fynedfa yng Nghilgant Cimla i'r Gnoll; nid yw beicwyr yn ystyried cerddwyr sy'n cerdded i fyny, yn enwedig ar y gornel lle mae'r newidydd.* |
| *Mae beicwyr yn berygl i gerddwyr. Mae'r syniad o agor y gatiau coffa yn mynd yn groes i bob egwyddor o barch. Castell-nedd fyddai'r unig dref yn y DU i halogi'r cof am y rhai a fu farw dros eu gwlad. A minnau'n rhywun sy'n cerdded yn yr ardal hon yn rheolaidd, mae arnaf ofn am fy niogelwch gan y byddai beicwyr yn mynd yn gyflymach heb rwystr; nid yw'r cynnig hwn wedi cael ei ystyried yn ddigon gofalus a dylid rhoi'r gorau iddo.* |
| *Ni ddylai'r gatiau coffa fod ar agor i feicwyr fynd drwyddynt am eu bod wedi'u cysegru er cof am y rhai a fu farw yn y ddau ryfel byd. Caiff y llwybr hwn ei ddefnyddio gan blant ysgol ac ni fyddai'n ddiogel pe bai beicwyr ychwanegol arno.* |
| *O ble mae'r arian yn dod?? Gwastraff!* |
| *dim gwastraffu arian; gadewch bethau fel y maent* |
| *Ysgrifennaf atoch fel athro wedi ymddeol a oedd yn gyfrifol am gydlynu Achrediad y Faner Werdd Eco-Sgolion ac yn gydlynydd ysgol ar gyfer yr Achrediad Ysgolion Iach, ill dau am flynyddoedd lawer, mewn ysgol a gafodd ganmoliaeth a chydnabyddiaeth am y gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd beicio fel rhan o ffordd iach o fyw. Bûm yn gweithio'n galed i annog rhieni a gofalwyr i gydnabod y buddion i'w plant, iddyn nhw eu hunain, ac i'w teuluoedd ehangach. Roeddwn yn gyfrifol am hyrwyddo a chefnogi Cynllun Bysiau Cerdded Castell-nedd Port Talbot, Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol Castell-nedd Port Talbot ac Wythnos Beicio i'r Ysgol Castell-nedd Port Talbot. Fel rhan o'r gwaith hwn, bu'r ysgol yn gweithio'n galed i sicrhau cyllid ar gyfer lle i storio beiciau ar faes chwarae ein hysgol a chaiff defnydd o'r cyfleuster hwn ei annog yn fawr. Fodd bynnag, diogelwch plant oedd y brif flaenoriaeth wrth gynllunio llwybrau ac yn y cyngor a roddwyd i deuluoedd bob amser. Roedd yn rhaid, ac mae'n rhaid, iddi fod felly. Bob amser. Mae hyn yn amlwg. Dyna pam mae'r llwybr beicio arfaethedig drwy'r gatiau coffa yn Ystad y Gnoll, yn arwain i fyny drwy Gilgant Cimla, i fyny Tir Comin Cimla ac ymlaen i Heol Cwm Afan, yn peri cymaint o ofid i mi ac, yn ddi-os, mae'n anochel y bydd yn arwain at ddamwain. Ar waelod y llwybr troed wrth y Pwll Cyntaf, mae 'man cyfyng' sydd, hyd yn oed ar hyn o bryd, yn peri i gerbydau sy'n mynd i mewn neu allan o'r maes parcio bach symud yn beryglus o gwmpas ceir sydd wedi'u parcio'n anystyriol ar yr ochr gyferbyn, na ddylent fod yno. Llinellau melyn, fe'ch clywaf yn ei ddweud. Pwy fyddai'n plismona hyn pan fo Parc y Gnoll yn orlawn yn ystod gwyliau ysgol? Os oes astudiaeth ddichonoldeb wedi cael ei chynnal, byddwn yn anhygoel o ddiolchgar o gael gwybod ar ba adeg o'r flwyddyn, ar ba ddiwrnod, ac ar ba amser o'r dydd. Ar wahân i'r posibilrwydd o wrthdrawiadau i'r beicwyr eu hunain â cherbydau, rwy'n poeni o ddifrif am y Disgyblion Ysgol Gynradd sy'n defnyddio'r lôn sy'n arwain tuag at Gilgant Cimla ac oddi yno ac i mewn i'r Gnoll ar hyn o bryd. Dyma'r Llwybr Diogel i'r Ysgol ar gyfer y plant 3–11 oed hyn sy'n mwynhau taith ddiogel a dymunol ar droed o'u cartrefi, yn ddiogel i'w hysgolion yn y dref. Oes, mae beiciau yno y gallent ddod ar eu traws, ond mae hyn wedi cael ei reoli'n ddiogel erioed, oherwydd y nifer sy'n defnyddio llwybr hwn. Pe bai'r llwybr hwn yn cael ei newid yn Llwybr Teithio Llesol dynodedig, byddai eu diogelwch yn cael ei beryglu, yn ddi-os. Mae'r risgiau'n rhy fawr. Yn sicr, maent yn drech na'r manteision. Ar ôl siarad â llawer o feicwyr sy'n defnyddio'r parc ers i'r cynigion gael eu cyflwyno, nid yw'r un ohonynt yn gallu deall pam mae angen newid. Gwn fod rhai wedi mynegi eu barn ar ba mor anodd yw teithio dros dwmpathau cyflymder. Yn frawychus ddigon,* |


| |
|---|
| *mae gwaith ymchwil yn dangos y bydd ansawdd aer yn waeth pan fydd rhaid i gerbydau arafu, newid i gêr is neu frecio. Bydd unrhyw feiciwr sy'n anadlu'n drwm wrth feicio, am fod rhaid iddo deithio i fyny'r llethr sy'n arwain i fyny at Gilgant Cimla ac yna i fyny i ymuno â Heol Cimla, yn wynebu risg uwch o ddatblygu problemau resbiradol, gwaethygu anawsterau asthma neu, yn waeth byth, achosi problemau ysgyfaint difrifol. Felly, byddai'r trigolion hynny sy'n byw ar hyd Cilgant Cimla yn wynebu'r risgiau hyn hefyd, ynghyd â phobl sy'n cerdded yn ddyddiol, gyda neu heb gŵn, sy'n niferus. Byddent yn anadlu llawer mwy o fygdarth niweidiol. Aer glanach yw'r hyn rydym yn ymladd drosto ac yn ei fynnu, nid aer mwy budr. Mae'n rhaid bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot am i'w ddinasyddion gael eu hamddiffyn rhag hyn. Mae'n rhaid bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot am i'w hanes da o ddelio â materion amgylcheddol barhau. Ni ddylai uniondeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd fod dan amheuaeth, 'does bosibl. Dylai iechyd a diogelwch holl drigolion ac ymwelwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gael eu diogelu. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ddyletswydd gofal i bawb. Mae oedolion a phlant wedi bod yn beicio drwy'r Gnoll ers blynyddoedd lawer a, hyd y gwn i, nid oes beicwyr wedi cael damweiniau* |
| *Mae oedolion a phlant wedi bod yn beicio drwy'r Gnoll ers blynyddoedd lawer a, hyd y gwn i, nid oes beicwyr na cherddwyr wedi cael damweiniau. Rwy'n eich annog i beidio â bwrw ymlaen â'r cynigion hyn a allai fod yn beryglus. Ar wahân i'r elfen ddiogelwch, nid yw'r cynnig i agor y gatiau Coffa yn barhaol yn dangos parch at y cof am y rhai a fu farw yn y ddau Ryfel Byd, na'u teuluoedd sy'n gallu defnyddio'r gofeb hon i gofio amdanynt a myfyrio'n dawel. Hefyd, byddai cael y gatiau Coffa ar agor yn barhaol yn gwahodd beiciau sgrialu a beiciau modur i'w defnyddio fel mynedfa. Ni fyddai gosod bolardiau yno yn atal y cerbydau hyn. Byddai diogelwch cerddwyr mewn perygl unwaith eto.* |
| *Wedi byw yma ers 51 mlynedd, dim problemau byth. Nid oes angen llwybr bysiau. Gwnaethom ymladd dros hyn. Peryglus mynd o'r cilgant i ardal y pwll. Ddim yn gwybod pwy luniodd yr holiadur hwn; am lwyth o sothach. Nid wyf am weld unrhyw newidiadau i system ffyrdd nad yw wedi achosi unrhyw broblemau. Rwyf wedi bod i edrych ar y cynlluniau yn y neuadd Sgowtiaid ac yn meddwl tybed pa berson clyfar-clyfar a ddechreuodd hyn i gyd. Mae angen help ar dref Castell-nedd!! Marchnad ac ati. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw feicwyr, dim ond ambell un yn mynd ar un olwyn i lawr y cilgant!! plant (ifanc) ar y palmentydd gyda'u rhieni. Beth am wasanaeth bysiau lleol? mae llawer yn dibynnu ar hyn; bydd gyrwyr bysiau'n cael anhawster weithiau am fod ceir wedi'u parcio ar y ffyrdd ac nid ar ddreifiau. Yr Ardd Goffa ger y gatiau Coffa – dim gemau pêl, dim beicio wedi'u nodi?? Mae cofebau mewn dinasoedd, trefi, pentrefi yn gwneud y bobl leol yn ymwybodol o'r rhai a fu farw wrth aberthu eu bywydau er mwyn rhoi rhyddid i bob un ohonom. Ni ddylem fyth anghofio hyn a dylem gadw'r cofebau hyn a gofalu amdanynt fel sy'n digwydd mewn lleoedd eraill.* |
| *Lôn feiciau Cilgant Cimla a'r ardal. Mae'r holl broses hon wedi dechrau'n wael yn fy marn i. Bu amrywiaeth o sïon ar led ac yna, yn sydyn, roedd syrfëwr yn cymryd mesuriadau ond nid oedd yn gallu datgelu pam? Siaradais yn bersonol â'r person sy'n arwain ar y pwnc, sef Amanda J Phillips, fel y mae llawer o bobl eraill wedi'i wneud, ond nid oeddwn yn ddim callach yn y pen draw ac roedd yr atebion yn ymddangos yn eithaf amwys? Yr argraff gychwynnol yw bod arian ar fin cael ei wastraffu'n ddiamcan, tra bo'r ardal yn galw'n daer am welliannau i strydoedd, ac i balmentydd yn arbennig. Mae Cilgant Cimla yn rhan o ardal hirsefydlog lle mae gan ddreifiau bileri gatiau, y mae llawer ohonynt wedi'u hamgylchynu â llwyni. Mae hyn, ynghyd â pharcio ar y ffordd, yn creu man dall i'r rhai hynny ohonom y mae arnom angen bagio allan o'n dreifiau. Gall fod yn anodd gweld cerddwyr a phlant ar feiciau sy'n defnyddio'r llwybrau ag wyneb gwael arnynt y tu ôl i'r rhwystrau hyn, sy'n golygu bod rhaid iddynt gymryd ychydig o gyfrifoldeb ychwanegol. Mae llawer o drigolion o'r genhedlaeth hŷn hefyd, ac mae'n llwybr bysiau rheolaidd y mae ei angen yn fawr. Byddwn yn herio unrhyw un sy'n rhan o Fenter y Cyngor i fagio allan o fy nreif ar amrywiaeth o amseroedd yn ystod y dydd a hefyd gyda'r nos... nid dim ond ar amseroedd tawel yng nghanol y dydd. Mae'n rhaid bod gennych chi lygaid fel pry! Mae ychwanegu lôn feiciau at balmant yn chwerthinllyd i'r graddau nad yw beicwyr wedi'u hyswirio ac, yn anhygoel ddigon, anaml y bydd ganddynt gloch ar eu beiciau, sy'n golygu y gall cerddwr anwyliadwrus sy'n cerdded i mewn i'r lôn gael ei frifo'n ddifrifol. Bydd hyn yn digwydd mewn lleoedd eraill, ac fe all ddigwydd yma! Meddyliwch am y tro diwethaf i chi gerdded ar hyd promenâd Aberafan a chrwydro i mewn i'r lôn feiciau! Ceisiwch gerdded ar hyd taith taf a theimlo'n ddiogel pan fydd beicwyr yn taranu i lawr tuag atoch heb rybudd! Na, nid Cilgant Cimla, ond mae'r naill a'r llall yn enghreifftiau nodweddiadol o'r perygl. Mae'r stryd eisoes yn llawn cerddwyr, beicwyr, a hyd yn oed sglefrfyrddwyr sy'n manteisio ar y rhiw hir. Mae parcio ar y stryd yn rhemp, ac er mai rheol anysgrifenedig ydyw a bod hynny'n dal yn gyfreithlon, bydd rhai'n parcio y tu allan i gartrefi pobl eraill yn hytrach na'u lleoedd eu hunain. Bydd hyn yn gwaethygu gyda lôn feiciau, gan greu drwgdeimlad. Dychmygwch feiciwr yn teithio i lawr ac yn dod wyneb yn wyneb ag un arall sy'n dringo, a bod tryc yn gyrru i fyny'r ffordd, a'r tryc yn gyrru i lawr,* |

| |
|---|
| *i gyd yn digwydd ar unwaith!! Mae'n gallu digwydd/1 Caiff y lôn ar dir y Gnoll sy'n mynd y tu ôl i Gilgant Cimla ei defnyddio eithaf tipyn, felly pam na ellir ei huwchraddio er mwyn darparu ar gyfer Menter y Cyngor? Mae llawer llai o berygl i'w gael ar y lôn honno. Mae hyd yn oed yn cwmpasu'r un ardal ac yn targedu beicwyr a cherddwyr... gan annog pobl i wneud ymarfer corff drwy gerdded neu feicio i'r dref ac yn ôl? Mae Castell-nedd eisoes yn troi'n lle marwaidd heb ddim galluoedd siopa sylweddol... ac, yn sicr, dim ffordd ddiogel o gloi beiciau. Yn barod eleni, mae beic newydd cymydog wedi cael ei ddwyn o'r tu allan i'r llyfrgell newydd, a gadawodd y lleidr caredig ei hen feic ar ôl, ynghyd â'r clo newydd wedi'i dorri! A ddylai'r Gerddi Coffa gael eu defnyddio ar gyfer Beicwyr? Amharchus! Mae twmpathau cyflymder yn berygl ynddynt eu hunain! Bydd cerbyd sy'n arafu ac yna'n cyflymu i ffwrdd yn creu llawer mwy o lygredd na chynnal cyflymder cyson, heb sôn am y gronynnau llwch brêc gwenwynig a gaiff eu creu. Mae hyn ar wahân i'r sŵn a gaiff ei greu. Mae hyn yn debygol o gael llawer mwy o effaith ar y bobl leol lle y caiff twmpath cyflymder ei osod. Mae ceir wedi'u parcio eisoes yn gostegu'r traffig. Hyd yn oed pe bai mwy o geir yn parcio ar ddreifiau fel y dylent ei wneud, bydd y peryglon yn dal i fodoli i raddau helaeth iawn! Mae llawer o'r tai naill ai'n cael eu hadnewyddu neu mae estyniadau'n cael eu codi arnynt, gan olygu bod mwy o faniau a cherbydau eraill yn parcio ar y naill ochr a'r llall. Os yw'r broses gyfan hon eisoes wedi'i chymeradwyo, bydd galwad unfrydol am ostyngiad mewn cyfraddau? Mae'r cynlluniau'n cael eu hysbysebu ar-lein, ond pam nad yw'r trigolion wedi cael eu hysbysu drwy lythyr. Mae llawer ohonynt heb gyfleuster i fynd ar-lein.* |
| *C6. Opsiwn 3?? Pam gwastraffu arian ar lwyfannau; ewch i'r afael â phroblem y palmentydd yn gyntaf. Mae digonedd o gyrbiau isel o flaen pob tŷ er mwyn helpu pobl i groesi'r ffordd. Rhaid i bobl ar sgwteri symudedd sy'n defnyddio'r cilgant fynd ar y ffordd gan ei bod yn anniogel defnyddio'r palmentydd am eu bod mor anwastad. C7. Gyda chyflwr y palmentydd. C8. Mae Cilgant Cimla yn ardal dawel nad oes llawer o feicwyr yn ei defnyddio, ac mae'r rhai sy'n ei defnyddio yn beicio ar y ffordd. Pan oeddwn yn y cyfarfod ar 10 Hydref dangoswyd data i mi ar faint o draffig a ddefnyddiodd y cilgant dros gyfnod o 4 diwrnod a oedd yn dangos tua 500 o geir; rwy'n ei chael hi'n anodd credu hyn gan nad oes llawer o draffig ar y ffordd hon i gyfiawnhau'r newidiadau rydych chi am eu gwneud.* |
| *C3. Ond nid yn y ffordd a nodir yn opsiynau arfaethedig y cyngor. Bydd y ddau opsiwn yn cynyddu lefelau sŵn ac yn gwaethygu ansawdd aer wrth i gerbydau fynd ar lwyfannau traffig ac oddi arnynt gyda'u hinjans yn rhyddhau nwyon egsôst wrth wneud hynny. C6 Opsiwn 3. Gadewch bethau fel y maent ac ewch i'r afael â phroblem cyflwr y palmentydd. 7. Ddim yn gyfforddus – oherwydd y posibilrwydd o anaf o ganlyniad i gyflwr y palmentydd. C8. Cyfforddus dros ben. Am fy mod yn beicio ar y ffordd ynghyd â sgwteri symudedd na allant ddefnyddio'r palmentydd oherwydd eu cyflwr. Ers amser eithriadol o hir, mae Cilgant Cimla gyda'r ynys ym mhen draw Poplars Avenue wedi bod yn werddon mewn môr o goncrit a tharmac. Dim ond ar draean canol ei hyd y bydd y cynigion hyn yn effeithio, ac nid oes neb yn dymuno hynny nac wedi gofyn am hynny. Mae angen gwneud gwelliannau mawr i'r palmentydd; nid oes data ar ddamweiniau a fydd yn cyfiawnhau newidiadau traffig drwy gyflwyno cyffyrdd t neu lwyfannau. Gwariwch yr arian yn ddoeth ac yn gywir.* |

## YMATEBION PERTHNASOL I'R CWESTIWN AR GYDRADDOLDEB



# ATODIAD J – YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD AR YR IS-DDEDDF – CIMLA

## CYFLWYNIAD

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT) yn cydweithio â'i gilydd i'w gwneud yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy cyfleus i bobl gerdded a beicio rhwng Castell-nedd a Chimla ac maent yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn datblygu rhwydwaith gwell ar gyfer teithio llesol.

Fel rhan o'r gwelliannau teithio llesol, rhaid i'r is-ddeddf bresennol a wnaed yn 1975 gael ei diwygio i ganiatáu beicio dwy ran o dir y Gnoll er mwyn darparu llwybr di-dor heb wyriadau na bylchau.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth a gafwyd gan y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r is-ddeddf ac yn esbonio sut y caiff y sylwadau eu hystyried wrth symud ymlaen.

## CEFNDIR

Yn 1975, rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd gynt is-ddeddf ar waith a oedd yn nodi'r rheolau ar gyfer defnyddio llawer o'r tiroedd hamdden a'r mannau agored cyhoeddus ym Mwrdeistref Castell-nedd gynt, gan gynnwys Ystad y Gnoll a'r Gerddi Coffa. Mae adran 7ii o'r is-ddeddf yn datgan na chaiff person reidio beic, treic na pheiriant tebyg arall mewn unrhyw ran o'r tir hamdden ac eithrio wrth arfer unrhyw hawl neu fraint gyfreithlon.


Yn unol â strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, sef Llwybr Newydd, a'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) i greu ac annog dulliau teithio mwy cynaliadwy. mae cynnig yn cael ei ystyried i greu llwybr teithio llesol newydd rhwng Castell-nedd a Chimla. Bydd y llwybr yn galluogi trigolion Cimla i fynd i ganol tref Castell-nedd ar droed neu ar feic, gan wella mynediad i bawb ac annog pobl i newid eu dulliau teithio er mwyn helpu i leihau allyriadau carbon.

Y prif lwybr trafnidiaeth rhwng Castell-nedd a Chimla yw'r B4287 Heol Cimla a Heol Cwm Afan. Mae'r ddarpariaeth teithio llesol bresennol ar hyd y ffordd hon yn wael, yn enwedig i feicwyr gan nad oes ganddynt fawr ddim dewis ond beicio ar y ffordd gyda'r traffig. O ystyried cyflymderau a lefel y traffig a graddiant y ffordd, mae cerdded a beicio ar y llwybr hwn yn anaddas ac yn anniogel i lawer o bobl sydd am gerdded a beicio rhwng Castell-nedd a Chimla. Ceir tagfeydd yn aml ar Heol Cimla ar y gyffordd â Heol Eastland, ac mae'n ardal sy'n cael ei monitro am ansawdd aer gwael. Gallai annog pobl i newid i ddulliau teithio llesol yn hytrach na cheir preifat helpu i leddfu rhywfaint o'r tagfeydd yn yr ardal. Er mwyn caniatáu beicio ar y llwybr arfaethedig uchod, bydd angen diwygio geiriad is-ddeddf 1975 i ganiatáu beicio ar hyd y llwybr wrth y Gatiau Coffa a rhwng y Gatiau Coffa a Thir Comin Cimla.

Ar hyn o bryd, cynigir cadw'r is-ddeddf fel y'i hysgrifennwyd ar gyfer yr ardaloedd sy'n weddill o fewn Ystad y Gnoll ac ar gyfer y tiroedd hamdden a'r mannau agored cyhoeddus eraill a restrir yn atodlenni 1 a 2 yr is-ddeddf.

## YMGYNGHORIAD

Mae'r Awdurdod wedi hysbysebu'n ffurfiol y diwygiad i is-ddeddf 1975 a wnaed o dan adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875, mewn perthynas â thiroedd hamdden ym Mwrdeistref Castell-nedd. Bydd y diwygiad yn caniatáu beicio ar y llwybr drwy'r gerddi coffa yng Nghastell-nedd ac yn ardal Ystad y Gnoll rhwng y Gatiau Coffa a Thir Comin Cimla, fel y dangosir ar y cynlluniau isod:




Fel rhan o'r broses o ddiwygio is-ddeddf 1975, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid am gyfnod o 12 wythnos o 2 Ebrill 2024 tan 25 Mehefin 2024. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys negeseuon e-bost at randdeiliaid, postiad ar y cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd postio, postiad ar dudalen we a hysbysiadau safle a wnaed ar 2 Ebrill 2024. Mae enghreifftiau o hysbysebion yr ymgynghoriad i'w gweld isod:

FFIGUR 1: POSTER



FFIGUR 2: LLYTHYR AT DRIGOLION

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

| | |
|---|---|
| Dyddiad/Date | 2 Ebrill 2024 |
| Llinell Uniongyrchol/Direct Line | |
| E-bost/Email | environment@npt.gov.uk |
| Cyswllt/Contact | |
| Eich cyf/Your ref | |
| Ein cyf/Our ref | FR-NEA-SU029/POC |

**Y Preswylydd/Meddiannydd**

Annwyl Syr/Fadam

**Parthed:- DIWYGIAD POSIB I'R IS-DDEDDF A WNEIR GAN GYN-GYNGOR BWRDEISTREF CASTELL-NEDD YM 1975 MEWN PERTHYNAS Â THIROEDD HAMDDEN**

Bwriad yr awdurdod yw hysbysu diwygiad i is-ddeddf 1975 a wnaed o dan adran 164 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875 mewn perthynas â Thiroedd Hamdden ym Mwrdeistref Castell-nedd yn ffurfiol. Bydd y diwygiad yn caniatáu beicio ar y llwybr drwy'r gerddi coffáu yng Nghastell-nedd ac yn ardal ystâd y Gnoll rhwng gatiau'r gofeb ryfel a thir comin Cimla fel y'i dangosir ar y cynllun atodedig.

RHAID CYFLWYNO unrhyw sylwadau'n YSGRIFENEDIG YN UNIG, gan nodi'r rhesymau drostynt. Dylid cyflwyno ymatebion i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, Y Ceiau, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd SA11 2GG neu drwy e-bostio greener@npt.gov.uk erbyn **30 Mehefin 2024** fan bellaf.

Gellir gweld manylion y cynnig a'r is-ddeddf bresennol ar wefan y cyngor yn:
www.npt.gov.uk/32497#activetravelconsultations
Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur, ysgrifennwch i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, Y Ceiau, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd SA11 2GG i ofyn am gopi papur.

Yr eiddoch yn gywir

**Ar ran Y PENNAETH PEIRIANNEG A THRAFNIDIAETH**

FFIGUR 3: POSTIAD AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Neath Port Talbot Council
3 April ·

Bwriad yr awdurdod yw hysbysu diwygiad i is-ddeddf 1975 a wnaed o dan adran 164 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875 mewn perthynas â Thiroedd Hamdden ym Mwrdeistref Castell-nedd yn ffurfiol. Bydd y diwygiad yn caniatáu beicio ar y llwybr drwy'r gerddi coffáu yng Nghastell-nedd ac yn ardal ystâd y Gnoll rhwng gatiau'r gofeb ryfel a thir comin Cimla fel y'i dangosir ar y cynllun atodedig.

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ymgynghori ar gynnig a hoffem gael eich barn a'ch sylwadau.




7 10 comments 12 shares

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

**DATGANIAD CYCHWYNNOL**

**DIWYGIAD I'R IS-DDEDDF SY'N GWAHARDD BEICIO YN Y GERDDI COFFA A THIR Y GNOLL**

Ym 1975, rhoddwyd is-ddeddf ar waith gan hen Gyngor Bwrdeistref Castell-nedd i nodi'r rheolau defnydd ar gyfer llawer o'r tiroedd hamdden a'r mannau agored cyhoeddus yn hen Fwrdeistref Castell-nedd, gan gynnwys Ystâd y Gnoll a Gerddi'r Cofeb Ryfel. Mae Adran 7ii yr is-ddeddf yn nodi na all person fynd ar feic, beic tair olwyn nac unrhyw beiriant tebyg mewn unrhyw ran o'r tir hamdden ac eithrio er mwyn arfer unrhyw hawl neu fraint.

Yn unol â strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd a Deddf Teithio Llesol (Cymru) i greu ac annog mathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth; ystyrir cynnig i greu llwybr teithio llesol newydd rhwng Castell-nedd a Chimla. Bydd y llwybr yn galluogi preswylwyr Cimla i gael mynediad at Gastell-Nedd ar droed neu ar gefn beic. Gwella mynediad i bawb tra'n annog newid dulliau teithio i helpu i leihau cynhyrchiad carbon.

Mae'r prif lwybr cludiant rhwng Castell-nedd a Chimla ar hyd y B4287 Heol Cimla a Heol Cwm Afan. Mae'r ddarpariaeth teithio llesol bresennol ar hyd y ffordd hon yn wael, yn enwedig ar gyfer beicwyr, ac nid oes llawer o opsiynau ar gael i feicwyr ar wahân i feicio ar hyd y ffordd gyda'r traffig. O ystyried cyflymder y traffig, nifer y cerbydau a graddiant y ffordd, mae cerdded a beicio ar hyd y llwybr hwn yn anaddas ac yn beryglus ar gyfer llawer o bobl sydd am gerdded a beicio rhwng Castell-nedd a Chimla.

Mae Heol Cimla'n aml yn brysur ar gyffordd Heol Cimla a Heol Eastland, ac mae'r ardal yn cael ei monitro ar gyfer ansawdd aer gwael. Gall annog newid dulliau teithio i ddulliau teithio llesol yn hytrach na defnyddio ceir preifat helpu i leihau ychydig o'r traffig yn yr ardal.


Er mwyn galluogi beicio ar y llwybr arfaethedig, bydd angen diwygio'r geiriau yn is-ddeddf 1975 i alluogi beicio ar hyd y llwybr ger Gatiau'r Ardd Goffa a rhwng Gatiau'r Ardd Goffa a Thir Comin Cimla.

Ar yr adeg hon, cynigiwyd bod yr is-ddeddf yn aros fel y mae ar gyfer yr ardaloedd eraill o fewn Ystâd y Gnoll ac ar gyfer y tiroedd hamdden a mannau agored cyhoeddus eraill a restrir yn atodlenni 1 a 2 yr is-ddeddf.

Bwriad yr awdurdod yw hysbysu diwygiad i is-ddeddf 1975 a wnaed o dan adran 164 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875 mewn perthynas â Thiroedd Hamdden ym Mwrdeistref Castell-nedd yn ffurfiol. Bydd y diwygiad yn caniatáu beicio ar y llwybr drwy'r gerddi coffáu yng Nghastell-nedd ac yn ardal ystâd y Gnoll rhwng gatiau'r gofeb ryfel a thir comin Cimla fel y'i dangosir ar y cynllun atodedig.

RHAID CYFLWYNO unrhyw sylwadau'n YSGRIFENEDIG YN UNIG, gan nodi'r rhesymau drostynt. Dylid cyflwyno ymatebion i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, Y Ceiau, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd SA11 2GG neu drwy e-bostio environment@npt.gov.uk erbyn **30 Mehefin 2024** fan bellaf.

Gellir gweld manylion y cynnig a'r is-ddeddf bresennol ar wefan y cyngor yn
www.npt.gov.uk/32497#activetravelconsultations
Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur, ysgrifennwch i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, Y Ceiau, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd SA11 2GG i ofyn am gopi papur.



FFIGUR 5: DATGANIAD CYCHWYNNOL – A GYHOEDDWYD AR WEFAN CNPT AC YN Y WASG

**DATGANIAD CYCHWYNNOL**

**DIWYGIAD I'R IS-DDEDDF SY'N GWAHARDD BEICIO YN Y GERDDI COFFA A THIR Y GNOLL**

Ym 1975, rhoddwyd is-ddeddf ar waith gan hen Gyngor Bwrdeistref Castell-nedd i nodi'r rheolau defnydd ar gyfer llawer o'r tiroedd hamdden a'r mannau agored cyhoeddus yn hen Fwrdeistref Castell-nedd, gan gynnwys Ystâd y Gnoll a Gerddi'r Cofeb Ryfel. Mae Adran 7ii yr is-ddeddf yn nodi na all person fynd ar feic, beic tair olwyn nac unrhyw beiriant tebyg mewn unrhyw ran o'r tir hamdden ac eithrio er mwyn arfer unrhyw hawl neu fraint.

Yn unol â strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd a Deddf Teithio Llesol (Cymru) i greu ac annog mathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth; ystyrir cynnig i greu llwybr teithio llesol newydd rhwng Castell-nedd a Chimla. Bydd y llwybr yn galluogi preswylwyr Cimla i gael mynediad at Gastell-Nedd ar droed neu ar gefn beic. Gwella mynediad i bawb tra'n annog newid dulliau teithio i helpu i leihau cynhyrchiad carbon.

Mae'r prif lwybr cludiant rhwng Castell-nedd a Chimla ar hyd y B4287 Heol Cimla a Heol Cwm Afan. Mae'r ddarpariaeth teithio llesol bresennol ar hyd y ffordd hon yn wael, yn enwedig ar gyfer beicwyr, ac nid oes llawer o opsiynau ar gael i feicwyr ar wahân i feicio ar hyd y ffordd gyda'r traffig. O ystyried cyflymder y traffig, nifer y cerbydau a graddiant y ffordd, mae cerdded a beicio ar hyd y llwybr hwn yn anaddas ac yn beryglus ar gyfer llawer o bobl sydd am gerdded a beicio rhwng Castell-nedd a Chimla.

Mae Heol Cimla'n aml yn brysur ar gyffordd Heol Cimla a Heol Eastland, ac mae'r ardal yn cael ei monitro ar gyfer ansawdd aer gwael. Gall annog newid dulliau teithio i ddulliau teithio llesol yn hytrach na defnyddio ceir preifat helpu i leihau ychydig o'r traffig yn yr ardal.

Er mwyn galluogi beicio ar y llwybr arfaethedig, bydd angen diwygio'r geiriau yn is-ddeddf 1975 i alluogi beicio ar hyd y llwybr ger Gatiau'r Ardd Goffa a rhwng Gatiau'r Ardd Goffa a Thir Comin Cimla.

Ar yr adeg hon, cynigiwyd bod yr is-ddeddf yn aros fel y mae ar gyfer yr ardaloedd eraill o fewn Ystâd y Gnoll ac ar gyfer y tiroedd hamdden a mannau agored cyhoeddus eraill a restrir yn atodlenni 1 a 2 yr is-ddeddf.

Bwriad yr awdurdod yw hysbysu diwygiad i is-ddeddf 1975 a wnaed o dan adran 164 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875 mewn perthynas â Thiroedd Hamdden ym Mwrdeistref Castell-nedd yn ffurfiol. Bydd y diwygiad yn caniatáu beicio ar y llwybr drwy'r gerddi coffáu yng Nghastell-nedd ac yn ardal ystâd y Gnoll rhwng gatiau'r gofeb ryfel a thir comin Cimla fel y'i dangosir ar y cynllun atodedig.

RHAID CYFLWYNO unrhyw sylwadau'n YSGRIFENEDIG YN UNIG, gan nodi'r rhesymau drostynt. Dylid cyflwyno ymatebion i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, Y Ceiau, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd SA11 2GG neu drwy e-bostio environment@npt.gov.uk erbyn **30 Mehefin 2024** fan bellaf.

Roedd yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn ddwyieithog ac fe'i gwnaed yn gwbl hygyrch er mwyn helpu pobl ddall a rhannol ddall i gymryd rhan yn y broses.

**YMATEBION**

Cafodd yr Awdurdod gyfanswm o 14 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gweler yr ymatebion i'r ymgynghoriad a sylwadau un o swyddogion y cyngor isod:

| | Sylw | Ymateb |
|---|---|---|
| **1** | Nid wyf yn gwrthwynebu diwygio'r Is-ddeddf o ran beicio drwy'r Gerddi Coffa gan fod beicwyr di-rif yn defnyddio'r llwybr hwn bob dydd beth bynnag.<br>Mae'n agos at wal fy ngardd felly gallaf ddweud yn bendant nad yw'r Is-ddeddf hon wedi cael ei gorfodi ers blynyddoedd lawer.<br>Fodd bynnag, os bydd y diwygiad hwn yn rhagflaenu eich cynllun blaenorol i greu a tharmacio llwybr beicio ychwanegol o amgylch y Gatiau Coffa a fyddai'n mynd ar dir yr Ardd Goffa ei hun, yna byddwn yn gwrthwynebu hynny ar bob cyfrif.<br>Caiff dwy gât ochr y Gatiau Coffa eu defnyddio gan feicwyr, sgwteri symudedd, cadeiriau olwyn, pramiau a bygis heb ddim rhwystrau o gwbl. Nid oes rhaid i feicwyr ddod oddi ar eu beiciau nac arafu, hyd yn oed.<br>Mae lled mynediad o 1.45 metr drwy'r gatiau ochr ar hyn o bryd ac roedd angen 1.5 metr ar gyfer eich cynllun arfaethedig. Rwy'n gobeithio na fyddwch hyd yn oed yn ystyried cwympo coed a thyrchu rhan o'r Gerddi Coffa er mwyn adeiladu llwybr beicio a fydd ond 5 cm yn lletach na'r mynediad presennol; sy'n amlwg yn ddiangen ac a fyddai'n cael gwared ar ran o'r Gerddi Coffa lle mae coed a bylbiau wedi cael eu plannu gan wirfoddolwyr fel fi sy'n parchu'r bobl rydym wedi'u colli mewn Rhyfeloedd.<br>Edrychaf ymlaen at glywed nad oes llwybr beicio ychwanegol yn cael ei gynllunio mwyach ar gyfer yr ardal o amgylch y Gatiau Coffa. | Diolch am gadarnhau nad oes gennych wrthwynebiad i'r diwygiad arfaethedig i'r is-ddeddf er mwyn caniatáu beicio drwy'r Gerddi Coffa. Gallaf gadarnhau nad yw'r cynnig i adeiladu llwybr beicio ychwanegol o amgylch y Gatiau Coffa'n cael ei ystyried mwyach. |
| **2** | O ran y cynnig i ganiatáu mynediad i feicwyr, pa fesurau diogelu sydd ar waith ar gyfer cerddwyr? O fy mhrofiad i, nid yw beicwyr a cherddwyr (yn enwedig gyda chŵn a phlant bach) yn cymysgu'n dda iawn. | Byddai'r cynnig i greu llwybr cyd-ddefnyddio yn cydymffurfio â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Byddai angen i ddefnyddwyr y llwybr, boed ar droed neu ar feic, ystyried defnyddwyr eraill wrth ei ddefnyddio. |
| **3** | Rwyf wedi byw ar Rodfa'r Gnoll ers tua phum mlynedd ar hugain a, hyd y gwn i, nid oes cyfyngiadau beicio erioed wedi cael eu gorfodi ar y llwybr hwn.<br><br>Trigolion oedrannus Castell-nedd, rhieni â phlant bach a phobl sy'n mynd â chŵn am dro sy'n defnyddio'r llwybr hwn at y Gatiau Coffa yn bennaf. Ar hyn o bryd, mae'n ffordd drwodd gymharol ddiogel i'r henoed ac i rieni â phlant sy'n rhydd i gerdded dan eu goruchwyliaeth. Fodd bynnag, mae TRAFFIG BEICIAU MODUR a SGWTERI TRYDAN wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae beiciau modur wedi'u gwahardd ar y llwybr hwn; mae sgwteri trydan yn anghyfreithlon oni bai eu bod wedi'u trwyddedu a'u hyswirio. Beth am feiciau trydan? Caf ar ddeall eu bod wedi'u cyfyngu i 15.5mya. Mae hyn nawr yn codi'r cwestiwn, "Pwy fydd yn plismona’r llwybr hwn er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd"<br>Mae Rhodfa'r Gnoll wedi cael ei dynodi'n stryd mynediad yn unig gan CNPT. Fodd bynnag, bydd modurwyr yn parcio yma i fynd i'w gweithleoedd ar droed yn hytrach na manteisio ar y maes parcio aml-lawr yng nghanol y dref, yn ogystal â rhai pobl sy'n mynd â'u cŵn am dro er mwyn osgoi'r ffi parcio ym maes parcio'r Gnoll drwy barcio yma. Nid oes ots gan neb i bob golwg!!<br>O ganlyniad i hynny, mae gen i amheuon sylweddol ynghylch a oes gan CNPT yr ewyllys i blismona'r diwygiad arfaethedig hwn.<br>Hoffwn awgrymu y gallai camera teledu cylch cyfyng a reolir o bell "ladd dau aderyn ag un ergyd"<br>Gobeithio y rhoddir ystyriaeth briodol i gerddwyr, grwpiau o deuluoedd â phlant bach, a phobl sy'n mynd â chŵn am dro. | Dylai pobl ystyried defnyddwyr eraill wrth ddefnyddio pob troedffordd.<br><br>Mae eich pryderon ynglŷn â pharcio ar Rodfa'r Gnoll wedi cael eu trosglwyddo i'r adran gorfodi parcio. Mae eich awgrymiadau ynglŷn â chamera teledu cylch cyfyng wedi cael eu nodi hefyd, a chânt eu trosglwyddo i'r adran berthnasol. |
| **4** | Caf ar ddeall bod bwriad i ddiwygio'r is-ddeddf dan sylw. Hefyd, o ystyried y prosiect y mae'r diwygiad hwn yn gysylltiedig ag ef, rhaid i mi godi pryder. Yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw ddiwygiad, oni ddylid cael trafodaeth ynglŷn â'r penderfyniadau gwreiddiol i gyfyngu ar feiciau yn yr ardal hon. Wedyn cael ymgynghoriad ar gynigion ehangach y prosiect cysylltiedig. Dylai fod modd rhoi ystyriaeth fwy gwybodus i lwybrau eraill o Gimla i Gastell-nedd. Nes y bydd rhagor o wybodaeth ar gael, rhaid i mi wrthwynebu unrhyw newidiadau i'r is-ddeddfau parciau | Cafodd yr is-ddeddf ei hysgrifennu'n wreiddiol yn 1975 ac, yn ogystal â'r Gnoll, mae hefyd yn berthnasol i ganol tref Castell-nedd ac ardaloedd eraill yn y sir.<br><br>Cyn trafod y cynllun ehangach, mae angen i CNPT gynnal ymgynghoriad ar yr is-ddeddf yn benodol, oherwydd gallai effeithio ar y ffordd y caiff y |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynllun ehangach ei ddylunio a'i adeiladu.<br><br>Caiff manylion am y llwybr teithio llesol llawn o Gastell-nedd i Gimla eu rhannu yn nes ymlaen. |
| **5** | Rwy'n byw yng Nghilgant Cimla yng Nghastell-nedd, yn agos at ble mae allanfa arfaethedig y llwybr beicio o Barc Gwledig y Gnoll yn ymuno â Chilgant Cimla. Nid wyf yn anghytuno y gall darparu llwybrau beicio annog pobl o bob oed i fynd allan i'r awyr agored, a chynnig cyfleoedd i wella iechyd a lleihau allyriadau carbon. Fodd bynnag, mae ffurfioli'r llwybr arfaethedig o Gastell-nedd i Dir Comin Cimla fel llwybr cerdded/beicio dynodedig hefyd yn achosi perygl. Mae cyfuno cerddwyr, beiciau a cheir yn sicr o greu llanast yn fy marn i.<br><br>Mae'r ffordd allan o Barc Gwledig y Gnoll i mewn i Gilgant Cimla yn dod â cherbydau y mae angen iddynt deithio ar 20 milltir yr awr, cerddwyr ar droed, gyda chŵn yn aml iawn, rhieni, bygis, a phlant bach; a beicwyr, gan gynnwys rhai ar feiciau trydan cyflym iawn a beiciau modur o bryd i'w gilydd, at ei gilydd yn yr un lle. I gyd yn cymryd tro 90 gradd anodd i'r chwith neu'r dde yn y fynedfa a'r allanfa i Gilgant Cimla, a gaiff ei wneud yn anos, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd hi'n tywyllu'n gynharach.<br><br>Pe bai mesurau gostegu traffig fel twmpathau cyflymder a chilfachau parcio yn cael eu gosod ar Gilgant Cimla, byddai'r rhain yn gwaethygu'r broblem, a hefyd yn achosi difrod i gerbydau, o ran hongiad a theiars. Gallai cerbydau gwasanaethau cyhoeddus fel bysiau a lorïau sbwriel gael eu difrodi hefyd. Byddai'r sŵn cysylltiedig yn annerbyniol ac, yn anad dim, byddai aer o ansawdd gwaeth yn cael ei gynhyrchu, yn hytrach na'i leihau.<br><br>O fynedfa'r ffordd ochr (Heol Cimla) tuag at y prif lwybr troed/y brif ffordd drwy'r parc, gan arwain tuag at y rhiw i fyny at Gilgant Cimla, mae gyli/sianel ddraenio beryglus. Mae hyn yn destun anhawster cyson i geir sy'n mynd heibio i'w gilydd. Nid oes llawer o le i hyn ddigwydd beth bynnag, heb y perygl ychwanegol a achosir gan niferoedd mwy o feicwyr yn cystadlu ag oedolion, plant bach, bygis a chŵn. Unwaith eto, caiff hyn ei waethygu gan y mesurau gostegu traffig presennol y mae cerbydau a beicwyr yn ceisio eu hosgoi. Unwaith eto, bydd hyn yn ychwanegu at ansawdd aer gwaeth, nid yn unig i gerddwyr a phlant, ond hefyd i'r beicwyr eu hunain.<br><br>Gwnaeth cynllun blaenorol gan y Cynllun i lenwi'r Pwll Cyntaf fethu am fod rhaid i'r ffordd o fynedfa Heol Cimla at yr anheddau yn y Parc aros ar agor ar bob adeg er mwyn i gerbydau'r Cyngor, peiriannau fferm a cherbydau argyfwng ei defnyddio; unwaith eto, perygl pan fydd pob un ohonynt yn yr un lle.<br><br>Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn ystyried o ddifrif fy ymateb i'r newid defnydd arfaethedig ar gyfer llwybr troed Parc Gwledig y Gnoll a'r problemau a'r peryglon cysylltiedig. A minnau'n un o drigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gofynnaf am gyfle i asesu'r cynllun Teithio Llesol yn fanwl a thrafod y mater hwn mewn fforwm cyhoeddus cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud a allai effeithio ar fy niogelwch i a fy nheulu, ynghyd â'n hiechyd. | Diolch am eich sylwadau ar y Cynllun Teithio Llesol ehangach.<br><br>Bydd y cynnig i greu llwybr cyd-ddefnyddio yn cydymffurfio â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Byddai angen i ddefnyddwyr y llwybr, boed ar droed neu ar feic, ystyried defnyddwyr eraill wrth ei ddefnyddio.<br><br>Caiff dau opsiwn eu cynnig ar gyfer Cilgant Cimla fel rhan o'r cynllun ehangach. Fodd bynnag, mae hyn y tu allan i'r ardal y mae'r is-ddeddf yn effeithio arni.<br><br>Mae newidiadau i fynedfa isaf y Gnoll yn cael eu hystyried er mwyn gwneud yr ardal hon yn fwy diogel ac yn gliriach i ddefnyddwyr. |
| **6** | Rwy'n un o drigolion Cilgant Cimla yng Nghastell-nedd, yn agos at ble mae allanfa arfaethedig y llwybr beicio o Barc Gwledig y Gnoll yn ymuno â Chilgant Cimla. Rwy'n ysgrifennu ar ran nifer o rieni/neiniau a theidiau rwyf wedi siarad â nhw dros yr wythnosau diwethaf sy'n rhannu fy mhryderon. Rwyf o blaid unrhyw gynlluniau sy'n annog pobl i gadw'n heini ac yn iach a defnyddio'r awyr agored yn ein hardal leol. Fodd bynnag, a minnau'n fam i ddau o blant bach, rwy'n credu y gall y cynnig hwn beryglu eu diogelwch nhw a llawer o blant eraill a gofalwyr sy'n defnyddio'r llwybr hwn yn rheolaidd i gerdded yn ddiogel i'r ysgol ac oddi yno. Ar yr adegau hyn (a thrwy gydol y dydd yn enwedig mewn tywydd braf) bydd y lôn yn aml yn llwybr prysur i gerddwyr, y bydd gan lawer ohonynt bramiau neu gŵn ar denynnau yn aml, sydd eisoes yn gallu gwneud yr ardal braidd yn orlawn, felly nid yw ychwanegu lôn/ardal i feiciau yn ymddangos yn ymarferol o ystyried y cyfyngiadau bach a'r bachdro cul. Byddwn yn pryderu y byddai hyn yn peryglu diogelwch cerddwyr. | Byddai'r cynnig i greu llwybr cyd-ddefnyddio yn cydymffurfio â chanllawiau dylunio Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Byddai angen i ddefnyddwyr y llwybr, boed ar droed neu ar feic, ystyried defnyddwyr eraill wrth ei ddefnyddio. Mae gennym lwybrau cyd-ddefnyddio eraill yn y Sir (llwybr tynnu Camlas Castell-nedd er enghraifft) sy'n cael eu defnyddio heb wrthdaro rhwng defnyddwyr.<br><br>Bwriedir i'r llwybr o Gilgant Cimla i Barc y Gnoll gael ei ledu i 3m ac i'r holl “fannau cyfyng” gael eu dileu, a fyddai'n creu digon o le i'r holl |

| | | |
|---|---|---|
| | Hefyd, ar waelod y llwybr troed wrth y Pwll Cyntaf, ceir ardal sydd eisoes yn peri i gerbydau sy'n mynd i mewn neu allan o'r maes parcio bach symud yn beryglus o gwmpas ceir sydd wedi'u parcio'n anystyriol ar yr ochr gyferbyn. Byddai ychwanegu beicwyr at yr ardal hon yn creu mwy o 'draffig' i blant ddelio ag ef. Er fy mod yn gwerthfawrogi eich bod yn cynnig y byddai beicwyr yn ystyriol o gerddwyr, nid felly mae pethau bob tro mewn ardaloedd lle y caniateir beicio (Aberafan/y Mwmbwls) oherwydd caiff plant bach yn aml eu gorfodi i 'gadw draw' oddi wrth y llwybr beicio o ganlyniad i gyflymder rhai o'r beiciau er gwaethaf faint o bobl sy'n bresennol. Hefyd, er fy mod bob amser wedi cadw at fesurau diogelwch wrth gerdded i'r ysgol gyda fy mhlant, mae cael y lle diogel i ffwrdd o'r ffyrdd prysur yn rhoi rhyddid iddynt fagu hyder ac annibyniaeth wrth gerdded drwy'r Gnoll i'r ysgol; pe bai'r ardal hon yn cael ei throi'n ardal i feiciau, rwy'n teimlo y byddent yn teimlo'n agored i niwed ac yn llai hyderus ar eu ffordd i'r ysgol.<br><br>Rwyf wedi darllen y cynlluniau ac rwy'n ceisio cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau pellach a all gael eu cynnig ar gyfer Cilgant Cimla mewn perthynas ag opsiynau i ledu'r palmentydd a/neu ychwanegu twmpathau cyflymder a chyfyngiadau parcio. Rwyf wedi cael gwybod y byddai unrhyw newidiadau'n cael eu trafod gyda thrigolion ym mis Gorffennaf a byddwn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth am hyn. Rwy'n siŵr y byddai trigolion lleol yn croesawu'r cyfle i fynegi ein pryderon wrth wrando ar y cynigion mewn ffordd adeiladol yn hytrach na thrwy sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n aml yn gallu camarwain a pheri pryder diangen.<br>Rhowch wybod i mi pan gaiff dyddiad y cyfarfod ei gadarnhau. | ddefnyddwyr fynd heibio i'w gilydd yn gyfforddus. Rhaid hefyd nodi na ddylai ceir fod yn parcio wrth bwll isaf y Gnoll ar hyn o bryd, ac mai cerbydau sy'n mynd i'r tŷ a cherbydau'r cyngor yw'r unig gerbydau a ddylai gael mynediad. Caiff y mater ynglŷn â pharcio ei drosglwyddo i'r adran gorfodi parcio.<br><br>Nod y cynllun ehangach yw cynnig mwy o droedffordd ar hyd y llwybr cyfan er mwyn cynnig profiad mwy cyfforddus i ddefnyddwyr wrth gerdded neu feicio.<br><br>Caiff digwyddiad ymgynghori cyhoeddus ei gynnal yn yr hydref i ateb unrhyw gwestiynau ac esbonio'r cynllun ehangach ymhellach. Os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr ymgynghori, e-bostiwch greener@npt.gov.uk er mwyn i chi gael gwybod pan fydd yr arolwg ar gael. |
| **7** | Cyfeiriaf at yr uchod a'r cynigion i ddiwygio is-ddeddf 1975 a wnaed o dan adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 mewn perthynas â Pharc Gwledig y Gnoll.<br><br>A minnau'n gyn-newyddiadurwr ac yn eiriolwr o blaid llwybrau diogel cynaliadwy a gweithgarwch i wella iechyd a llesiant, mae'r cynigion ynglŷn â'r uchod yn peri ychydig o ofid i mi; dim ond drwy ddamwain y cefais wybod am hyd a lled cynlluniau'r awdurdod, ac rwy'n siŵr y byddwch yn drylwyr wrth gynnal ymarfer ymgynghori llawn gan fod llawer o'r trigolion sy'n byw ar hyd y prif lwybr (Cilgant Cimla) hefyd heb gael gwybod.<br><br>Ni wn pa dystiolaeth sydd i ategu'r cynigion gan fod y llwybr gan gynnwys Cilgant Cimla yn ffordd drwodd brysur y mae bysiau a lorïau, faniau danfon nwyddau a llawer o gerbydau'n ei defnyddio bob dydd. Mae'r dreifiau yn uniongyrchol ar y ffordd, ac mae rhai ar lethr gyda mannau dall felly byddai hyn yn destun pryder dwys. Caiff ceir eu parcio ar y ddwy ochr i'r ffordd a rhaid i yrwyr stopio i ildio, a bydd cerbydau mwy yn ei chael hi'n anodd mynd drwodd. Nid yw'r ffaith bod ymwelwyr â Thir y Gnoll hefyd yn defnyddio'r ffordd i barcio er mwyn osgoi talu'r costau parcio yn helpu'r sefyllfa. Ble y bydd disgwyl i bobl barcio os bydd y cynigion hyn yn mynd rhagddynt? Ar ben hyn, mae ugeiniau o bobl yn defnyddio'r llwybr i wneud ymarfer corff, cerdded a beicio, ac mae llawer ohonynt yn blant sy'n defnyddio'r droedffordd a'r llwybr i Dir y Gnoll ac oddi yno i fynd i'r ysgol ac oddi yno. Mae llawer o bensiynwyr, gan gynnwys rhai ar sgwteri symudedd, hefyd yn defnyddio'r llwybr. Ceir llawer o blant sydd hefyd yn byw ar y Cilgant.<br><br>Ni allaf weld sut y byddai'r llwybr yn cynnig ffordd ddiogel i bawb deithio pe bai'n cael ei agor fel llwybr beiciau. Mae sawl damwain eisoes wedi bod bron â digwydd gan fod man dall ar y ffordd o Gilgant Cimla at y llwybr. Nid yn unig hynny, ond mae beicwyr modur hefyd yn rasio i lawr y llwybr ac yn defnyddio'r rhodfa fel lle i oryrru.<br><br>Cyfeiriaf hefyd at y cynigion i osod twmpathau cyflymder – mae gwaith ymchwil yn dangos bod hyn yn cynyddu llygredd ac allyriadau o gerbydau sy'n brecio ac yna'n cyflymu i fynd dros y twmpathau, ac nid yw'n helpu'r sefyllfa i'r beicwyr na thrigolion.<br><br>Y pryder arall yw agor y Gatiau Coffa i ganiatáu i feicwyr fynd drwodd. Caiff yr ardal hon ei defnyddio ar gyfer myfyrio tawel ac nid yw hyn yn dangos llawer o barch at y rhai sy'n ymweld â'r gofeb yn rheolaidd. Nid yn unig hynny, ond byddai'n caniatáu i fwy fyth o feicwyr modur ddefnyddio'r ardal fel trac rasio. | Caiff ymgynghoriad llawn ei gynnal ar gyfer y cynllun ehangach maes o law.<br><br>Mae'r pryderon ynglŷn â Chilgant Cimla wedi cael eu nodi, ond nid yw'r is-ddeddf yn cynnwys Cilgant Cimla.<br><br>Diolch am eich ymateb ynglŷn â'r Gatiau Coffa. Dylai pobl ystyried defnyddwyr eraill wrth ddefnyddio pob troedffordd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rwy'n eich annog i ailystyried y cynlluniau. Nid oes angen i'r llwybr fod yn llwybr teithio llesol dynodedig gan ei fod eisoes yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn heb y risgiau diogelwch ychwanegol y byddai'r cynigion yn eu hachosi. | |
| **8** | Mewn perthynas â'r cynnig i ddiwygio'r geiriad yn is-ddeddf 1975. Cawn ar ddeall y byddai'r geiriad canlynol yn cael ei ddileu o'r is-ddeddfau.<br><br>(ii) A person shall not except in the exercise of any lawful right or privilege ride any bicycle, tricycle or other similar machine in any part of the pleasure ground.<br><br>Nodwn hefyd fod geiriad ychwanegol sy'n llywodraethu ymddygiad defnyddwyr cerbydau a beiciau ac mae'n ymddangos y dylai hwn aros er mwyn sicrhau y bydd cyfrifoldeb yn parhau ar unrhyw un sy'n beicio o fewn y fangre i ymddwyn mewn modd diogel ac ystyriol.<br><br>8. A person who brings a vehicle into the pleasure ground shall not wheel or station it over or upon<br>(i) any flower bed, shrub, or plant, or any ground in course of preparation as a flower bed, or for the growth of any tree, shrub, or plant;<br>(ii) any part of the pleasure ground where the Council by a notice board affixed or set up in some conspicuous position in the pleasure ground prohibit its being wheeled or stationed.<br><br>9. A person shall not in the pleasure ground ride or drive any vehicle at such a speed and in such a manner as to cause danger to other persons in the pleasure ground or without reasonable consideration for such persons.<br><br>Mae NPT links yn cefnogi'r cynnig hwn | Diolch am eich cefnogaeth. |
| **9** | Rwy'n falch o weld y cynnig i ganiatáu beicio ym mharc y Gnoll ond mae gen i rai pryderon.<br>Rwyf o blaid beicio a'r rhan fwyaf o ddulliau teithio pŵer isel. A fydd consesiynau ar gyfer beiciau trydan, sgwteri, sgwteri symudedd ac ati, ac a fydd amodau i reoleiddio ymddygiad, e.e. cyflymder a allai effeithio ar gerddwyr, pobl sy'n mynd â chŵn am dro ac ati. | Ni fydd consesiwn; bydd disgwyl i ddefnyddwyr fod yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill wrth ddefnyddio'r llwybr. |
| **10** | Rhaid i mi bwysleisio nad yw fy mhryderon yn ymwneud â beicwyr yn gyffredinol a'u bod yn cyfeirio'n benodol at y Gerddi Coffa. Mae'r ardal benodol hon yn rhan o gynnig CBSCNPT. Mae nifer o fynedfeydd eraill eisoes ar gael i feicwyr sy'n dymuno defnyddio tiroedd hamdden y Gnoll ac yn cael eu defnyddio'n helaeth ganddynt e.e. o Riw Cimla (yr hen brif fynedfa i'r Gnoll), Cilgant Cimla, pen uchaf ystad Glannant ac o Fairyland (y brif fynedfa) ac ochr Llantwit lle mae nifer o fynedfeydd yn bodoli ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.<br><br>Mae'r rhan benodol o'r Gerddi Coffa yn rhan o gynnig CBSCNPT. Yn ein tref, mae gennym gofeb fendigedig i ryfeloedd byd 1914-18 ac 1939-45 sy'n rhestru enwau'r rhai o Gastell-nedd a fu farw yn y rhyfeloedd hyn, a chofebau sylweddol mwy diweddar i bobl o Gastell-nedd a fu farw ym Myrma ac mewn rhyfeloedd ledled y byd ar ôl 1945. Y llwybr sy'n arwain ati sy'n ffurfio'r Gerddi Coffa y mae eich llythyr a'r diwygiad arfaethedig i'r is-ddeddf yn cyfeirio atynt. Mae arwyddion wedi bodoli ers blynyddoedd yn yr ardal hon yn dynodi Dim gemau pêl, sy'n cyfoethogi ymhellach ddifrifoldeb a heddwch yr ardal benodol hon sy'n golygu cymaint i gynifer o bobl. Yr ardal benodol hon yw ffocws digwyddiadau coffa Castell-nedd i'r rhai a wnaeth yr aberth eithaf ar ddyddiadau ac adegau allweddol drwy gydol y flwyddyn, y bydd llawer o bobl yn bresennol ynddynt, i danlinellu difrifoldeb, pwysigrwydd ac arwyddocâd cysegredigrwydd y Gerddi Coffa. Dyma fy mhryder a'm gwrthwynebiad, sydd wedi fy nghymell i ysgrifennu atoch.<br><br>Mae'n anffodus bod e-feiciau, e-sgwteri a beiciau modur wedi dechrau defnyddio'r lle hwn yn ddiweddar. Ei ddiben yw cofio'r aberthau. Bydd cyfreithloni beiciau yn anfon neges at ddefnyddwyr amrywiaeth o ddulliau teithio eraill ei bod hi'n iawn gwneud hynny. | Diolch am eich ymateb ynglŷn â'r Gerddi Coffa.<br><br>Diben agor y gatiau yw galluogi nid yn unig beicwyr, ond hefyd bobl anabl sy'n defnyddio beiciau wedi'u haddasu, sgwteri symudedd, neu gadeiriau olwyn, i gael mynediad i'r ardal. Nid tarfu ar yr ardal fyddai'r bwriad o gwbl. |

| | | |
|---|---|---|
| **11** | Yn gyntaf, a oes rheswm penodol pam mai dim ond ar gyfer y rhan hon o'r parc y mae'r is-ddeddf yn cael ei chodi, yn hytrach na'r parc yn ei gyfanrwydd?<br><br>Yn ail, fel parc mae gennym bryder bach ynglŷn â'r lleoliad. Rwy'n poeni ynglŷn â'r ffordd y mae'r llwybr beicio'n ymuno ag un o'r prif rodfeydd i mewn i'r Gnoll. Gallaf weld hyn yn troi'n risg iechyd a diogelwch, ac yn ardal eithaf peryglus oherwydd y llinell weld ac ati. | Y cynnig yw diwygio'r is-ddeddf yn y rhan hon yn unig gan nad yw'r llwybrau eraill drwy'r Gnoll yn cydymffurfio â'r safonau a nodir yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>Caiff yr ardal hon ei dylunio yn unol â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Caiff pob pryder ynglŷn â diogelwch, fel lled, lefelau traffig a llinell weld, ei ystyried.<br>Cynigir y caiff marciau ffordd eu hychwanegu at y gyffordd er mwyn dweud wrth fodurwyr am ildio i ddefnyddwyr ffordd sy'n dod tuag atynt. |
| **12** | Er nad oes gennym wrthwynebiad mewn egwyddor i'r diwygiad arfaethedig i'r is-ddeddf, nid oes digon o wybodaeth ar hyn o bryd i ddeall sut y bydd y diwygiad yn effeithio ar y parc a'r ardd hanesyddol. Bydd newidiadau i'r llwybr troed presennol, gan gynnwys gosod wyneb newydd, goleuadau, arwyddion, marciau ffordd a newidiadau i'r gatiau coffa yn cael effaith, ynghyd â'r profiad a gaiff defnyddwyr y parc. Felly, bydd angen rhagor o wybodaeth am yr agweddau hyn cyn i ni allu gwneud sylwadau llawn. Cynghorwn y dylai Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth gael ei gynnal gan ymgynghorydd treftadaeth cymwysedig sydd â phrofiad o weithio mewn parciau a gerddi hanesyddol a thirweddau wedi'u dylunio.<br><br>Yn olaf, mae'n bosibl y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar asedau hanesyddol heb eu dynodi hefyd, a byddem yn eich cynghori i edrych ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a ddelir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent www.ggat.org.uk os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes. | Caiff cais am gydsyniad adeilad rhestredig ei gyflwyno i chi, yn ogystal ag unrhyw ddogfennau ategol, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth. |
| **13** | Dymunaf wrthwynebu'n gryf iawn y cynnig i newid yr is-ddeddfau presennol i ganiatáu mynediad i feiciau drwy Erddi Coffa'r Gnoll. Bydd y mynediad arfaethedig yn dinistrio heddwch a llonyddwch y gerddi hyn ac mae'n anochel y bydd yn gwahodd mwy o ddefnydd o ddulliau teithio eraill, gan gynnwys e-feiciau, e-sgwteri a beiciau modur, sydd i gyd eisoes wedi mynd i mewn i'r Gerddi Coffa yn anghyfreithlon ar sawl achlysur. Mae'r peryglon i gerddwyr, pobl sy'n mynd â chŵn am dro a theuluoedd ifanc yn amlwg yn fy marn i.<br><br>Mae mynediad eisoes ar gael i feiciau a'u teithwyr drwy amrywiaeth o fynedfeydd eraill i ardal ehangach Parc y Gnoll ac rwy'n teimlo bod y diwygiad arfaethedig i gynnwys Gerddi Coffa'r Gnoll yn ddiangen, yn beryglus o bosibl ac yn anghywir.<br><br>Hefyd, mae natur annoeth y cynnig hwn yn troi diben gwreiddiol y Gerddi Coffa, sef 'cofio' a chofio aberthau cannoedd o aelodau o gymuned ehangach Castell-nedd yn rhyfeloedd 1914-18 ac 1939-45 a'r rhyfeloedd ledled y byd ar ôl 1945, ar ei ben yn gyfan gwbl. Onid dadl foesol yw'r ddadl anorchfygol yn erbyn y diwygiad arfaethedig. Onid oes rhaid rhoi blaenoriaeth i gofio'r aberth eithaf a wnaed gan gannoedd o bobl Castell-nedd drwy fyfyrdod tawel, mewn lle y cyfeirir ato fel mynwent gyfunol ein trefn i'r rhai a fu farw mewn rhyfeloedd, wedi'r cyfan, uwchlaw ystyried mynediad i feiciau.<br><br>Rwy'n annog y cyngor i roi'r gorau i'r cynnig hwn a pharhau i ganolbwyntio ei ymdrechion ar gynnal a chadw'r lle gwerthfawr iawn hwn ar ei ffurf bresennol yn lle hynny. | Diben agor y gatiau fyddai galluogi'r holl ddefnyddwyr – nid dim ond beicwyr ond defnyddwyr sgwteri symudedd, cadeiriau olwyn ac ati hefyd – i fynd drwy'r fynedfa. Nid tarfu ar yr ardal fyddai'r bwriad o gwbl. Dylai pobl ystyried defnyddwyr eraill wrth ddefnyddio pob troedffordd.<br>Y rheswm dros y mynediad hwn yw y byddai'n cynnig ffordd gyswllt barhaus, ddiogel a di-dor i ddefnyddwyr o Gastell-nedd i Gefn Saeson ym mhen uchaf Cimla, gan ganiatáu mynediad diogel i bob defnyddiwr o bob gallu. |
| **14** | Cyn i mi restru fy ngwrthwynebiadau, hoffwn nodi 2 beth:<br>Yn gyntaf oll, hoffwn nodi y bydd hyn nid yn unig yn effeithio ar y tiroedd Hamdden yn y Gnoll, ond hefyd yn cael effaith enfawr ar y Gerddi Coffa sy'n cynnig lle i ni gofio ein harwyr a fu farw yn y rhyfel byd 1af, yr 2il ryfel byd a rhyfeloedd eraill hefyd. Mae beicio drwy'r ardal hon yn dangos diffyg parch llwyr.<br>Yn ail, bydd newid yr Is-ddeddf hon yn arwain at oblygiadau aruthrol i Iechyd, Diogelwch a llesiant y Cyhoedd, a gallai hyd yn oed arwain at golled bywyd pe bai damwain.<br>Isod gweler fy ngwrthwynebiadau yn fanwl a'r rhesymau pam:<br>1. Mae nifer yr ymwelwyr yn y man lle y bydd y llwybr beicio arfaethedig eisoes yn sylweddol, gan gynnwys coetshis cadair, pramiau, plant bach yn cerdded gyda rhieni/neiniau a theidiau, yr henoed a phobl yn | Byddai'r cynnig i greu llwybr cyd-ddefnyddio yn cael ei ddylunio mewn cydymffurfiaeth â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Byddai angen i ddefnyddwyr y llwybr, boed ar droed neu ar feic, ystyried defnyddwyr eraill wrth ei ddefnyddio. Caiff darpariaethau eu dylunio i wella'r troedffyrdd cyfagos fel rhan o'r cynllun ehangach er mwyn cynnig profiad mwy cyfforddus i bawb – nid yn unig beicwyr, ond hefyd bobl anabl sy'n defnyddio beiciau wedi'u haddasu, |

| | | |
|---|---|---|
| | mynd â'u cŵn am dro. Felly, bydd cerddwyr mewn mwy o berygl, yn enwedig yn ardal y Gerddi Coffa oherwydd eu dyluniad.<br>2. Bydd y llwybr beicio arfaethedig wrth fynedfa'r Gerddi Coffa a Rhodfa'r Gnoll. Mae'r fynedfa eisoes yn gul a bydd tagfeydd yno'n aml wrth i gerbydau fynd i mewn ac allan o Rodfa'r Gnoll drwy'r amser. Nid oes digon o le fel y mae ar hyn o bryd heb ychwanegu nifer mawr o feicwyr hefyd; bydd hyn yn cynyddu'r risg o ddamweiniau.<br>3. Onid rhywle a ddylai fod yn heddychlon ac yn dawel i gofio'r rhai a fu farw yw Gardd Goffa. Rhywle lle y gwaherddir beicio. Mae'n ymddangos bod sensitifrwydd y gerddi Coffa wedi cael ei anwybyddu'n llwyr. Natur hanesyddol yr is-ddeddf yw gwarchod sensitifrwydd y safle hwn. Os na all y cyngor lleol wneud hyn, sut y bydd disgwyl i'r cenedlaethau iau wneud yr un peth. Sut mae'r cyngor yn bwriadu rheoli Sul y Cofio, dathliadau D Day rydyn ni newydd eu cael a Diwrnodau Cofio eraill. Yn ystod fy holl deithiau yn y wlad hon ac Ewrop nid wyf erioed wedi gweld ardal Cofeb Rhyfel sydd â llwybr beicio'n mynd yn syth drwy ei chanol. Os bydd y Llwybr Beicio'n mynd rhagddo, bydd hynny'n ymyrryd â'r tir yn y Gerddi Coffa gan atal mwynhad a defnydd o'r tir hwn fel y mae ar hyn o bryd.<br>4. Mae llethr serth y tu ôl i'r Gatiau/Gerddi Coffa. Ceir Risg Iechyd a Diogelwch sylweddol y bydd Beicwyr yn teithio tuag at gefn y gatiau yn gyflym iawn gan roi'r cyhoedd mewn perygl. Mae'r gatiau y bydd yn rhaid i'r beicwyr fynd drwyddynt yn gul iawn; os bydd rhywun eisoes wrthi'n mynd i mewn i'r ardal hon, bydd risg sylweddol o ddamwain.<br>5. Gall clwb beicio fel Port Talbot Wheelers fod â hyd at 40 o feicwyr allan ar unrhyw adeg benodol; onid yw'r lefel hon o draffig yn ymddangos yn eithafol ar gyfer Cofeb Ryfel ac Ardal Breswyl â lle cyfyngedig. Yr hyn a fyddai'n peri mwy fyth o bryder yw rasys Beicio er enghraifft y Dragon Ride a gynhaliwyd y penwythnos hwn fel mae'n digwydd. Gwnaeth Cannoedd ar Gannoedd o feicwyr gymryd rhan. Hefyd, beth pe bai ras feicio'n cael ei threfnu ar yr un diwrnod â gwasanaeth coffa; sut y byddai hynny'n gweithio?<br>6. Hefyd, mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth y Gatiau Coffa. Rhoddir gwybod am hyn yn rheolaidd ac mae eisoes yn broblem ddifrifol i drigolion.<br>7. Bydd athrawon gyda'u disgyblion o Ysgolion Cynradd lleol yn aml yn cael eu gweld yn cerdded drwy'r Gerddi Coffa ar gyfer ymweliadau addysgol yn y Gnoll. Yr ysgolion y bydd hyn yn effeithio arnynt yw Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Alderman Davies, Ysgol Gynradd y Gnoll ac Ysgol Castell-nedd.<br>8. Hefyd, caiff y Gerddi Coffa eu defnyddio gan blant bach a'u rhieni fel ffordd drwodd er mwyn mynd i'r ysgolion a enwir uchod a byddant yn brysur iawn yn ystod amseroedd ysgol.<br>9. Er mai'r bwriad yw darparu llwybr beicio, ceir tystiolaeth anecdotaidd glir y bydd sgwteri trydan ac E Feiciau hefyd yn defnyddio'r llwybr, gan achosi perygl i gerddwyr unwaith eto.<br>Yn olaf, nid yw'r ymgynghoriad yn nodi a gafodd llwybrau eraill eu hystyried er mwyn cymharu manteision ac anfanteision y llwybrau eraill hyn. Hefyd, nid yw'r ymgynghoriad yn dweud pa asesiadau risg Iechyd a Diogelwch sydd wedi cael eu cynnal yn yr ardal os o gwbl.<br>Hoffwn gofnodi, os bydd y llwybr beicio'n mynd rhagddo, yr hoffwn weld y risg uchel o ddamweiniau posibl yn cael ei chofnodi ac, os bydd marwolaeth, y bydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cymryd cyfrifoldeb llawn gan eich bod wedi cael gwybod am y risgiau hyn cyn y newid i'r Is-ddeddf. | sgwteri symudedd, neu gadeiriau olwyn – i gael mynediad i'r ardal.<br><br>Mae'r cynlluniau'n cynnig y caiff bolardiau eu gosod igam-ogam er mwyn atal defnyddwyr rhag mynd drwy'r ardal ar gyflymder.<br><br>Byddai'r llwybr yn cael ei ddefnyddio fel ffordd gyswllt gyhoeddus o Gastell-nedd i Gimla; nid oes bwriad i'r llwybr arfaethedig gael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau chwaraeon ar hyn o bryd.<br><br>Diben agor y gatiau fyddai galluogi'r holl ddefnyddwyr – nid dim ond beicwyr ond defnyddwyr sgwteri symudedd, cadeiriau olwyn ac ati hefyd – i fynd drwy'r fynedfa. Nid tarfu ar yr ardal fyddai'r bwriad o gwbl. Dylai pobl ystyried defnyddwyr eraill wrth ddefnyddio pob troedffordd.<br><br>Un o'r prif resymau dros wella cyfleusterau teithio llesol yw hybu cerdded, beicio, neu olwyno, yn enwedig ar gyfer teuluoedd a phlant bach sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno.<br><br>Y bwriad yw darparu llwybr cyd-ddefnyddio ar gyfer pob defnyddiwr o bob gallu, ac nid dim ond llwybr beicio. |

**CRYNODEB**

Caiff yr adborth a geir gan y cyhoedd ei ddefnyddio er mwyn helpu'r cyngor i asesu pa mor addas fyddai bwrw ymlaen â'r broses o ddiwygio is-ddeddf 1975 a pharatoi lluniadau dylunio manwl ar gyfer y cynllun teithio llesol ehangach o Gastell-nedd i Gimla.

Caiff canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu eu hystyried ochr yn ochr â'r ystyriaethau ehangach mewn perthynas â chyflawnadwyedd, dichonoldeb peirianneg ac amserlenni cyflawni, a'u pwyso a'u mesur yn erbyn yr ystyriaethau hynny.

Rhagwelir y bydd rhagor o ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y cynllun ehangach o Gastell-nedd i Gimla maes o law felly caiff sylwadau ynglŷn â hynny eu hystyried bryd hynny.

# OS NAD YW'N BELL, GADEWCH Y CAR

GWYRDDACH

HAPUSACH

IACHACH